**Janet Finch-Saunders:** With regard to the Local Government Byelaws (Wales) Bill, is it not the case that while you might have received advice from the Wales Office, as well as the council general, you and the Minister for Local Government and Communities chose to ignore that advice? Will you explain to this Chamber and to the people of Wales why you chose to do that? Are you not now embarrassed that the first ever Bill to come forward from this institution has now found its way to the Supreme Court?

**Janet Finch-Saunders:** O ran Mesur Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) Mesur, onid yw'n wir, er eich bod efallai wedi cael cyngor gan Swyddfa Cymru, yn ogystal â'r cwnsler cyffredinol, eich bod chi a'r Gweinidog dros Lywodraeth Leol a Chymunedau wedi dewis anwybyddu'r cyngor. A wnewch chi egluro i'r Siambr hon ac i bobl Cymru pam y dewisoch wneud hynny? Onid ydych yn cywilyddio erbyn hyn bod y Mesur cyntaf erioed i'w gyflwyno gan y sefydliad hwn erbyn hyn wedi cyrraedd y Goruchaf Lys?

**The First Minister:** We did not refer it; the UK Government referred it. I am surprised that the Member raises this, given that she was on the committee that dealt with this Bill and that she never mentioned this point in all the time she examined the Bill. I want to make one thing absolutely clear: the Counsel General is representing the Welsh

**Y Prif Weinidog:** Ni wnaethom ni ei atgyfeirio; Llywodraeth y DU wnaeth hynny. Yr wyf yn synnu bod yr Aelod yn codi hyn, o gofio ei bod ar y pwyllgor a ymdriniodd â'r Mesur hwn, ac na wnaeth hi erioed grybwyll y pwynt hwn yn yr holl amser y bu hi'n archwilio'r Mesur. Yr wyf am wneud un peth yn hollol glir: mae'r Cwnsler Cyffredinol yn

Government in the hearing in October. Make of that what you will. [*Interruption.*]

cynrychioli Llywodraeth Cymru yn y gwrandawiad ym mis Hydref. Gwnewch o hynny beth a fynnwch. [*Torri ar draws*.]

**The Presiding Officer:** Order.

**Y Llywydd:** Trefn.

**The First Minister:** This is also a criticism of the Assembly Commission and the Presiding Officer, given that the Presiding Officer certified that the Bill was within competence. I can also tell the Member that Northern Ireland is also part of the hearing and that it will be supporting our position. So, it is not a case that, somehow, Wales is on its own on this; Northern Ireland sees the point and is supporting us. We await the outcome of the hearing in October.

**Y Prif Weinidog:** Mae hyn eto'n feirniadaeth o Gomisiwn y Cynulliad a'r Llywydd, o gofio bod y Llywydd wedi ardystio bod y Mesur o fewn cymhwysedd. Gallaf hefyd ddweud wrth yr Aelod bod Gogledd Iwerddon hefyd yn rhan o'r gwrandawiad, ac y bydd yn cefnogi ein sefyllfa. Felly, nid yw'n wir bod Cymru mewn rhyw ffordd ar ei phen ei hun ar hyn; mae Gogledd Iwerddon yn gweld y pwynt, ac yn ein cefnogi. Arhoswn am ganlyniad y gwrandawiad ym mis Hydref.

**Ieuan Wyn Jones:** Brif Weinidog, rydych yn ymwybodol, fel rydym i gyd, fod yr angen am gymorth a chyngor cyfreithiol wedi cynyddu yn sgîl y ffaith bod y sefydliad hwn bellach wedi cael pwerau deddfu. Faint o'r cyngor hwnnw y credwch y bydd ei angen y tu mewn i'r Llywodraeth a faint o gyngor cyfreithiol fydd angen ei gomisiynu y tu allan i'r gwasanaeth sifil? A allwch chi ddweud wrthym beth yw'r balans ar hyn o bryd ac i ba gyfeiriad y dymunwch weld y balans hwnnw'n mynd yn y dyfodol?

**Ieuan Wyn Jones:** First Minister, you are aware, as are we all, that the need for legal advice and support has increased as a result of the fact that this institution now has legislative powers. How much of that advice do you think will be required within the Government and how much legal advice will need to be commissioned outside the civil service? Can you tell us what the balance is at present and in which direction you wish to see that balance going in future?

**Y Prif Weinidog:** Fel y mae'r Aelod yn gwybod, mae'n anodd rhoi ateb i'r cwestiwn hwnnw, oherwydd ar gyfer rhai pethau o ddydd i ddydd fe fydd hi'n werth cyflogi cyfreithwyr amser llawn y tu fewn i'r Llywodraeth a bydd rhai pethau arbennig lle na fydd eisiau gwneud hynny, a bydd yn rhaid comisiynu pobl i ddod i mewn yn awr ac yn y man er mwyn sicrhau bod y cyngor cywir yn cael ei roi i Weinidogion. Wrth gwrs, mae'n rhaid cryfhau nifer y cyfreithwyr sydd gennym, ond nid wyf yn gweld amser yn dod lle bydd popeth yn cael ei ddelio ag ef y tu mewn i'r tŷ, fel petai, achos bydd rhai pethau ddim ond yn codi yn awr ac yn y man, neu ambell waith bob pum mlynedd, felly nid oes pwynt cyflogi rhywun llawn amser i wneud y gwaith hwnnw.

**The First Minister:** As the Member knows, it is difficult to answer that question, because there will be certain day-to-day issues for which it will be worth employing full-time lawyers within Government and there will be particular issues where that will not be necessary, and we will need to commission people to come in from time to time to ensure that the correct advice is provided to Ministers. Of course, we need to strengthen the number of lawyers that we have, but I do not see a time when everything will be dealt with in-house, because there will be certain issues that will arise from time to time, maybe once or twice every five years, and there is no point in having a full-time employee to deal with those.

### Gordewdra

### Obesity

***5. Mark Drakeford:*** *Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i fynd i'r*

***5. Mark Drakeford:*** *What steps are being taken by the Welsh Government to address*

*afael â gordewdra yng Nghymru. OAQ(4)0662(FM)*

*obesity in Wales. OAQ(4)0662(FM)*

**The First Minister:** We launched the all-Wales obesity pathway in 2010, which sets out a tiered approach for the prevention and treatment of obesity, from community-based prevention and early intervention to specialist medical and surgical services.

**Y Prif Weinidog:** Lansiwyd y llwybr gordewdra Cymru gyfan yn 2010, sy'n nodi dull haenog ar gyfer atal a thrin gordewdra, o atal cymuned ac ymyrraeth gynnar i wasanaethau arbenigol meddygol a llawfeddygol.

**Mark Drakeford:** Earlier this month, the New York City health board agreed unanimously to outlaw the provision of fizzy drinks in restaurants that are provided with a rating by the New York authorities, because of the amazing contribution that such drinks make to the problem of obesity. With a public health Bill on the horizon in Wales, will the Welsh Government consider that course of action and see whether it is something that we might want to replicate here?

**Mark Drakeford:** Yn gynharach y mis hwn, cytunodd bwrdd iechyd Dinas Efrog Newydd yn unfrydol i wahardd y ddarpariaeth o ddiodydd swigod mewn bwytai a ddarperir gyda graddfa arnynt gan awdurdodau Efrog Newydd, oherwydd y cyfraniad anhygoel mae diodydd o'r fath yn ei wneud i’r broblem o ordewdra .Gyda Mesur iechyd y cyhoedd ar y gorwel yng Nghymru, a wnaiff Llywodraeth Cymru ystyried y cam gweithredu hwnnw a gweld a yw'n rhywbeth y gallem fod eisiau ei ddyblygu yma?

**The First Minister:** I think that what they have done in New York City is limit the size of drinks rather than ban them. In some American sports stadiums, drinks can be bought that contain 1,600 calories; I am not sure what is in them, but it gives you some idea of the size of American portions as compared with ours. However, in answer in to your question, I will ask my officials to look at examples from other countries as the Bill is prepared, and consider whether we have the powers to regulate, if appropriate, in Wales.

**Y Prif Weinidog:** Yr wyf yn meddwl mai’r hyn y maent wedi ei wneud yn Ninas Efrog Newydd yw cyfyngu ar faint diodydd yn hytrach na’u gwahardd. Mewn ambell i stadiwm chwaraeon Americanaidd, gellir prynu diodydd sy'n cynnwys 1,600 o galorïau; nid wyf yn siŵr beth sydd ynddynt, ond mae'n rhoi rhyw syniad i chi o faint dogn Americanaidd o’i gymharu â'n rhai ni. Fodd bynnag, mewn ateb i'ch cwestiwn, byddaf yn gofyn i fy swyddogion edrych ar enghreifftiau o wledydd eraill wrth i'r Mesur gael ei baratoi, ac yn ystyried a oes gennym y pwerau i reoleiddio, os yw'n briodol, yng Nghymru.

**William Graham:** First Minister, obesity is has almost reached epidemic proportions in Wales. Sadly, in South Wales East, we have three United Kingdom obesity hotspots in Torfaen, Blaenau Gwent and Caerphilly. You will also know that the latest annual Welsh health survey indicates that there is a reduction in the eating of fruit and vegetables, and more than half of adults are overweight. Is it not time to relook at your policies to increase the reduction in this serious disease?

**William Graham:** Brif Weinidog, mae gordewdra bron wedi cyrraedd sefyllfa epidemig yng Nghymru. Yn anffodus, yn Ne-ddwyrain Cymru, mae gennym dair ardal o’r DU lle ceir llawer o ordewdra, yn Nhor-faen, Blaenau Gwent a Chaerffili. Byddwch hefyd yn gwybod bod yr arolwg blynyddol diweddaraf o iechyd Cymru yn dangos gostyngiad mewn bwyta ffrwythau a llysiau, a bod mwy na hanner yr oedolion dros eu pwysau. Onid yw'n bryd i ailedrych ar eich polisïau er mwyn gwella graddau gostyngiad ar gyfer y clefyd difrifol hwn?

**The First Minister:** Our Change4Life campaign helps families to eat well, to

**Y Prif Weinidog:** Mae ein hymgyrch Newid am Oes yn helpu teuluoedd i fwyta'n dda, i

exercise more and to live longer by providing ideas to address their eating and exercise habits. The focus over the summer has been on Games4Life, building on the impact of the Olympics and Paralympics; 8,500 families have signed up to Games4Life since July, and we expect that to have a real impact on reducing obesity in Wales.

ymarfer mwy ac i fyw'n hirach trwy ddarparu syniadau i fynd i'r afael â'u harferion bwyta ac ymarfer corff. Mae'r ffocws yn ystod yr haf wedi bod ar Games4Life, gan adeiladu ar effaith y Gemau Olympaidd a Pharalympaidd, mae 8,500 o deuluoedd wedi cofrestru i Games4Life ers mis Gorffennaf, a disgwyliwn i hynny gael effaith wirioneddol ar leihau gordewdra yng Nghymru.

**Lindsay Whittle:** When the Party of Wales was in Government, we introduced the MEND programme to help children who are above a healthy weight to become fitter, healthier and happier. Since we left Government, we have seen countless headlines about our growing obesity problems. First Minister, you seem reluctant to adopt our policy of empowering health and social care workers to tackle this issue. What we are doing is clearly not working. What radical ideas do you have, then, to tackle this issue?

**Lindsay Whittle:** Pan oedd Plaid Cymru yn rhan o'r Llywodraeth, cyflwynwyd y rhaglen MEND i helpu plant sydd dros bwysau iach i ddod yn fwy heini, yn iachach ac yn hapusach. Ers i ni adael y Llywodraeth, rydym wedi gweld penawdau di-ri am ein problemau gordewdra cynyddol. Brif Weinidog, mae'n ymddangos eich bod yn amharod i fabwysiadu ein polisi o rymuso gweithwyr gofal iechyd a chymdeithasol i fynd i'r afael â'r mater hwn. Mae'n amlwg nad yw'r hyn yr ydym yn ei wneud yn gweithio. Pa syniadau radical sydd gennych, felly, i fynd i'r afael â'r mater hwn?

**The First Minister:** I thank the Member for his question and for the new title that his party seems to have.

**Y Prif Weinidog:** Diolch i'r Aelod am ei gwestiwn, ac am y teitl newydd y mae'n ymddangos sydd gan ei blaid.

**Lindsay Whittle:** It is a registered title.

**Lindsay Whittle:** Mae'n deitl cofrestredig.

**The First Minister:** As far as his question is concerned, we would expect health visitors to take an interest in people's health, and that includes, of course, taking steps to reduce their obesity. We have the Change4Life campaign, which I believe will lead to a real reduction in obesity in Wales.

**Y Prif Weinidog:** O ran ei gwestiwn, byddem yn disgwyl i ymwelwyr iechyd gymryd diddordeb mewn iechyd pobl, ac mae hynny'n cynnwys, wrth gwrs, cymryd camau i leihau eu gordewdra. Mae gennym yr ymgyrch Newid am Oes ac rwyf yn credu y bydd yn arwain at leihad gwirioneddol mewn gordewdra yng Nghymru.

**Jenny Rathbone:** Last week, the BBC's *Food Programme* highlighted the so-called food and drink being sold in cinemas; 85% of these items are sold for pure profit. It is difficult to see how these cinemas will stop selling this junk—it was established that it was all junk, of no nutritional value whatsoever. A hard sell goes on in cinemas to persuade families to buy this stuff when they are going to see a film. Would your Government consider putting a measure into the public health Bill to tackle this issue, because I cannot see how the matter is going to change? It is akin to the tobacco industry, which kept on poisoning people long after it

**Jenny Rathbone:** Yr wythnos diwethaf, tynnodd *Food Programme* y BBC sylw at y bwyd a diod fel y'u gelwir sy'n cael eu gwerthu mewn sinemâu, mae 85% o'r eitemau hyn yn cael eu gwerthu am elw pur. Mae'n anodd gweld sut y bydd y sinemâu hyn yn rhoi'r gorau i werthu y sothach hwn – sefydlwyd mai sothach yw'r cyfan, ac o ddim gwerth maethol o gwbl. Mae gwerthu brwd yn mynd ymlaen mewn sinemâu i berswadio teuluoedd i brynu'r pethau hyn pan fyddant yn mynd i weld ffilm. A fyddai eich Llywodraeth yn ystyried rhoi mesur ym Mesur iechyd y cyhoedd i fynd i'r afael â'r mater hwn, oherwydd ni allaf weld sut y mae

was known that smoking gave people cancer. It is the same problem here: cinemas know that this is causing obesity, that the food has no nutritional content and that people go out and buy additional meals because they are hungry.

hyn yn mynd i newid? Mae'n debyg i'r diwydiant tybaco a barhaodd i wenwyno pobl am amser hir ar ôl iddo ddod yn hysbys bod ysmygu yn rhoi canser i bobl. Ceir yr un broblem yma: mae sinemâu yn gwybod bod hyn yn achosi gordewdra, nad oes unrhyw faeth yn y bwyd a bod pobl yn mynd allan a phrynu prydau ychwanegol oherwydd eu bod yn llwglyd.

**The First Minister:** All things that might help to improve the overall rate of public health in Wales will be considered as part of the Bill. It is important to provide a supportive environment in which children and young people can make healthy choices, so last week we issued two guidance documents, one targeting youth-work settings and the other leisure centres. They give practical advice to support the introduction and promotion of healthier food and drink at these leisure venues.

**Y Prif Weinidog:** Bydd yr holl bethau a allai helpu i wella cyfradd gyffredinol iechyd y cyhoedd yng Nghymru yn cael eu hystyried yn rhan o'r Mesur. Mae'n bwysig i ddarparu amgylchedd cefnogol lle y gall plant a phobl ifanc wneud dewisiadau iach, felly yr wythnos diwethaf, cyhoeddwyd dwy ddogfen arweiniol, un yn targedu lleoliadau gwaith ieuenctid a'r llall yn targedu canolfannau hamdden eraill. Maent yn rhoi cyngor ymarferol i gefnogi cyflwyno a hyrwyddo bwyd a diod iachach yn y lleoliadau hamdden hyn.

2.00 p.m.

**Trafodaethau gyda Phrif Weinidog y Deyrnas Unedig**

**Discussions with the Prime Minister**

***6. Yr Arglwydd Elis-Thomas:*** *Pa drafodaethau a fu rhwng Prif Weinidog Cymru a Phrif Weinidog y Deyrnas Unedig yn ystod toriad yr haf. OAQ(4)0652(FM)*

***6. Lord Elis-Thomas:*** *What discussions did the First Minister hold with the Prime Minister during the summer recess. OAQ(4)0652(FM)*

**Y Prif Weinidog: C**wrddais â'r Prif Weinidog ym mis Gorffennaf, a chwrddais ag ef eto yng nghyfarfod cydbwyllgor y Gweinidogion ddydd Mercher diwethaf.

**The First Minister:** I met the Prime Minister in July and met him again at the joint ministerial committee meeting last Wednesday.

**Yr Arglwydd Elis-Thomas:** Diolch yn fawr i'r Prif Weinidog, ond a wnaiff fanteisio ar bob cyfle i esbonio i Brif Weinidog a Dirprwy Brif Weinidog y Deyrnas Unedig nad yw'n fusnes iddynt fynegi barn am bolisïau datganoledig yng Nghymru, yn arbennig ym maes addysg?

**Lord Elis-Thomas:** I thank the First Minister, but will he take advantage of every opportunity to explain to the UK Prime Minister and Deputy Prime Minister that it is not their place to express opinions about devolved policies in Wales, especially in the field of education?

**Y Prif Weinidog:** Mae hynny'n iawn. Rydym yn credu mewn tegwch yng Nghymru, ond nid felly y mae hi o ystyried sefyllfa Gweinidogion Lloegr. Mae'n eironig ein bod yn cael ein cyhuddo gan Nick Clegg o feirniadu Llywodraeth y Deyrnas Unedig drwy'r amser: nid ydym yn gwneud hynny. Fodd bynnag, bob tro y mae'n dod i Gymru, y cyfan y mae'n ei wneud yw beirniadu

**The First Minister:** That is right. In Wales, we believe in fairness, but that is not how English Ministers see things. It is ironic that we are accused by Nick Clegg of continuously criticising the UK Government: we do not do that. However, every time he comes to Wales, all he does is criticise the Welsh Government. That is ironic, but he has not realised that. Of course, this is our

Llywodraeth Cymru. Mae eironi yn hynny, ond nid yw wedi sylweddoli hynny. Wrth gwrs, ni sy’n gyfrifol yng Nghymru, ond mae’r hyn sy’n cael ei ddweud gan Nick Clegg, sydd wedi cymryd safbwynt yn erbyn diddordebau pobl ifanc Cymru, yn siomedig iawn.

responsibility in Wales, but what has been said by Nick Clegg, who takes a stance against the interests of the young people of Wales, is very disappointing.

**Kenneth Skates:** During the summer, the GMB published statistics highlighting that over 388,000 workers in Wales—that is one in three of the total workforce—would be at risk of having their wages cut if the Tory-Lib Dem coalition Government followed through on its plans to introduce regional pay. Will you reaffirm this Welsh Government’s total and unqualified opposition to the introduction of regional pay?

**Kenneth Skates:** Yn ystod yr haf, cyhoeddodd y GMB ystadegau a oedd yn amlygu y byddai dros 388,000 o weithwyr yng Nghymru - hynny yw un mewn tri o gyfanswm y gweithlu - mewn perygl o gael gostyngiad yn eu cyflogau os bydd Llywodraeth glymblaid y Torïaid-Democratiaid Rhyddfrydol yn gwireddu eu cynlluniau i gyflwyno cyflogau rhanbarthol. A wnewch chi gadarnhau eto gwrthwynebiad llwyr a diamod Llywodraeth Cymru i gyflwyno cyflogau rhanbarthol?

**The First Minister:** I reiterate that. I very much welcome what the leader of the Welsh Liberal Democrats has been saying about that, and I certainly welcome what Baroness Randerson has said, in her full opposition to regional pay.

**Y Prif Weinidog:** Rwyf yn cadarnhau hynny. Yr wyf yn croesawu'r hyn y mae arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol wedi bod yn ei ddweud am hynny, ac yr wyf yn sicr yn croesawu'r hyn y mae’r Farwnes Randerson wedi'i ddweud, yn ei gwrthwynebiad llwyr i gyflogau rhanbarthol.

People in Wales do not deserve to be paid less to do the same thing than people in the south west of England, the west midlands or the south east of England. It is as simple as that. [*Interruption.*] ‘Of course they are’ says the leader of the opposition: now we know where he stands. [*Interruption.*]

Nid yw pobl yng Nghymru yn haeddu cael eu talu’n llai i wneud yr un peth o’i gymharu â phobl yn ne-orllewin Lloegr, gorllewin canolbarth Lloegr neu de-ddwyrain Lloegr. Mae mor syml â hynny. [Torri ar draws.] 'Wrth gwrs eu bod' meddai arweinydd yr wrthblaid: rydym yn gwybod ble mae e'n sefyll nawr.[Torri ar draws.]

**The Presiding Officer:** Order. It is not a point of order.

**Y Llywydd:** Trefn. Nid yw'n bwynt o drefn.

**The First Minister:** Things cost the same, if not more, in Wales than in many parts of England, including petrol and food. It does not cost less to shop in Tesco in Bridgend than in Tesco in Bristol. This is nothing but an attempt to remove money from hard working families across the UK, at a time when the UK Government is, once again, trying to target those who are most vulnerable.

**Y Prif Weinidog:** Mae pethau’n costio yr un faint, os nad yn fwy, yng Nghymru nag mewn sawl rhan o Loegr, gan gynnwys petrol a bwyd. Nid yw'n costio llai i siopa yn Tesco ym Mhen-y-bont ar Ogwr nag yn Tesco ym Mryste. Nid yw hyn yn ddim ond ymgais i dynnu arian oddi ar deuluoedd sy'n gweithio mor galed ar draws y DU, ar adeg pan fo Llywodraeth y DB, unwaith eto, yn ceisio targedu'r rhai sydd fwyaf agored i niwed.

**Andrew R.T. Davies:** I have made no such allegation, First Minister: I mentioned the

**Andrew RT Davies:** Nid wyf wedi gwneud y fath honiad, Brif Weinidog: Soniais am y

courts service. You are the only leader in this Chamber of a party that introduced regional pay to Wales. Get your facts right.

gwasanaeth llysoedd. Chi yw'r unig arweinydd yn y Siambr hwn o blaid a gyflwynodd gyflogau rhanbarthol i Gymru. Dylech sicrhau bod eich ffeithiau'n gywir.

What actions have you taken over the summer months to promote Cardiff Airport in respect of the aviation policy of the UK? I raised that with you in June, and you indicated at that time that you would take action to raise with the Prime Minister that Cardiff Airport should be considered in the mix to alleviate overcrowding over south-east England. I hope that you have taken that point forward in your meetings with the Prime Minister over the last couple of weeks.

Pa gamau a gymerwyd gennych yn ystod misoedd yr haf i hyrwyddo Maes Awyr Caerdyd o ran  polisi hedfan y DU? Codais hynny gyda chi ym mis Mehefin,  a nodwyd gennych ar y pryd y byddech yn cymryd camau i godi'r mater gyda'r Prif Weinidog y dylai Maes Awyr Caerdydd gael ei ystyried yn y gymysgedd i leddfu gorlwytho dros dde-ddwyrain Lloegr. Gobeithio eich bod wedi trafod y pwynt yn eich cyfarfodydd gyda'r Prif Weinidog dros yr wythnos neu ddwy ddiwethaf.

**The First Minister:** The leader of the opposition should be careful about what he says in asides. He had an opportunity there to declare his absolute opposition to regional pay, and he failed to do so. He had the opportunity, and he failed to do so in this Chamber.

**Y Prif Weinidog:** Dylai arweinydd yr wrthblaid fod yn ofalus o'r hyn y mae'n ei ddweud wrth fynd heibio. Roedd ganddo gyfle nawr i ddatgan ei wrthwynebiad llwyr i gyflogau rhanbarthol, ond methodd â gwneud hynny. Cafodd y cyfle, a methodd â gwneud hynny yn y Siambr hon.

He asked about Cardiff Airport, and he will see the announcement that was made today. He will see what Cardiff Airport has said about its gratitude for the support of the Welsh Government. Once again, he is on the wrong side of the argument. He claimed that the airport was fine and he attacked us for wanting to take the airport forward. I have spoken to the airport workers: they are not impressed with him, but they are happy with what we have done.

Gofynnodd am Faes Awyr Caerdydd, a bydd yn gweld y cyhoeddiad a wnaed heddiw. Bydd yn gweld yr hyn y mae Maes Awyr Caerdydd wedi'i ddweud am ei ddiolchgarwch am gefnogaeth Llywodraeth Cymru. Unwaith eto, mae ar ochr anghywir y ddadl. Honnodd bod y maes awyr yn iawn ac fe ymosododd  arnom ni am ein bod eisiau datblygu'r maes awyr. Rwyf wedi siarad â gweithwyr y maes awyr: nid yw ef wedi creu argraff arnynt, ond maent yn fodlon â'r hyn yr ydym ni wedi'i wneud.

### Costau Ynni

### Energy Costs

***7. David Rees:*** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am drafodaethau y mae wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch effaith costau ynni uchel ar ddiwydiant Cymru. OAQ(4)0665(FM)*

***7. David Rees:*** *Will the First Minister make a statement on discussions he had had with the UK Government on the impact of high energy costs on Welsh industry. OAQ(4)0665(FM)*

**The First Minister:** I have raised this important issue on a number of occasions with several UK Government Ministers. I did so yesterday with Lord Green, and I raised it with the Prime Minister and the Deputy Prime Minister last week. I have recently written again to the Secretary of State for Business, Innovation and Skills to reiterate

**Y Prif Weinidog:** Yr wyf wedi codi'r mater pwysig hwn ar sawl achlysur gyda sawl un o Weinidogion Llywodraeth y DU. Gwneuthum hynny ddoe gyda'r Arglwydd Green, ac fe'i codais gyda'r Prif Weinidog a'r Dirprwy Brif Weinidog yr wythnos diwethaf. Rwyf wedi ysgrifennu yn ddiweddar unwaith eto at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes,

that priority must be given to considering measures to relieve the impact of high energy prices on our manufacturers.

Arloesedd a Sgiliau i ailadrodd bod yn rhaid rhoi blaenoriaeth i ystyried mesurau i liniaru effaith prisiau ynni uchel ar ein gweithgynhyrchwyr.

**David Rees:** During the summer, you saw for yourself the excellent work being done in rebuilding No. 4 blast furnace, and the £185 million of investment that is coming into Wales through Tata. It has already indicated that difficult economic conditions and the global marketplace may have an impact on their starting up that blast furnace, because of the high energy costs and the carbon tax, which will disadvantage such industries in Wales—traditional industries that we have had for many years. What is the Welsh Government doing to support our traditional heavy industries to create a level playing field to enhance their competitiveness in the marketplace?

**David Rees:** Yn ystod yr haf, gwelsoch drosoch eich hun y gwaith ardderchog sy'n cael ei wneud wrth ailadeiladu ffwrnais chwyth Rhif 4, a’r £185 miliwn o fuddsoddiad sy'n dod i Gymru drwy Tata. Maent wedi dweud eisoes y gallai amodau economaidd anodd a'r farchnad fyd-eang gael effaith ar bryd y byddant yn cychwyn y ffwrnais chwyth, oherwydd y costau ynni uchel a'r dreth carbon, a fydd yn anfanteisiol i ddiwydiannau o'r fath yng Nghymru - diwydiannau traddodiadol sydd wedi bod gennym ni ers blynyddoedd lawer. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi ein diwydiannau trwm traddodiadol i greu maes chwarae gwastad i wella eu gallu i gystadlu yn y farchnad?

**The First Minister:** I refer the Member to the comments that I have just made in terms of the communications that I have had with UK Government Ministers. Last week, in our London office, I chaired a summit for energy-intensive industries, which followed an earlier summit in February, at which a plan of action was agreed.

**Y Prif Weinidog:** Cyfeiriaf yr Aelod at y sylwadau yr wyf newydd eu gwneud ynglŷn â’r gyfathrebiaeth yr wyf wedi'u chael gyda Gweinidogion Llywodraeth y DU. Yr wythnos diwethaf, yn ein swyddfa yn Llundain, bûm yn cadeirio cynhadledd ar gyfer diwydiannau ynni-ddwys, a oedd yn dilyn uwchgynhadledd gynharach ym mis Chwefror, pryd y cytunwyd ar gynllun gweithredu.

**Russell George:** Sir Nicholas Stern was very clear in his report in 2006 about the benefits of increasing business of early transitional action in relation to improving environmental performance. Therefore, can you tell me what aspects of the summit meeting last week were focused on this issue and what specific action points emerged regarding voluntarily improving environmental performance and increasing energy efficiency?

**Russell George:** Roedd Syr Nicholas Stern yn glir iawn yn ei adroddiad yn 2006 am fanteision cynyddu’r busnes o gamau trosiannol cynnar ar gyfer gwella perfformiad amgylcheddol. Felly, a allwch ddweud wrthyf pa agweddau ar y cyfarfod uwchgynhadledd yr wythnos diwethaf oedd yn canolbwyntio ar y mater hwn a pha bwyntiau gweithredu penodol a ddaeth i'r amlwg o ran gwella perfformiad amgylcheddol yn wirfoddol, a chynyddu effeithlonrwydd ynni?

**The First Minister:** In fairness to those who attended, they have already taken great steps to improve their energy efficiency. Tata is one example where a great deal has been done over the past few years to do that. However, the reality is that, if energy is cheaper in other countries, then no matter how efficient people become, they will

**Y Prif Weinidog:** Er tegwch i’r rhai a fynychodd, maent eisoes wedi cymryd camau breision i wella eu heffeithlonrwydd ynni. Mae Tata yn un enghraifft lle mae llawer iawn wedi ei wneud dros y blynyddoedd diwethaf i wneud hynny. Fodd bynnag, y gwir amdani yw, os yw ynni yn rhatach mewn gwledydd eraill, yna ni waeth pa mor

simply move to those other countries. It is a fact that industry is paying less in Germany, France and Spain; my worry is that it will make it much more difficult for us to attract investment and we will lose the jobs that we already have. It is a problem for the UK as a whole and action needs to be taken sooner rather than later.

effeithiol y bydd pobl, byddant yn syml yn symud i'r gwledydd eraill hynny. Mae'n ffaith fod diwydiant yn talu llai yn yr Almaen, Ffrainc a Sbaen; fy mhryder i yw y bydd yn ei gwneud yn llawer mwy anodd i ni ddenu buddsoddiad ac y byddwn yn colli'r swyddi sydd gennym eisoes. Mae'n broblem ar gyfer y DU yn ei chyfanrwydd ac mae angen cymryd camau yn y dyfodol agos.

**Alun Ffred Jones:** Un diwydiant lle mae costau tanwydd uchel yw ffermio llaeth. Rydych wedi cyfeirio yn eich atebion heddiw lawer tro at yr hyn sy'n digwydd yn Lloegr, ond mae'r mater hwn o dan eich rheolaeth chi. Un o'r atebion i ffermwyr llaeth yw cael melin wynt ar eu tir i gynhyrchu trydan ar y safle. A yw eich Llywodraeth chi yn gefnogol i geisiadau o'r fath ac a fydd unrhyw gyfeiriad at hynny yn y Bil cynllunio a fydd yn dod gerbron y Cynulliad?

**Alun Ffred Jones:** One industry facing high energy prices is dairy farming. You have made many references in your replies today to what is happening in England, but this issue is under your control. One solution for dairy farmers is to have a wind turbine on their land to generate energy on site. Is your Government supportive of such moves, and will the planning Bill that will appear before the Assembly include a reference in that respect?

**Y Prif Weinidog:** Rydym am hybu microgynhyrchu ynni. Nid yw hwn yn rhywbeth a fyddai'n ymddangos mewn Bil, ond byddai'n cael ei ystyried yng nghyd-destun arwain awdurdodau lleol o ran yr hyn maent yn ei wneud yn y dyfodol. Felly, mae hwn yn rhywbeth y dylid ei gynnwys fel rhan o gyngor cynllunio ac nid, efallai, mewn Bil.

**The First Minister:** We want to promote energy microgeneration. This is not something that would appear in a Bill, but it would be considered in the context of guidance given to local authorities in terms of what they do in the future. Therefore, this is something that should be included in planning advice, rather than in a Bill perhaps.

**William Powell:** First Minister, in light of discussions that you referred to with the UK Government, what steps will you take to promote aspects of the Department of Energy and Climate Change's Green Deal and Welsh Government programmes to reduce the impact of high energy costs derived from volatility in the fossil fuel market, both on Welsh industry and on Welsh households?

**William Powell:** Brif Weinidog, yng ngoleuni trafodaethau yr ydych wedi cyfeirio atynt gyda Llywodraeth y DU, pa gamau y byddwch chi'n eu cymryd i hyrwyddo agweddau ar waith Bargen Werdd yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd a rhaglenni Llywodraeth Cymru i leihau effaith y costau ynni uchel hyn sy'n deillio o anwadalrwydd yn y farchnad tanwydd ffosil, ar ddiwydiant Cymru ac ar aelwydydd Cymru?

**The First Minister:** We will, of course, seek to do that. The industries that we are talking about are very energy intensive. Some of them generate their own power and have taken great strides to reduce their bills, but it remains the case that they are paying more than others elsewhere. What seems to happen in the UK is that the wholesale prices are similar to those elsewhere in Europe, but, for a number of reasons, the price paid by the industrial customer in the UK is higher than elsewhere in Europe. It is done through a number of different ways in other European

**Y Prif Weinidog:** Byddwn, wrth gwrs, yn ceisio gwneud hynny.Mae'r diwydiannau yr ydym yn sôn amdanynt yn defnyddio llawer o ynni. Mae rhai ohonynt yn cynhyrchu eu trydan eu hunain ac wedi cymryd camau breision i leihau eu biliau, ond mae'n dal yn wir eu bod yn talu mwy nag eraill mewn mannau eraill. Beth y mae'n ymddangos sy'n digwydd yn y DU yw bod y prisiau cyfanwerthu yn debyg i'r rhai mewn mannau eraill yn Ewrop, ond, am nifer o resymau, mae'r pris a delir gan y cwsmer diwydiannol yn y DU yn uwch nag yn unman arall yn

countries. The point that I want to make is that it is absolutely crucial that we create a level playing field between the UK and elsewhere, which does not exist at the moment. This is a message that I hear on a regular basis from our energy-intensive industries.

Ewrop. Mae'n cael ei wneud trwy nifer o ffyrdd gwahanol mewn gwledydd Ewropeaidd eraill. Y pwynt yr wyf am ei wneud yw ei bod yn gwbl hanfodol ein bod yn creu maes chwarae gwastad rhwng y DU a mannau eraill, nad yw'n bodoli ar hyn o bryd. Mae hon yn neges a glywaf yn rheolaidd gan ein diwydiannau ynni-ddwys .

**Gwaith yn Islwyn**

**Employment in Islwyn**

***8. Gwyn R. Price:*** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i helpu pobl i ddod o hyd i waith yn Islwyn. OAQ(4)0664(FM)*

***8. Gwyn R. Price:*** *Will the First Minister make a statement on what the Welsh Government is doing to help people find employment in Islwyn. OAQ(4)0664(FM)*

**The First Minister:** We are delivering on our programme for government commitments to extend apprenticeships, provide training opportunities and create 4,000 jobs each year for young people through our Jobs Growth Wales programme.

**Y Prif Weinidog: Yr** ydym yn cyflawni ein rhaglen ar gyfer ymrwymiadau’r llywodraeth i ymestyn prentisiaethau, darparu cyfleoedd hyfforddi a chreu 4,000 o swyddi bob blwyddyn i bobl ifanc trwy ein rhaglen Twf Swyddi Cymru.

**Gwyn R. Price:** Thank you for that answer. First Minister, it has not been an easy summer for the workforce of Remploy in Croespenmaen. They have, of course, been let down by the UK Government’s determination to take away their jobs. I know how seriously your Government is taking the task of finding employment for individuals, and you have made funds available to do exactly this. What further steps are you taking so that local employers understand that money is available to take the people who make up this dedicated workforce back into the workplace?

**Gwyn R. Price:** Diolch am yr ateb yna. Brif Weinidog, nid yw wedi bod yn haf hawdd i weithlu Remploy yn Croespenmaen. Maent, wrth gwrs, wedi ei siomi gan ba mor benderfynol yw Llywodraeth y DU i ddileu eu swyddi. Yr wyf yn gwybod pa mor o ddifrif y mae eich Llywodraeth yn ystyried y dasg o ddod o hyd i gyflogaeth ar gyfer unigolion, ac yr ydych wedi sicrhau bod cyllid ar gael i wneud yn union hynny. Pa gamau pellach ydych chi’n eu cymryd fel bod cyflogwyr lleol yn deall bod arian ar gael i roi’r bobl sydd yn y gweithlu ymroddedig hwn yn ôl yn y gweithle?

**The First Minister:** As you have rightly said, the Government has established an employer, wage and training subsidy to assist redundant disabled Remploy workers to gain employment with new organisations. The employer support grant is easily accessible. It offers employers across all sectors and industries a low-risk opportunity to utilise key skills, qualities and experiences from a pool of Remploy workers across Wales who have recently been made redundant. A Welsh Government team has been set up to identify and assist employers looking to understand the skills and capabilities of the Remploy workforce in order that they may gain employment in the future.

**Y Prif Weinidog:** Fel y dywedasoch yn gywir, mae'r Llywodraeth wedi sefydlu cymhorthdal cyflogwr, cyflog a hyfforddiant i helpu gweithwyr anabl Remploy a ddiswyddwyd i gael gwaith gyda sefydliadau newydd. Mae'r grant cymorth i gyflogwyr yn hawdd cael gafael arno. Mae'n cynnig cyfle risg isel i gyflogwyr ar draws pob sector a diwydiant i ddefnyddio sgiliau allweddol, nodweddion a phrofiadau o gronfa o weithwyr Remploy ar draws Cymru sydd wedi eu diswyddo’n ddiweddar. Mae tîm Llywodraeth Cymru wedi ei sefydlu i nodi a chynorthwyo cyflogwyr sy’n dymuno dod i ddeall sgiliau a galluoedd gweithlu Remploy er mwyn iddynt allu cael gwaith yn y dyfodol.

**Mohammad Asghar:** First Minister, one way of helping people find employment in Islwyn is by encouraging small businesses to expand to take on more staff. A recent economic survey by the Federation of Small Businesses showed that business confidence in Wales has dropped significantly since the second quarter of 2012, and is the second lowest in the United Kingdom. Research shows that access to credit is a huge barrier to growth for small businesses, and concern has been expressed that Welsh Government funding packages are not being adequately promoted in Wales. First Minister, what is the Welsh Government doing to ensure that its funding streams truly deliver and reach the hands of the businesses most in need, such as those in Islwyn and elsewhere across Wales?

**Mohammad Asghar:** Brif Weinidog, un ffordd o helpu pobl ddod o hyd i waith yn Islwyn yw drwy annog busnesau bach i ehangu er mwyn cyflogi mwy o staff. Mae arolwg economaidd diweddar gan y Ffederasiwn Busnesau Bach yn dangos bod hyder busnes yng Nghymru wedi gostwng yn sylweddol ers ail chwarter 2012, ac ei fod yn ail isaf yn y Deyrnas Unedig. Mae ymchwil yn dangos bod anallu i gael credyd yn rhwystr mawr i dwf ar gyfer busnesau bach, a mynegwyd pryder nad yw pecynnau ariannu Llywodraeth Cymru yn cael eu hyrwyddo'n ddigonol yng Nghymru. Brif Weinidog, beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i sicrhau bod ei ffrydiau ariannu yn gwir gyflawni ac yn cyrraedd dwylo’r busnesau fwyaf mewn angen, megis y rhai yn Islwyn ac mewn mannau eraill ar draws Cymru?

**The First Minister:** Plenty of businesses have benefitted from the funding that we have made available, which is quite often oversubscribed. You are right to point out that access to credit is a real problem for many businesses. We saw the announcement yesterday of the British business bank, and we await the details with interest. It must be the first time that Government policy has been announced following an episode of *The Thick of It* dealing with the same subject, but we will wait to see what it does. The UK Government seems to have recognised that access to credit is a major barrier to growth for small and medium-sized enterprises, not just in Wales but elsewhere in the UK.

**Y Prif Weinidog:** Mae llawer o fusnesau wedi elwa o'r arian yr ydym wedi'i roi ar gael, sy’n aml iawn â gormod o alw amdano.Yr ydych yn gywir i nodi bod cael gafael ar gredyd yn broblem wirioneddol i lawer o fusnesau. Gwelsom y cyhoeddiad ddoe am fanc busnes Prydain, ac rydym yn aros am y manylion gyda diddordeb. Rhaid mai dyma’r tro cyntaf i bolisi gael ei gyhoeddi gan y Llywodraeth yn dilyn pennod o *The Thick of It* yn ymdrin â'r un pwnc, ond byddwn yn aros i weld beth y bydd yn ei wneud. Mae Llywodraeth y DU wedi cydnabod bod methu cael credyd yn rhwystr mawr i dwf ar gyfer mentrau bach a chanolig eu maint, nid yn unig yng Nghymru ond mewn mannau eraill yn y DU.

**Jocelyn Davies:** First Minister, you will be aware that the Real Crisps factory in Crumlin was completely destroyed by an arson attack, and that 200 jobs hang in the balance. I ought to mention that that includes my brother’s job. What can you do to help keep those workers in wages if the owners decide to rebuild?

**Jocelyn Davies:** Brif Weinidog, byddwch yn ymwybodol bod ffatri Real Crisps yng Nghrymlyn wedi ei dinistrio'n llwyr gan ymosodiad llosgi bwriadol, a bod 200 o swyddi yn y fantol. Dylwn grybwyll fod hynny'n cynnwys swydd fy mrawd. Beth allwch chi ei wneud i helpu i gadw’r gweithwyr hynny mewn cyflog os yw'r perchnogion yn penderfynu i ailadeiladu?

**The First Minister:** What happened at Real Crisps was appalling. It is a well-established factory that has done well, not just in Wales but across the world. I will ensure that Welsh Government officials are discussing what can be done with the company to assist it to get

**Y Prif Weinidog:** Mae’r hyn a ddigwyddodd yn Real Crisps yn echrydus. Mae'n ffatri sefydledig sydd wedi gwneud yn dda, nid yn unig yng Nghymru ond ledled y byd. Byddaf yn sicrhau bod swyddogion Llywodraeth Cymru yn trafod beth ellir ei

back into production as quickly as possible in order to promote its good name, and to ensure that people retain their jobs.

wneud gyda'r cwmni i'w gynorthwyo i ail ddechrau cynhyrchu cyn gynted ag y bo modd er mwyn hyrwyddo ei enw da, ac i sicrhau bod pobl yn cadw eu swyddi.

**Gweithwyr Sector Cyhoeddus**

**Public Sector Workers**

***9. Mike Hedges:*** *A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi gweithwyr sector cyhoeddus yng Nghymru sy'n cael cyflog isel. OAQ(4)0663(FM)*

***9. Mike Hedges:*** *Will the First Minister outline what the Welsh Government is doing to support low paid public sector workers in Wales. OAQ(4)0663(FM)*

**The First Minister:** Our workforce partnership council brings together devolved public sector employers and trade unions with the Welsh Government. Through the council, we have agreed measures aimed at ensuring greater fairness for workers across the public sector, including legislation.

**Y Prif Weinidog: Mae** ein cyngor partneriaeth y gweithlu yn dwyn ynghyd cyflogwyr y sector cyhoeddus datganoledig yr undebau llafur a Llywodraeth Cymru. Trwy'r cyngor, rydym wedi cytuno ar fesurau gyda'r nod o sicrhau mwy o degwch i weithwyr ar draws y sector cyhoeddus, gan gynnwys deddfwriaeth.

**Mike Hedges:** Thank you for your response, First Minister. Would you join me in welcoming the news that the City and County of Swansea's new Labour administration plans to introduce a living wage? Do you agree that the difference between our party and the parties running the Government in Westminster is that we want a living wage and they want regional pay?

**Mike Hedges:** Diolch i chi am eich ymateb, Brif Weinidog. A fyddech yn ymuno â mi i groesawu'r newyddion bod gweinyddiaeth Lafur newydd Cyngor Dinas a Sir Abertawe yn bwriadu cyflwyno cyflog byw? A ydych chi'n cytuno mai'r gwahaniaeth rhwng ein plaid ni a'r partïon sy'n rhedeg y Llywodraeth yn San Steffan yw ein bod ni am gael cyflog byw a'u bod nhw yn awyddus i gael cyflogau rhanbarthol?

**The First Minister:** The Member makes the point clearly, and it is a good point. We believe that people should have an adequate wage on which to live. It is not a view that is shared elsewhere, but it is shared by many in this Chamber. I welcome the announcement made by Swansea; it has also been made, if I remember rightly, by Neath Port Talbot, Caerphilly and Cardiff councils, and we hope that other local authorities across Wales will be able to follow in the near future.

**Y Prif Weinidog:** Mae'r Aelod yn gwneud y pwynt yn glir, ac mae'n bwynt da. Rydym yn credu y dylai pobl gael cyflog digonol i fyw arno. Nid yw'n farn sy'n cael ei rhannu mewn mannau eraill, ond fe'i rhennir gan lawer yn y Siambr hon. Yr wyf yn croesawu'r cyhoeddiad a wnaed gan Abertawe; mae wedi ei wneud hefyd, os cofiaf yn iawn, gan gynghorau Castell-nedd Port Talbot, Caerffili a Chaerdydd, ac rydym yn gobeithio y bydd awdurdodau lleol eraill ar draws Cymru yn gallu dilyn yn y dyfodol agos.

**Paul Davies:** Fel y gŵyr y Prif Weinidog, mae cynlluniau yn fy ardal i ar hyn o bryd i ad-drefnu gwasanaethau iechyd. Mae nifer o weithwyr sydd ar gyflog isel yn y gwasanaeth iechyd yn pryderu'n fawr am eu swyddi o ganlyniad i'r cynigion hyn. A all y Prif Weinidog ddweud wrthym beth mae ef a'i Lywodraeth yn ei wneud i gefnogi gweithwyr fel hyn yn fy etholaeth i?

**Paul Davies:** As the First Minister knows, plans are currently being made in my area to reconfigure health services. As a result, many health service workers on low wages are very concerned about their jobs. Can the First Minister tell us what he and his Government are doing to support such workers in my constituency?

**Y Prif Weinidog:** Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi’r rheini sydd yn gweithio yn y gwasanaeth iechyd, a byddwn yn ymladd unrhyw gynlluniau i dorri cyflog y gweithwyr o 20%—mae hynny’n rhywbeth mae’r Trysorlys wedi siarad amdano. Bydd Llywodraeth Cymru wastad yn sefyll gyda phobl yn erbyn cynlluniau i dorri’u cyflogau.

**The First Minister:** The Welsh Government supports those who work in the health service, and we will fight any plans to cut 20% off the wages of those workers—that is something that the Treasury has talked about. The Welsh Government will always stand with people against plans to cut their wages.

**Bethan Jenkins:** First Minister, I heard your colleague’s enthusiasm for the work that Swansea is doing with a living wage, but do you know that some 2,099 of those working for Bridgend County Borough Council—over a quarter of the 8,000-strong workforce—were earning less than the living wage of £7.20 per hour as of 1 June 2012? Given that you are the constituency AM for that area as well as being the First Minister, will you be going back to Bridgend County Borough Council to tell it to pull up its socks and make sure that it puts a living wage into practice in that county borough?

**Bethan Jenkins:** Brif Weinidog, yr wyf yn clywed brwdfrydedd eich cydweithiwr am y gwaith y mae Abertawe'n ei wneud gyda chyflog byw, ond a ydych yn gwybod bod 2,099 o’r rhai sy'n gweithio i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr - dros chwarter y gweithlu o 8,00 - yn ennill llai na'r cyflog byw o £7.20 yr awr o 1 Mehefin 2012 ymlaen? O gofio mai chi yw AC yr etholaeth honno yn ogystal ag yn Brif Weinidog, a fyddwch yn mynd yn ôl i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i ddweud wrthynt i roi eu meddwl ar waith a gwneud yn siŵr eu bod yn gweithredu’r cyflog byw yn y fwrdeistref sirol honno?

2.15 p.m.

**The First Minister:** If only the Member would talk to the unions in Bridgend, because I met them not more than seven days ago. There is, we hope, resolution of the issues that have occurred in Bridgend recently. Bridgend still has to go through dealing with the issue of equal pay. Once that is settled—and, of course, it has to be done first—consideration can be given to the issue of a living wage.

**Y Prif Weinidog:** Trueni na fyddai’r Aelod yn siarad â'r undebau ym Mhen-y-bont, oherwydd fe wnes i gyfarfod â hwy ddim mwy na saith niwrnod yn ôl. Mae’r materion sydd wedi digwydd ym Mhen-y bont ar Ogwr yn ddiweddar, rydym yn gobeithio, wedi eu datrys. Mae’r angen yn parhau i Ben-y-bont ar Ogwr gwblhau ymdrin â’r mater o gyflog cyfartal. Ar ôl i hwnnw gael ei setlo – ac wrth gwrs, mae'n rhaid gwneud hynny yn gyntaf – gellir rhoi ystyriaeth i'r mater o gyflog byw.

**Vaughan Gething:** First Minister, you mentioned that Labour-run Cardiff Council has already introduced a living wage for its workers. Equally, Cardiff Council has now signed off an equal pay deal that resolves its historical liabilities as well delivering a current and future pay system that fairly rewards men and women for doing work of equal value. Is that not a model that other local authorities should follow, particularly as it benefits low-paid workers, mostly women workers, and is good for local economies?

**Vaughan Gething:** Brif Weinidog, fe wnaethoch sôn fod Cyngor Caerdydd sy’n cael ei redeg gan Lafur eisoes wedi cyflwyno cyflog byw ar gyfer ei weithwyr.Yn yr un modd, mae Cyngor Caerdydd wedi arwyddo cytundeb cyflog cyfartal sy'n datrys ei rwymedigaethau hanesyddol yn ogystal â darparu system gyflog gyfredol ac ar gyfer y dyfodol a fydd yn gwobrwyo dynion a menywod yn deg ar gyfer gwneud gwaith o werth cyfartal. Onid yw hynny’n fodel y dylai awdurdodau lleol eraill ei ddilyn, yn enwedig gan ei fod o fudd i rai sydd ar gyflog isel, gweithwyr benywaidd yn bennaf, a’i fod hefyd yn dda  i’r economi leol?

**The First Minister:** Absolutely. The issue of equal pay is one that is still being resolved in some local authorities across Wales. However, the Member is absolutely right to say that the principle of getting paid the right rate for the job applies not just in terms of equal pay between men and women, but in terms of equal pay between Wales and the rest of the UK.

**Y Prif Weinidog:** Yn bendant. Mae'r mater o gyflog cyfartal yn un sy'n dal i gael ei ddatrys mewn rhai awdurdodau lleol ledled Cymru. Fodd bynnag, mae'r Aelod yn llygad ei le i ddweud bod yr egwyddor o gael eich talu ar y gyfradd gywir am y gwaith yn berthnasol nid yn unig o ran cyflog cyfartal rhwng dynion a merched, ond o ran cyflog cyfartal rhwng Cymru a gweddill y DU.

**Gofal Plant**

**Childcare**

***10. Julie Morgan:*** *Pa gynlluniau sydd gan y Prif Weinidog i gynyddu darpariaeth gofal plant i rieni yng Nghymru. OAQ(4)0655(FM)*

***10. Julie Morgan:*** *What plans does the First Minister have to increase the provision of childcare for parents in Wales. OAQ(4)0655(FM)*

**The First Minister:** There are a number of programmes that provide a range of childcare support to parents and childcare continues to be one of this Government's priorities.

**Y Prif Weinidog:** Mae nifer o raglenni sy'n darparu ystod o gymorth gofal plant i rieni ac mae gofal plant yn parhau i fod yn un o flaenoriaethau'r Llywodraeth hon.

**Julie Morgan:** The First Minister will be aware of plans to close eight workplace nurseries across the UK in Her Majesty's Revenue and Customs premises. One of these is in Llanishen at the Inland Revenue in Cardiff North, where 105 children will lose their places and 35 staff will be made redundant. Will you join me in condemning the lack of action by the Westminster Government to stop this happening in one of its departments? Is there anything the Welsh Government can do to help?

**Julie Morgan:** Bydd y Prif Weinidog yn ymwybodol o gynlluniau i gau 8 o feithrinfeydd yn y gweithle ar draws y DU mewn safleoedd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Mae un o'r rhain yn swyddfa Cyllid y Wlad, yn Llanisien, yng Ngogledd Caerdydd, lle bydd 105 o blant yn colli eu lleoedd a 35 o staff yn cael eu diswyddo. A wnewch chi ymuno â mi i gondemnio'r diffyg gweithredu gan Lywodraeth San Steffan i atal hyn rhag digwydd yn un o'i adrannau? A oes unrhyw beth y gall Llywodraeth Cymru ei wneud i helpu?

**The First Minister:** I am certainly prepared to write to HMRC about my concerns. I can say that I find it appalling that this decision is proposed at a time when people need to have barriers to work removed. It is not fitting for a Government department to erect a barrier that stops people going to work. Governments should set good examples. This is an example of Government setting an extremely bad example and it is one that I deplore.

**Y Prif Weinidog:** Yr wyf yn sicr yn barod i ysgrifennu at Gyllid a Thollau EM am fy mhryderon. Gallaf ddweud fy mod yn credu ei bod yn warthus fod y penderfyniad yn cael ei gynnig ar adeg pan fo angen i bobl gael symud rhwystrau rhag gweithio. Nid yw'n addas i adran o'r Llywodraeth godi rhwystr sy'n atal pobl rhag mynd i weithio. Dylai llywodraethau osod esiampl dda. Mae hyn yn enghraifft o Lywodraeth yn gosod esiampl wael iawn ac mae'n un sy'n achosi gofid i mi.

**Mark Isherwood:** What engagement has the Welsh Government had with the UK Government regarding the investment of an extra £300 million in childcare support under the universal credit, in addition to the £2 billion of support already provided under the

**Mark Isherwood:** Pa gysylltiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i gael gyda Llywodraeth y DU ynghylch y buddsoddiad o £300 miliwn ychwanegol o gymorth gofal plant o dan y credyd cyffredinol, yn ychwanegol at y £2 biliwn o gymorth a

current system, to ensure that families in Wales are included among the 80,000 families with children who will benefit from child support for the first time?

ddarperir eisoes o dan y system bresennol, er mwyn sicrhau bod teuluoedd yng Nghymru yn cael eu cynnwys ymhlith yr 80,000 o deuluoedd gyda phlant a fydd yn elwa o gymorth plentyn am y tro cyntaf?

**The First Minister:** A number of discussions have taken place about universal credit. The outcomes of the decisions on universal credit are still not clear. We still do not have all the answers that we want, but, of course, where money is made available, we will expect to see a consequential made available for the people of Wales.

**Y Prif Weinidog:** Mae nifer o drafodaethau wedi'u cynnal am gredyd cyffredinol. Mae canlyniad y penderfyniadau ar gredyd cyffredinol yn dal yn aneglur. Nid ydym wedi cael yr holl atebion y mae arnom eu heisiau, ond, wrth gwrs, pan fo arian ar gael, byddwn yn disgwyl gweld swm canlyniadol ar gael ar gyfer pobl Cymru.

**Ceisiadau Cynllunio**

**Planning Applications**

***11. Rhodri Glyn Thomas:*** *A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu'r broses ar gyfer galw ceisiadau cynllunio i mewn. OAQ(4)0649(FM)*

***11. Rhodri Glyn Thomas:*** *Will the First Minister outline the process for calling-in planning applications. OAQ(4)0649(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Gall unrhyw un ofyn am alw cais cynllunio i mewn, ond yr unig sail ar gyfer penderfyniadau yw a fydd Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y cais yn codi materion cynllunio sy'n bwysicach na rhai lleol. Wrth wneud y penderfyniad, ni roddir unrhyw ystyriaeth i rinweddau cynllunio y datblygiad dan sylw.

**The First Minister:** Anyone may ask for a planning application to be called in, but the decision turns solely on whether the Welsh Ministers consider that the application raises planning issues of more than local importance. No consideration is given to the planning merits of the proposed development in reaching that decision.

**Rhodri Glyn Thomas:** Rwy'n tybio mai'r hyn roedd y Prif Weinidog yn ceisio ei ddweud oedd mai'r Gweinidog priodol sy'n gwneud y penderfyniad i alw ceisiadau cynllunio i mewn, ac y mae'n gwneud hynny ar sail materion cynllunio, a'r unig adeg byddai'n galw cais cynllunio i mewn pe na bai o ddiddordeb ehangach na diddordeb lleol yw pe bai rhyw nam yn y broses o ystyried y cais hwnnw.

**Rhodri Glyn Thomas:** I assume that what the First Minister was attempting to say was that the appropriate Minister takes the decision to call in planning applications and that he does so on the basis of planning issues and that the only time that he would call in a planning application if it were of no more than local interest would be where there had been some sort of fault in the process of considering the application.

**Y Prif Weinidog:** Mae sawl reswm pam y byddai cais yn cael ei alw i mewn. Ond, ynglŷn ag unrhyw nam yn y broses gynllunio, byddai hynny'n rhywbeth i'r llysoedd, nid i Weinidogion. Mae Gweinidogion yn ystyried materion gwahanol pan maen nhw'n cymryd penderfyniad i alw cais i mewn. Os oes unrhyw broblem gyda'r broses ei hun, mae hynny'n rhywbeth a allai fod yn fater i'r llysoedd yn y pen draw.

**The First Minister:** There are a number of reasons why an application may be called in. However, on any problem with the planning process, that would be something for the courts and not for Ministers. Ministers consider different issues when they take the decision to call in an application. If there is any problem with the process itself, that is something that could be a matter for the courts ultimately.

**Russell George:** First Minister, you are probably aware of the Leighton Farm dairy

**Russell George:** Brif Weinidog, mae'n debyg eich bod yn ymwybodol o'r cais i ehangu

unit expansion application in my constituency, which has been called in by Welsh Ministers. It is currently going through the process. Two of the key issues raised by all parties involved are the lack of transparency of the call-in system and the time it takes for the processes to conclude. Given the delay by the Government in bringing forward its planning Bill, is the First Minister prepared to implement the recommendations made by the independent panel that are not subject to legislation in order to improve the process now, rather than in three years?

uned laeth Leighton Farm yn fy etholaeth, sydd wedi cael ei alw i mewn gan Weinidogion Cymru. Mae'n mynd drwy'r broses ar hyn o bryd. Dau o'r materion allweddol a godwyd gan yr holl bartïon dan sylw yw diffyg tryloywder y system galw i mewn a'r amser mae'n ei gymryd i gwblhau'r prosesau. O ystyried yr oedi gan y Llywodraeth wrth gyflwyno ei Fesur cynllunio, a yw'r Prif Weinidog yn barod i weithredu'r argymhellion a wnaed gan y panel annibynnol nad ydynt yn destun deddfwriaeth er mwyn gwella'r broses yn awr, yn hytrach nag mewn tair blynedd?

**The First Minister:** The planning Bill is not delayed. It is still on track. It is important to examine, as we will, all the evidence that will make the planning system sleeker and faster, while at the same time ensuring that there is sufficient public input into the planning process.

**Y Prif Weinidog:** Nid yw'r Mesur cynllunio wedi ei oedi. Mae'n dal i fod ar y trywydd iawn. Mae'n bwysig i archwilio, fel y gwnawn, yr holl dystiolaeth a fydd yn gwneud y system gynllunio yn symlach ac yn gyflymach, gan sicrhau digon o fewnbwn cyhoeddus i'r broses gynllunio ar yr un pryd.

**Safleoedd o Arwyddocâd Hanesyddol**

**Sites of Historic Significance**

***12. Llyr Huws Gruffydd:*** *Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i warchod a hyrwyddo safleoedd o arwyddocâd hanesyddol yng Nghymru. OAQ(4)0650(FM)*

***12. Llyr Huws Gruffydd:*** *What is the Welsh Government doing to protect and promote sites of historic significance in Wales. OAQ(4)0650(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Mae hwn yn rhywbeth pwysig iawn inni. Trwy Cadw, rydym yn buddsoddi arian sylweddol mewn cadwraeth, cysylltiadau â'r cyhoedd a rhaglenni grantiau. Bydd y strategaeth amgylchedd hanesyddol arfaethedig yn helpu i gryfhau ein hymdrechion i sicrhau amgylchedd hanesyddol sy'n cael ei gynnal a'i warchod yn dda at y dyfodol.

**The First Minister:** This is a very important issue for us. Through Cadw, we invest significant funds in conservation, public engagement and grant funding programmes. The proposed historic environment strategy will help to strengthen our efforts to ensure a well-preserved and protected historic environment for the future.

**Llyr Huws Gruffydd:** Byddwch yn cofio, rwy'n siŵr, Brif Weinidog, dderbyn llythyr oddi wrth Aron Jones, saith oed, o Lasfryn ger Cerrigydrudion, a oedd wedi gresynu at gyflwr cofeb Cilmeri yn ddiweddar i'r fath raddau ei fod wedi gosod draig goch dros y gofeb, gan ei bod mewn cymaint o stad. Erbyn hyn, mae cyngor plwyf Cilmeri wedi talu am adfer y gofeb, ac rwy'n credu bod hynny'n codi cywilydd ar rai o'r cyrff yr ydych wedi cyfeirio atynt yn gynharach. A wnewch ymuno â mi i ddiolch i gyngor plwyf Cilmeri am wneud hynny, a hefyd i ddiolch i Aron Jones am dynnu ein sylw at gyflwr safle mor bwysig yn ein hanes? Efallai y gallwch

**Llyr Huws Gruffydd:** First Minister, I am sure that you will recall receiving correspondence from seven-year-old Aron Jones from Glasfryn near Cerrigydrudion, who was shocked by the condition of the Cilmeri memorial recently, to such an extent that he placed a red dragon over the memorial, because it was in such a state. Now, the Cilmeri parish council has paid for the renovation of the memorial, and I think that that shames some of the organisations that you mentioned earlier. Will you join me in thanking the parish council of Cilmeri for doing that, and also in thanking Aron Jones for drawing our attention to the condition of

anfon draig goch yn ôl ato er mwyn cymryd lle’r un a adawodd ar y gofeb.

such an important site in our history? Perhaps you could send a red dragon to him to replace the one that he left on the memorial.

**Y Prif Weinidog:** Byddaf yn ystyried y pwyntiau y mae’r Aelod yn codi ac yn ysgrifennu ato. Rwy’n synnu bod cyngor plwyf yn dal i fod ar gael yng Nghilmeri; nid oeddwn yn deall bod rhai ar gael gennym yng Nghymru rhagor. Wrth gwrs, byddaf yn ymateb i’r llythyr.

**The First Minister:** I will consider the points that the Member raises and I will write to him on that. I am surprised that there is still a parish council in Cilmeri; I did not understand that there were any in existence in Wales any longer. Of course, I will respond to the letter.

**Kenneth Skates:** First Minister, earlier this month, the Etape Cymru closed-road cycling event took place in north Wales. It was a huge success and attracted 1,200 riders for the event, including local Olympic medallist Chris Bartley. The 92-mile route took in some of the most fantastic historic landscapes in Europe. First Minister, will you work with the major events unit, as well as with local councils in north Wales, to ensure that the 2013 event gets the administrative support needed to grow and to become a major feature on the international cycling schedule?

**Kenneth Skates:** Brif Weinidog, yn gynharach y mis hwn, cynhaliwyd y digwyddiad beicio Etape Cymru ar ffyrdd wedi’u cau yn y Gogledd**.** Roedd yn llwyddiant ysgubol gan ddenu 1,200 o feicwyr ar gyfer y digwyddiad, gan gynnwys enillydd lleol medal Olympaidd Chris Bartley. Roedd y llwybr 92-milltir yn mynd drwy rai o'r tirweddau mwyaf godidog a hanesyddol yn Ewrop. Brif Weinidog, a wnewch chi weithio gyda'r uned prif ddigwyddiadau, yn ogystal â gyda chynghorau lleol yn y Gogledd, er mwyn sicrhau bod y digwyddiad yn cael y 2013 cymorth gweinyddol yn 2013 y mae ei angen i dyfu ac i fod yn elfen bwysig o’r amserlen beicio rhyngwladol?

**The First Minister:** Bear in mind that the major events unit is, in fact, comprised of Welsh Government officials; it is not a separate unit. However, it was instrumental, for example, in ensuring that the Tour of Britain returned to Wales. Of course, this year’s stage from Welshpool to Caerphilly was shown live on ITV and attracted record crowds, with tens of thousands lining the route. There are a number of events, such as this and Etape Cymru, that will be considered in the future in order to provide them with the support that they need to put themselves, and the areas where the events take place, on the map.

**Y Prif Weinidog:** Dylech gadw mewn cof mai swyddogion Llywodraeth Cymru mewn gwirionedd yw gweithlu’r uned prif ddigwyddiadau, nid yw'n uned ar wahân. Fodd bynnag, roedd yn allweddol, er enghraifft, wrth sicrhau bod y Tour of Britain yn dychwelyd i Gymru. Wrth gwrs, dangoswyd y cymal o'r Trallwng i Gaerffili eleni yn fyw ar ITV gan ddenu tyrfaoedd mwy nag erioed, gyda degau o filoedd ar ochrau’r llwybr. Mae nifer o ddigwyddiadau, fel hwn ac Etape Cymru, a fydd yn cael eu hystyried yn y dyfodol ar gyfer rhoi’r cymorth iddynt y maent ei angen i roi eu hunain, a'r ardaloedd lle y cynhelir y digwyddiadau hyn, ar y map.

**Suzy Davies:** First Minister, in the development of the heritage Bill, what consideration will your Government be giving to strengthening the role of independent bodies, large and small, which might be involved in protecting and promoting our wider historic environment? Also, what reassurance can you give us that

**Suzy Davies:** Brif Weinidog, wrth ddatblygu'r Mesur treftadaeth, pa ystyriaeth fydd eich Llywodraeth yn ei rhoi i gryfhau rôl cyrff annibynnol, mawr a bach, a allai fod yn rhan o ddiogelu a hyrwyddo ein hamgylchedd hanesyddol ehangach? Hefyd, pa sicrwydd y gallwch ei roi i ni y bydd cyrff o'r fath yn cael eu cynorthwyo i gynnal

such bodies will be assisted in maintaining an arm's-length relationship with your Government?

perthynas hyd braich gyda'ch Llywodraeth?

**The First Minister:** We will consider that when the heritage Bill is drafted. We know that there are many local voluntary bodies that do a very good job of preserving the heritage of the areas that they are from. However, we will not force them to do something that they do not want to do—something that might be the job of Government. We look to them to volunteer; we do not look to them to do things on a compulsory basis.

**Y Prif Weinidog:** Byddwn yn ystyried hynny pan fydd y Mesur treftadaeth yn cael ei ddrafftio.Rydym yn gwybod bod nifer o gyrff gwirfoddol lleol sy'n gwneud gwaith da iawn o ddiogelu treftadaeth yr ardaloedd y maent yn dod ohonynt. Fodd bynnag, ni fyddwn yn eu gorfodi i wneud rhywbeth nad ydynt eisiau ei wneud - rhywbeth a allai fod yn swyddogaeth y Llywodraeth. Rydym yn eu hannog i wirfoddoli; nid ydym yn disgwyl iddynt wneud pethau ar sail orfodol.

**Diweithdra Ymhlith Pobl Ifanc**

**Unemployment Among Young People**

***13. Alun Ffred Jones:*** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddiweithdra ymhlith pobl ifanc o dan 24 oed yng Nghymru. OAQ(4)0651(FM)*

***13. Alun Ffred Jones:*** *Will the First Minister make a statement on unemployment among young people under 24 years of age in Wales. OAQ(4)0651(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Mae diweithdra hir dymor yn y grŵp oedran hwn yn peri pryder gan fod tystiolaeth yn dangos ei fod yn gallu cael effaith niweidiol ar sefyllfa economaidd a chymdeithasol yr unigolion hynny drwy gydol eu bywydau gwaith. Wrth gwrs, rhaid imi gyfeirio'r Aelod at Dwf Swyddi Cymru sydd wedi bod yn llwyddiannus o ran creu cyfleoedd a swyddi i bobl ifanc yng Nghymru.

**The First Minister:** Long-term unemployment in this age group does cause concern because evidence shows that it can have a damaging effect on the economic and social outcomes for those individuals throughout their working lives. Of course, I must refer the Member to Jobs Growth Wales, which has been successful in creating opportunities and jobs for young people in Wales.

**Alun Ffred Jones:** Mae bron i chwarter pobl ifanc Cymru o dan 24 oed yn ddi-waith—ffigur sy'n uwch nag y mae yn y rhan fwyaf o ranbarthau'r Deyrnas Unedig. Fodd bynnag, y ffigur sy'n dychryn rhywun yw bod diweithdra tymor hir ymhlith pobl ifanc wedi cynyddu i lefel sydd bedair gwaith yr hyn yr oedd flwyddyn yn ôl. A oes gan y Llywodraeth ddadansoddiad o'r hyn sydd wedi digwydd a pham?

**Alun Ffred Jones:** Almost a quarter of the young people of Wales under the age of 24 are unemployed—that figure is higher than in most regions of the United Kingdom. However, the frightening figure is that long-term unemployment among young people has increased to a level that is four times what it was a year ago. Does the Government have an analysis of what has occurred and why?

**Y Prif Weinidog:** Mae hwn yn rhywbeth sydd wedi digwydd dros Ewrop gyfan, ond a gaf i ddweud beth yn union rydym wedi ei wneud amdano? Rwyf wedi sôn am Dwf Swyddi Cymru. Mae 1,430 o bobl ifanc wedi dechrau gwaith drwy'r rhaglen honno ac mae 2,791 o gyfleoedd wedi cael eu creu ac felly byddwn yn cyrraedd y targed o 4,000 erbyn mis Mawrth flwyddyn nesaf. Hefyd, mae 722 o swyddi ar hyn o bryd yn mynd drwy'r

**The First Minister:** This is a phenomenon that has happened throughout Europe, but may I say what exactly we have done about it? I have mentioned Jobs Growth Wales. Some 1,430 young people have started work through that programme and 2,791 opportunities have been created and therefore we will reach the target of 4,000 by March of next year. In addition, 722 jobs are currently going through the recruitment process.

broses recriwtio.

**Jenny Rathbone:** I am sure that we are all concerned about the extent of unemployment among young people. Will the First Minister join me in saluting the fact that the Assembly has recruited four apprentices to work in the Assembly, whom I had the pleasure of welcoming with the Presiding Officer earlier this month, and that Cardiff Council had such a successful jobs fair in City Hall, where over 5,000 people attended and were welcomed by 30 young apprentices who are learning about hospitality skills? Not only did it provide people with information and CV writing skills, but it also provided rooms for employers to interview people, and some of those young people did not just go away with leaflets and better CVs, but they went away with jobs.

**Jenny Rathbone:** Yr wyf yn siŵr ein bod i gyd yn gofidio am raddau o ddiweithdra ymysg pobl ifanc. A wnaiff y Prif Weinidog ymuno â mi i ganmol y ffaith fod y Cynulliad wedi recriwtio pedwar prentis i weithio yn y Cynulliad, a chefais y pleser o'u croesawu gyda'r Llywydd yn gynharach y mis hwn, a bod Cyngor Caerdydd wedi cael ffair swyddi llwyddiannus yn Neuadd y Ddinas, lle yr oedd dros 5,000 o bobl yn bresennol a chawsant eu croesawu gan 30 o brentisiaid ifanc sydd yn dysgu am sgiliau lletygarwch? Roedd hyn nid yn unig yn darparu gwybodaeth a sgiliau ysgrifennu CV i bobl, ond hefyd yn darparu ystafelloedd i gyflogwyr gyfweld pobl, ac aeth rhai o'r bobl ifanc hyn ymaith nid yn unig gyda thaflenni a gwell CV , ond gyda swyddi hefyd.

**The Presiding Officer:** Order. You have asked a question.

**Y Llywydd:** Trefn. Rydych wedi gofyn cwestiwn.

**Jenny Rathbone:** So, I wondered if you could ensure that the whole public sector is taking these sorts of initiatives to ensure that we are doing the maximum possible for all our young people.

**Jenny Rathbone:** Felly, roeddwn yn meddwl tybed a allech sicrhau bod y sector cyhoeddus cyfan yn gweithredu'r mathau hyn o fentrau i sicrhau ein bod yn gwneud y gorau posibl i bob un o'n pobl ifanc.

**The First Minister:** Yes, the opportunities provided by the public sector are vital to ensure that there are employment opportunities for young people. I understand that the jobs fair in Cardiff was an excellent chance for young people to get more information on the opportunities that are available. Jobs Growth Wales was represented at the jobs fair this year as well as last year.

**Y Prif Weinidog:** Ie, mae'r cyfleoedd a ddarperir gan y sector cyhoeddus yn hanfodol i sicrhau bod cyfleoedd cyflogaeth ar gael i bobl ifanc. Deallaf fod y ffair swyddi yng Nghaerdydd yn gyfle gwych i bobl ifanc i gael rhagor o wybodaeth am y cyfleoedd sydd ar gael. Roedd Twf Swyddi Cymru'n cael ei gynrychioli yn y ffair swyddi eleni, yn ogystal â'r llynedd.

**Nick Ramsay:** First Minister, you say that youth unemployment and the problems with that have been a trend across Europe, but if you look across the UK in general in the last quarter, you will see that there has been a drop of 7,000, I think, in unemployment. Therefore, I agree with you that Jobs Growth Wales and your Government need to do more to deal with this issue. Can you tell us how you are working with the new Secretary of State for Wales in order to deal with the problem of youth unemployment, because 4,500—a fourfold rise in youth unemployment over the last 12 months—is

**Nick Ramsay:** Brif Weinidog, rydych yn dweud bod diweithdra ymhlith pobl ifanc a'r problemau cysylltiedig yn duedd ar draws Ewrop, ond os ydych yn edrych ar draws y DU yn gyffredinol yn y chwarter olaf, fe welwch y bu gostyngiad o 7,000, dwi'n meddwl, mewn diweithdra. Felly, yr wyf yn cytuno â chi bod angen i Dwf Swyddi Cymru a'ch Llywodraeth wneud mwy i ymdrin â'r mater hwn. A allwch chi ddweud wrthym sut rydych yn gweithio gyda'r Ysgrifennydd Gwladol newydd dros Gymru i fynd i'r afael â'r broblem o ddiweithdra ymhlith ieuenctid, gan fod 4,500 - pedair gwaith cymaint â

simply unacceptable?

blwyddyn yn ôl - yn gwbl annerbyniol?

**The First Minister:** As I said, this is a trend that we have seen across Europe, and I can say that the first meeting that I had with the Secretary of State was cordial. There were a number of issues on which we agreed; there will be issues on which we do not agree, and we both recognise that. However, I believe there was an honest intention on both our parts to work together where we can for the good of the people of Wales.

**Y Prif Weinidog:** Fel y dywedais, mae hon yn duedd yr ydym wedi ei gweld ar draws Ewrop, a gallaf ddweud bod y cyfarfod cyntaf a gefais gyda'r Ysgrifennydd Gwladol yn gyfeillgar. Roedd nifer o faterion yr oeddem yn cytuno arnynt, bydd materion eraill na fyddwn yn cytuno arnynt, ac mae'r ddau ohonom yn cydnabod hynny. Fodd bynnag, credaf fod bwriad gonest ar ran y ddau ohonom i weithio gyda'n gilydd lle y gallwn er lles pobl Cymru.

**Twf Swyddi Cymru**

**Jobs Growth Wales**

***14. Lindsay Whittle:*** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am sut y mae'r rhaglen Twf Swyddi Cymru, sydd nawr ar waith ers chwe mis, yn symud ymlaen at ei tharged o greu 4,000 o swyddi yn y flwyddyn gyntaf. OAQ(4)0658(FM)*

***14. Lindsay Whittle:*** *Will the First Minister make a statement on how the Jobs Growth Wales programme, which has now been running for six months, is progressing towards its target of creating 4,000 jobs in its first year. OAQ(4)0658(FM)*

I appreciate that you have practically answered this question in answering Alun Ffred Jones.

Yr wyf yn gwerthfawrogi eich bod mwy neu lai wedi ateb y cwestiwn hwn wrth ateb Alun Ffred Jones.

**The First Minister:** I have never said this before, but I refer the Member to the answer that I gave some moments ago.

**Y Prif Weinidog:** Nid wyf erioed wedi dweud hyn o'r blaen, ond cyfeiriaf yr Aelod at yr ateb a roddais rai munudau yn ôl.

**Lindsay Whittle:** I thought that you might say that, and I fully understand why. The burning question that I have is this, and I ask it as a Member for a south Wales region, because I believe in what you might call geographic equality: why, under the Jobs Growth Wales scheme, is north Wales being virtually ignored? The Jobs Growth Wales providers operate in more than just one region in Wales. I have calculated that of the 102 areas where the providers are active, only 13 are in north Wales. Even allowing for factors such as population figures, there seems to be weighting against the prospects of young people in the north of our country getting access a job. Is this scheme flawed? This is a South Wales East Member urging equality across the whole of Wales, because that is my role in the Party of Wales.

**Lindsay Whittle:** Roeddwn yn meddwl efallai y byddech yn dweud hynny, ac yr wyf yn llwyr ddeall pam. Y cwestiwn llosg sydd gennyf yw hyn, a gofynnaf hyn i chi fel Aelod dros ranbarth yn y De, oherwydd fy mod yn credu yn yr hyn y gallech ei alw yn gydraddoldeb daearyddol: pam, o dan y cynllun Twf Swyddi Cymru, y mae'r Gogledd mwy neu lai'n cael ei anwybyddu? Mae'r darparwyr Twf Swyddi Cymru yn gweithredu mewn mwy na dim ond un rhanbarth yng Nghymru. Rwyf wedi cyfrifo mai dim ond 13 o'r 102 o ardaloedd lle y mae'r darparwyr yn weithredol, sydd yn y Gogledd. Hyd yn oed gan ystyried ffactorau fel ffigurau poblogaeth, mae'n ymddangos bod pwysiad yn erbyn gobeithion pobl ifanc yng ngogledd ein gwlad i gael swydd. A yw cynllun hwn yn ddiffygiol? Dyma Aelod o'r De-ddwyrain yn annog cydraddoldeb ar draws Cymru gyfan, oherwydd dyna fy rôl ym Mhlaid Cymru.

**The First Minister:** I do not believe that

**Y Prif Weinidog:** Nid wyf yn credu bod

there is a problem in terms of the geographic basis of the jobs that are being created. At the end of the day, it is not about how many providers there are, but about how many jobs are created across Wales. Jobs Growth Wales is a Wales-wide scheme, creating jobs at a time when we know that young people need opportunities.

problem o ran sail ddaearyddol y swyddi sy'n cael eu creu. Yn y pen draw, nid yw hyn yn ymwneud â faint o ddarparwyr sy'n gweithredu, ond yn hytrach am faint o swyddi sy'n cael eu creu ledled Cymru. Mae Twf Swyddi Cymru yn gynllun i Gymru gyfan, gan greu swyddi ar adeg pan rydym yn gwybod bod pobl ifanc angen cyfleoedd.

**Byron Davies:** We all welcome any scheme that supports young people into employment, but I am sure that you will agree that we must monitor the scheme closely over the next six to 12 months to ensure that these young people are not simply abandoned once their traineeships are finished. In terms of ensuring that these six-month support contracts are retained in the longer run, will you join the Welsh Conservatives in welcoming the Conservatives-led UK Government's announcement that it will introduce a Government-funded bank to help small and medium-sized businesses, where it could support £10 billion of additional business lending? Will you commit to working with UK Government? After all, it is all about sustainability.

**Byron Davies:** Yr ydym i gyd yn croesawu unrhyw gynllun sy'n cefnogi pobl ifanc i mewn i gyflogaeth, ond yr wyf yn sicr y byddwch yn cytuno bod yn rhaid i ni fonitro'r cynllun yn fanwl dros y 6 i 12 mis nesaf i sicrhau nad yw'r bobl ifanc hyn yn cael eu gadael heb ddim pan fydd eu swyddi dan hyfforddiant yn dod i ben. O ran sicrhau bod y contractau cymorth chwe mis hyn yn cael eu cadw yn y tymor hir, a wnewch chi ymuno â'r Ceidwadwyr Cymreig i groesawu cyhoeddiad Llywodraeth y DU a arweinir gan y Ceidwadwyr, y bydd yn cyflwyno banc a ariennir gan y Llywodraeth i helpu busnesau bach a chanolig eu maint, lle y gallai gefnogi £10 biliwn o fenthyca ychwanegol i fusnes? A wnewch chi ymrwymo i weithio gyda Llywodraeth y DU? Wedi'r cyfan, cynaliadwyedd sydd dan sylw.

2.30 p.m.

**The First Minister:** I thought that it was a Liberal Democrat announcement, actually, but we will wait to see the details; we understand that those will be made available in December. We like to provide examples to the UK Government of what works, which is why we are happy that it copied us with the youth contract, which is based, of course, on Jobs Growth Wales.

**Y Prif Weinidog:** Roeddwn yn meddwl mai cyhoeddiad y Democratiaid Rhyddfrydol oedd hwn mewn gwirionedd, ond arhoswn i weld y manylion, rydym yn deall y byddant ar gael ym mis Rhagfyr. Rydym yn hoffi darparu enghreifftiau i Lywodraeth y DU o'r hyn sy'n gweithio, a dyna pam rydym yn hapus ei bod wedi ein copïo ni gyda'r contract ieuenctid, sydd yn seiliedig, wrth gwrs, ar Twf Swyddi Cymru.

**Canlyniadau TGAU**

**GCSE Results**

***15. Keith Davies:*** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ganlyniadau TGAU yng Nghymru eleni. OAQ(4)0656(FM)*

***15. Keith Davies:*** *Will the First Minister make a statement on this year's GSCE results in Wales. OAQ(4)0656(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Ar sail y canlyniadau gwreiddiol a gafodd eu cyhoeddi, mae'r ganran a basiodd eu harholiadau TGAU yn dal yn uchel, sef 98.7%, a chafodd dros 65% raddau A* i C.

**The First Minister:** Based upon the original release of results, the overall GCSE pass rate remains high at 98.7%, with over 65% achieving A* to C grades.

**Keith Davies:** Diolch am hynny. Wedi

**Keith Davies:** Thank you for that. That said,

dweud hynny, dangosodd ystadegau arholiadau ysgolion uwchradd Cymru anghyfiawnder canlyniadau TGAU Saesneg eleni. Er enghraifft, mewn un ysgol, 46% a gafodd gradd C neu uwch, tra y llynedd cafodd 71% gradd C neu uwch, yn Saesneg iaith. Yn yr un ysgol eleni, cafodd 83% gradd C neu uwch mewn llenyddiaeth Saesneg, a chafodd 83% gradd C neu uwch mewn Cymraeg iaith. Mae'r ystadegau yn ategu penderfyniad ein Gweinidog addysg i sicrhau bod myfyrwyr Cymru yn derbyn graddau—

the statistics on secondary school exams in Wales show the injustice of the English-language GCSE results this year. For example, in one school, 46% achieved a C grade or better, while last year 71% achieved grade C or better, in English language. In the same school this year, 83% achieved grade C or above in English literature, and 83% grade C or above in Welsh language. The statistics support the decision of our Minister for education to ensure that Welsh students are given grades—

**The Presiding Officer:** Order. Are you coming to the question?

**Y Llywydd:** Trefn. A ydych yn dod at y cwestiwn?

**Keith Davies:** A yw'r Prif Weinidog yn cytuno nad oes amheuaeth mai hwn oedd y penderfyniad cywir i Gymru, ac y dylai Michael Gove fod wedi gwneud yr un peth dros ddisgyblion Lloegr?

**Keith Davies:** Does the First Minister agree that there is no doubt that this was the correct decision for Wales and that Michael Gove should have done the same for pupils in England?

**Y Prif Weinidog:** Nid oes amheuaeth mai hwn oedd y penderfyniad iawn. Mae tegwch wedi cael ei sicrhau i fyfyrwyr Cymru.

**The First Minister:** Without a doubt, this was the right decision. Fairness has been ensured for the pupils of Wales.

**Angela Burns:** Will the First Minister's delivery unit look at why, despite GCSEs being regulated by the Welsh Government, we reached a position over the summer where the Welsh Government had to subsequently row back on its request to the Welsh Joint Education Committee to toughen up on some of its grading methodologies?

**Angela Burns:** A fydd uned gyflenwi'r Prif Weinidog yn edrych ar pam, er bod TGAU yn cael ei reoleiddio gan Lywodraeth Cymru, ein bod wedi cyrraedd sefyllfa yn ystod yr haf pryd y bu raid i Lywodraeth Cymru leddfu ei chais i Gyd-bwyllgor Addysg Cymru i gryfhau ei fethodolegau graddio?

**The First Minister:** We did nothing of the sort. We never made any such request. The Member should understand something here: the idea of forcing down the grades of GCSEs has come from Michael Gove and straight via the Office of Qualifications and Examinations Regulation. Ofqual's chair made comments that I have never heard before from somebody who claims to be the chair of an objective body. I have seen the comments that the Welsh Conservatives have made—trust the Welsh Conservatives to take the side of an English Minister against Welsh students.

**Y Prif Weinidog:** Wnaethom ni ddim byd o'r fath. Ni wnaethom unrhyw gais o'r fath. Dylai'r Aelod deall rhywbeth ynglŷn â hyn: daeth y syniad o ostwng graddau TGAU oddi wrth Michael Gove ac yn syth trwy'r Swyddfa Rheoleiddio Cymwysterau ac Arholiadau. Gwnaeth cadeirydd Ofqual sylwadau nad wyf erioed wedi eu clywed o'r blaen gan rywun sy'n honni ei fod yn gadeirydd corff gwrthrychol. Rwyf wedi gweld y sylwadau a wnaed gan Geidwadwyr Cymreig – gallwch ddibynnu ar Geidwadwyr Cymreig i gymryd ochr un o Weinidogion Lloegr yn erbyn myfyrwyr Cymru.

**Simon Thomas:** Pa gamau rydych yn eu cymryd, Brif Weinidog, i rheoli'r system arholiadau yng Nghymru yn annibynnol?

**Simon Thomas:** What steps are you taking, First Minister, to regulate the examination system in Wales independently?

**Y Prif Weinidog:** Nid ydym yn gweld bod problem gyda'r system ar hyn o bryd. Cyfeiriaf yn ôl at y ffaith bod neb yn cwyno am y system yng Nghymru a bod cwyno mawr am y system yn Lloegr, lle mae achos llys yn mynd i gymryd lle.

**The First Minister:** I do not see that there is any problem with the system at present. I refer back to the fact that no-one is complaining about the system in Wales and there are a lot of complaints about the system in England, where there will be a court case.

## Datganiad a Chyhoeddiad Busnes
## Business Statement and Announcement

**The Minister for Finance and Leader of the House (Jane Hutt):** I have several changes to report to this week's planned business. I will shortly make a statement on the 'Framework for Action on Independent Living', which I issued for consultation last Thursday. The Minister for Education and Skills will make a statement on the GCSE English-language results 2012, and, as a result, his statement on supporting Welsh students has been postponed until next week. The Minister for Local Government and Communities will make a statement updating the Assembly on the Isle of Anglesey County Council and the Deputy Minister for Agriculture, Food, Fisheries and European Programmes will make a statement on a plan for milk, an update on support for the dairy industry. Finally, Members will wish to note that there are now no questions tabled for answer tomorrow by either the Counsel General or the Assembly Commission. Business for the next three weeks is as shown on the business statement and announcement, which can be found among the agenda papers that are available to Members electronically.

**Y Gweinidog dros Gyllid ac Arweinydd y Tŷ (Jane Hutt):** Mae gennyf nifer o newidiadau i'w hadrodd i'r busnes a gynlluniwyd ar gyfer yr wythnos hon. Cyn bo hir byddaf yn gwneud datganiad ar y 'Fframwaith ar gyfer Gweithredu ar Fyw'n Annibynnol', a gyhoeddais ar gyfer ymgynghori arno ddydd Iau diwethaf. Bydd y Gweinidog dros Addysg a Sgiliau yn gwneud datganiad ar ganlyniadau Saesneg TGAU 2012, ac, o ganlyniad, mae ei ddatganiad ar gefnogi myfyrwyr o Gymru wedi ei ohirio tan yr wythnos nesaf. Bydd y Gweinidog dros Lywodraeth Leol a Chymunedau yn gwneud datganiad i ddiweddaru'r Cynulliad ar Gyngor Sir Ynys Môn a bydd y Dirprwy Weinidog dros Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd yn gwneud datganiad ar gynllun ar gyfer llaeth, y wybodaeth ddiweddaraf am gefnogaeth ar gyfer y diwydiant llaeth. Yn olaf, bydd yr Aelodau yn dymuno nodi nad oes bellach unrhyw gwestiynau a gyflwynwyd i'w hateb yfory naill ai gan y Cwnsler Cyffredinol na Chomisiwn y Cynulliad. Dangosir y busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf yn y datganiad a chyhoeddiad busnes, a geir ymhlith papurau'r agenda sydd ar gael i Aelodau yn electronig.

**William Graham:** I thank the Leader of the House for her statement this afternoon and ask her whether she would bring forward a statement regarding the use of cameras on mobile phones. I have received much representation concerning photographs of in-patients, together with offensive comments, circulated on Facebook. I ask the Minister for Health and Social Services to bring forward that statement. I am sure that all Members will agree to the need to ensure the dignity and privacy of hospital patients, particularly in the most distressed conditions. Patients must be made aware of their responsibility in being allowed to use mobile phones and media interactive devices and that their

**William Graham:** Diolch i Arweinydd y Tŷ am ei datganiad y prynhawn yma a gofynnaf iddi a fyddai hi'n cyflwyno datganiad ynghylch y defnydd o gamerâu a ffonau symudol. Rwyf wedi derbyn sylwadau lawer yn ymwneud â lluniau o gleifion mewnol, ynghyd â sylwadau sarhaus, a ddosbarthwyd ar Facebook. Gofynnaf i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i gyflwyno'r datganiad hwnnw. Yr wyf yn siŵr y bydd pob Aelod yn cytuno â'r angen i sicrhau urddas a phreifatrwydd cleifion mewn ysbytai, yn enwedig y rhai yn y cyflyrau mwyaf gofidus. Mae'n rhaid sicrhau bod cleifion yn ymwybodol o'u cyfrifoldeb wrth gael caniatâd i ddefnyddio ffonau

misuse is, potentially, an offence.

symudol a dyfeisiau cyfryngau rhyngweithiol a bod eu camddefnyddio, o bosibl, yn drosedd.

**Jane Hutt:** I am very grateful to William Graham for bringing that to our attention. I am sure that the Minister for Health and Social Services will want to respond accordingly. I would be grateful for any evidence that the Member himself, and other Members, have of this abuse and then the Minister for Health and Social Services will respond.

**Jane Hutt:** Yr wyf yn ddiolchgar i William Graham am dynnu hynna at ein sylw. Yr wyf yn siŵr y bydd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn dymuno ymateb yn briodol. Byddwn yn ddiolchgar am unrhyw dystiolaeth sydd gan yr Aelod ei hun, ac Aelodau eraill, o'r cam-drin hyn ac yna bydd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ymateb.

**Rebecca Evans:** Seasonal flu places a serious strain on the NHS. Therefore, I would welcome a statement from the Government on how you are seeking to ensure good levels of uptake of the vaccine this year, particularly among older people, because we failed to meet our targets last year, among pregnant women—I believe that only one in three took up the vaccine last year—as well as among other clinical risk groups and by NHS staff themselves.

**Rebecca Evans:** Mae ffliw tymhorol yn rhoi straen difrifol ar y GIG. Felly, byddwn yn croesawu datganiad gan y Llywodraeth ynghylch sut yr ydych yn ceisio sicrhau lefelau da o ran y nifer sy'n cael y brechlyn eleni, yn enwedig ymysg pobl hŷn, oherwydd ein bod wedi methu â bodloni ein targedau y llynedd, ymysg menywod beichiog – rwyf yn credu mai dim ond un o bob tair dderbyniodd y brechlyn y llynedd - yn ogystal ag ymhlith grwpiau risg clinigol eraill a staff y GIG eu hunain.

**Jane Hutt:** Seasonal flu does place a serious strain on the NHS. The campaign must start now—indeed, it does; I know that the Minister for Health and Social Services is already taking that forward. General practitioners, who have the key responsibility for vaccinating those aged over 65, as well as the at-risk groups, which includes pregnant women, are well aware of their responsibilities. I understand that they will be supported by pharmacies in particular in selected locations to improve uptake rates. I am sure that the Minister for health will want to report on this, and I will ask her if she could make a statement to the Assembly.

**Jane Hutt:** Mae ffliw tymhorol yn gosod straen difrifol ar y GIG. Rhaid i'r ymgyrch gychwyn yn awr - yn bendant; Gwn fod y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol eisoes yn bwrw ymlaen â hynny. Mae meddygon teulu, sydd â'r cyfrifoldeb allweddol dros frechu y rhai dros 65 oed, yn ogystal â'r grwpiau sydd mewn perygl, sy'n cynnwys menywod beichiog, yn ymwybodol iawn o'u cyfrifoldebau. Deallaf y byddant yn cael eu cefnogi gan fferyllfeydd yn arbennig mewn lleoliadau dethol i wella'r cyfraddau sy'n derbyn brechlyn. Yr wyf yn siŵr y bydd y Gweinidog dros iechyd am adrodd ar hyn, a byddaf yn gofyn iddi os gallai hi wneud datganiad i'r Cynulliad.

**Simon Thomas:** Cawsom sawl cyfeiriad yn ystod cwestiynau i'r Prif Weinidog at gyfarfod y cyd-bwyllgor Gweinidogion yn Llundain. Oni fyddai'n arfer da pe baem fel Cynulliad yn cael datganiad ar lafar bob tro y mae'r Prif Weinidog yn mynychu'r cyfarfodydd hyn? Hoffwn ei holi yn arbennig ynglŷn â'r cynnydd o ran pwerau benthyg i Lywodraeth Cymru a'r cynnydd o ran llawr Barnett, fel yr awgrymwyd yn adroddiad

**Simon Thomas:** Minister, during questions to the First Minister we heard a number of references to the joint ministerial committee meeting in London. Would it not be good practice if we as an Assembly were given an oral statement every time the First Minister attends a JMC meeting? I would like to question him in particular about progress on borrowing powers for the Welsh Government and on a Barnett floor, as suggested in the

Holtham. Dyma ddau beth na chyflawnwyd eto gan eich Llywodraeth, a buasai'n dda pe gallem graffu ar waith y Prif Weinidog ar y materion hyn.

Holtham report. Those are two things that have not been achieved by your Government, and it would be good if we could scrutinise the work of the First Minister on these issues.

**Jane Hutt:** It is important that the work of the JMC is well publicised in terms of response, debate and discussion. However, it is important for the Member to be aware that, on this occasion, the First Minister will issue a written statement on the memorandum of understanding that was discussed at the JMC meeting last week. However, I will certainly discuss with him the possibility of following up JMC meetings with statements of that kind.

**Jane Hutt:** Mae'n bwysig bod gwaith y Cyd-Bwyllgor Gweinidogion yn cael cyhoeddusrwydd da o ran ymateb dadl a thrafodaeth. Fodd bynnag, mae'n bwysig i'r Aelod fod yn ymwybodol, ar yr achlysur hwn, y bydd y Prif Weinidog yn cyhoeddi datganiad ysgrifenedig ar y memorandwm cyd-ddealltwriaeth a drafodwyd yng nghyfarfod Cydbwyllgor y Gweinidogion yr wythnos diwethaf. Fodd bynnag, byddaf yn sicr yn trafod gydag ef y posibilrwydd o ddilyn cyfarfodydd JMC gyda datganiadau o'r math hwnnw.

**Suzy Davies:** Minister, I ask for statements from two of your ministerial colleagues, please. First, would you be kind enough to ask the Minister for Education and Skills to make a statement clarifying the level of consideration to be given to reviewing the content of the school curriculum in the near future, whether as part of the qualifications review or otherwise? Secondly, could you ask the Minister for Local Government and Communities to bring forward a statement outlining what features might be necessary to secure a child's safety on their walking route to school? Ministers will be aware of the case of Thomas James in my region, where the local authority, while apparently complying with current guidelines, has identified a walking route for a year 7 pupil that compels him to walk alone for just under three miles to school through some of the most isolated, unlit and unsavoury stretches of land in Swansea. Whatever the guidelines say, no adult would send a child on this route and be confident of his safety. Bearing in mind the Assembly's commitment to give due regard to the rights of the child, and also bearing in mind the ministerial responses to questions from Kirsty Williams and Christine Chapman on 4 July, such a statement would be timely.

**Suzy Davies:** Weinidog, yr wyf yn gofyn am ddatganiadau gan ddau o'ch cyd-Weinidogion, os gwelwch yn dda. Yn gyntaf, a fyddech mor garedig â gofyn i'r Gweinidog dros Addysg a Sgiliau wneud datganiad yn egluro lefel yr ystyriaeth sydd i'w rhoi i adolygu cynnwys y cwricwlwm ysgol yn y dyfodol agos, naill ai yn rhan o'r adolygiad cymwysterau neu fel arall? Yn ail, a allech chi ofyn i'r Gweinidog dros Lywodraeth Leol a Chymunedau gyflwyno datganiad yn amlinellu pa nodweddion y gallai fod eu hangen i sicrhau diogelwch plant ar eu taith gerdded i'r ysgol? Bydd Gweinidogion yn ymwybodol o achos Thomas James, yn fy rhanbarth i, lle mae'r awdurdod lleol, er ei bod yn ymddangos ei fod yn cydymffurfio â chanllawiau presennol, wedi nodi llwybr cerdded ar gyfer disgybl blwyddyn 7 sy'n ei orfodi i gerdded ar ei ben ei hun am ychydig o dan dair milltir i'r ysgol drwy rai o'r darnau o dir mwyaf ynysig, di-olau, ac annymunol yn Abertawe. Beth bynnag y mae'r canllawiau yn ei ddweud, ni fyddai unrhyw oedolyn yn anfon plentyn ar y llwybr hwn gan fod yn ffyddiog y byddai'n ddiogel. Gan gadw mewn cof ymrwymiad y Cynulliad i roi sylw dyledus i hawliau'r plentyn, a hefyd gan gadw mewn cof yr ymatebion gweinidogol i gwestiynau gan Kirsty Williams a Christine Chapman ar 4 Gorffennaf, byddai datganiad o'r fath yn amserol.

**Jane Hutt:** I thank Suzy Davies for those points. Any questions to the Minister for education can be asked during his question

**Jane Hutt:** Diolch i Suzy Davies am y pwyntiau yna. Ceir gofyn unrhyw gwestiynau i'r Gweinidog dros addysg yn ystod yr amser

time. It is important that we recognise, in terms of reviews, that the current review of qualifications for 14 to 19-year-olds is possibly—I am sure that you would agree—the key review that the Minister will be responding to in due course. Regarding the question to the Minister for local government, we have pioneered Safe Routes to School and Safe Routes in Communities over the years, and have allocated a great deal of money as a result of priorities that have been put forward by local authorities, which include pupil engagement in developing those plans. I know that lessons learned from those are taken on board.

cwestiynau hwn. Mae'n bwysig ein bod yn cydnabod, o ran adolygiadau, mai’r adolygiad cyfredol o gymwysterau ar gyfer dysgwyr 14 i 19 mlwydd oed yw o bosibl - yr wyf yn siŵr y byddech yn cytuno - yr adolygiad allweddol y bydd y Gweinidog yn ymateb iddo maes o law . O ran y cwestiwn i'r Gweinidog dros lywodraeth leol, rydym wedi bod yn arloesol o ran Llwybrau Diogel i'r Ysgol a Llwybrau Diogel mewn Cymunedau dros y blynyddoedd, ac wedi neilltuo llawer iawn o arian o ganlyniad i flaenoriaethau sydd wedi eu cyflwyno gan awdurdodau lleol, sy'n cynnwys ymgysylltiad disgyblion wrth ddatblygu'r cynlluniau hynny. Rwy'n gwybod bod y gwersi a ddysgir o’r rheini yn cael eu hystyried.

**Peter Black:** Despite the long summer recess, you will be aware that the issues around the All-Wales Ethnic Minority Association remain unresolved. Can you give any indication—if you know—as to when the Wales Audit Office will publish its report, and when we can expect a statement from Ministers on that issue?

**Peter Black:** Er gwaethaf yr egwyl hir dros yr haf, byddwch yn ymwybodol bod y materion sy'n ymwneud â Chymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan yn parhau heb eu datrys. A allwch chi roi unrhyw syniad - os ydych yn gwybod – ynglŷn â phryd y bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn cyhoeddi ei adroddiad, a phryd y gallwn ddisgwyl datganiad gan Weinidogion ar y mater hwnnw?

**Jane Hutt:** I thank Peter Black for that question. We have been engaged in issues that relate to ensuring that beneficiaries from programmes that were proposed and taken forward by AWEMA are being delivered. In fact, the Welsh European Funding Office has been very engaged in that, in terms of ESF convergence project agreements. In terms of a report from the Wales Audit Office, we are keen to receive that, but it will go to the Public Accounts Committee for consideration.

**Jane Hutt:** Diolchaf i Peter Black am y cwestiwn yna. Rydym wedi bod yn ymwneud â materion sy'n ymwneud â sicrhau bod buddion rhaglenni a gynigiwyd ac a ddatblygwyd gan AWEMA yn cael eu cyflenwi. Mewn gwirionedd, mae Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru wedi bod yn gysylltiedig iawn â hynny, o ran cytundebau prosiect cydgyfeirio ESF. O ran adroddiad gan Swyddfa Archwilio Cymru, rydym yn awyddus i dderbyn hwnnw, ond bydd yn mynd i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i'w ystyried.

**Andrew R.T. Davies:** Leader of the House, would it be possible to have two statements, please? The first would be from the Minister for Health and Social Services in relation to IVF services, particularly in south Wales. Many families looking to have IVF treatment are being diverted to Bristol, because of real problems around staffing the unit here in Cardiff. I appreciate that your response might well be, ‘Well, this information can be elicited from the Minister for health via questions’. However, I believe that a detailed

**Andrew RT Davies:** Arweinydd y Tŷ, a fyddai modd cael dau ddatganiad, os gwelwch yn dda? Byddai'r cyntaf gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynglŷn â gwasanaethau IVF, yn enwedig yn y De. Mae llawer o deuluoedd sy’n gobeithio cael triniaeth IVF yn cael eu dargyfeirio i Fryste, oherwydd problemau gwirioneddol yn ymwneud â staffio yn yr uned yma yng Nghaerdydd. Yr wyf yn gwerthfawrogi y gallai eich ymateb fod, 'Wel, gellir cael y wybodaeth hon gan y

statement from the Minister for health addressing the staffing concerns and the provision of the two cycles of IVF treatment that the Welsh Government has committed to provide would be the best way to deal with this issue. We could then get a full picture of the service provision in south Wales.

Gweinidog dros iechyd drwy ofyn cwestiynau'. Fodd bynnag, credaf mai datganiad manwl gan y Gweinidog dros iechyd, a fyddai'n mynd i'r afael â'r pryderon staffio a darpariaeth y ddau gylch o driniaeth IVF y mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i'w ddarparu, fyddai'r ffordd orau o ymdrin â'r mater hwn. Gallem wedyn gael darlun llawn o ddarpariaeth y gwasanaeth yn y De.

Secondly, you said before the summer recess that there would be a statement brought forward on the actions the Government has taken around fly-grazing, particularly in relation to cross-agency working, given that this work goes across Government. We are now into the autumn and winter is beckoning, but I have yet to see a statement from the Minister, although you did say that one would be forthcoming. Could you enlighten us as to when that statement might be forthcoming from the Minister for Local Government and Communities?

Yn ail, fe ddywedoch cyn egwyl yr haf y byddai datganiad yn cael ei ddwyn ymlaen ar y camau y mae'r Llywodraeth wedi eu cymryd ynglŷn â phori anghyfreithlon, yn enwedig o ran gweithio traws-asiantaethol, o ystyried bod y gwaith hwn yn mynd ar draws y Llywodraeth. Rydym yn awr wedi cyrraedd yr hydref ac mae'r gaeaf ar ddod, ond rwyf eto i weld datganiad gan y Gweinidog, er i chi ddweud y byddai un yn dod. A allech chi ein goleuo ynghylch pryd y gallwn ddisgwyl gweld y datganiad gan y Gweinidog dros Lywodraeth Leol a Chymunedau?

**Jane Hutt:** In response to the first point, the Minister for health will respond in detail to any questions on IVF treatment. I can tell Andrew R.T. Davies that she and the Welsh Government are working very closely with the NHS to address IVF capacity issues in south Wales. Measures are in place to ensure that patients receive timely access to treatment. Patients are, therefore, being offered treatment at NHS services in Bristol until the NHS capacity is increased in Wales.

**Jane Hutt:** Mewn ymateb i'r pwynt cyntaf, bydd y Gweinidog dros iechyd yn ymateb yn fanwl i unrhyw gwestiynau ar driniaeth IVF. Gallaf ddweud wrth Andrew R.T. Davies ei bod hi a Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos iawn gyda'r GIG i fynd i'r afael â materion capasiti IVF yn y De. Mae mesurau wedi eu sefydlu i sicrhau bod cleifion yn cael mynediad amserol at driniaeth. Mae cleifion, felly, yn cael cynnig triniaeth yng ngwasanaethau'r GIG ym Mryste hyd y bydd gallu'r GIG i gyflawni'r gwaith yn cynyddu yng Nghymru.

On the second point, there are indeed a number of Ministers engaged in addressing the fly-grazing issue. My colleague Carl Sargeant, the Minister for Local Government and Communities, is coordinating the inputs from Ministers, and I am sure that a statement will be forthcoming in due course.

Ar yr ail bwynt, yn wir, mae nifer o Weinidogion mewn gwirionedd wrthi'n mynd i'r afael â'r mater pori anghyfreithlon. Mae fy nghydweithiwr Carl Sargeant, y Gweinidog dros Lywodraeth Leol a Chymunedau, wrthi'n cydgysylltu'r mewnbynnau gan Weinidogion, ac rwy'n siŵr y bydd datganiad yn dod maes o law.

**Mark Isherwood:** I would also like to call for two statements. The first relates to the flooding currently affecting parts of Wales. Yesterday, a month's rainfall fell in one day in north-east Wales, affecting villages surrounding my own—Llanfynydd, Caergwrle, Padeswood, Penyffordd,

**Mark Isherwood:** Hoffwn innau hefyd alw am ddau ddatganiad. Mae'r cyntaf yn ymwneud â'r llifogydd sydd ar hyn o bryd yn effeithio ar rannau o Gymru. Ddoe, syrthiodd gwerth mis o law mewn un diwrnod yn y Gogledd-ddwyrain, gan effeithio ar bentrefi cyfagos i fy mhentref fy hun - Llanfynydd,

Pontblyddyn and elsewhere—and the Environment Agency warned of further rainfall and flooding today. That is why we would welcome a statement on what action the Welsh Government is taking to support local authorities and to provide wider support in relation to that matter.

Caergwrle, Padeswood, Penyffordd, Pontblyddyn a mannau eraill – a chafwyd rhybudd gan Asiantaeth yr Amgylchedd am fwy o law a llifogydd heddiw. Dyna pam y byddem yn croesawu datganiad ar y camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi awdurdodau lleol ac i ddarparu cefnogaeth ehangach ynglŷn â’r mater.

My second and final request relates to a matter that I have raised previously. I am calling for a statement by the Welsh Government on its engagement with the credit union programme of the UK Department of Work and Pensions. It has announced £38 million to make credit union services more available and to deliver them sustainably. The Association of British Credit Unions Ltd, or ABCUL, has reiterated that this is open to Welsh credit unions—out of 22 credit unions in Wales, 17 already belong to ABCUL—and that the radical shift in credit union development and investment is likely to produce, both directly and indirectly, benefits for credit unions here. We therefore need a statement on how the Welsh Government is ensuring that its support will run alongside the UK Government programme and is tailored to complement the UK programme in order to maximise its impact in Wales and to tackle the question of self-sustainability head on. I know that the UK Government is very keen to work with you and to engage on this matter.

Mae fy ail gais a'r olaf yn ymwneud â mater yr wyf wedi'i godi o'r blaen. Yr wyf yn galw am ddatganiad gan Lywodraeth Cymru ar ei ymgysylltiad â rhaglen undeb credyd Adran Gwaith a Phensiynau’r DU. Mae wedi cyhoeddi £38 miliwn i sicrhau bod gwasanaethau undeb credyd ar gael ac i'w cyflwyno mewn modd cynaliadwy. Mae Cymdeithas Undebau Credyd Prydain Cyf, neu ABCUL, wedi ailadrodd bod hyn yn agored i undebau credyd Cymru - o’r 22 o undebau credyd yng Nghymru, mae 17 eisoes yn perthyn i ABCUL - a bod y newid radical o ran datblygu undebau credyd a buddsoddiad ynddynt yn debygol o gynhyrchu, yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol, buddion i undebau credyd yma. Felly, mae angen datganiad ar sut y mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau y bydd ei gefnogaeth yn rhedeg ochr yn ochr â rhaglen Llywodraeth y DU ac yn cael ei deilwra i gyd-fynd â rhaglen y DU er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf yng Nghymru a mynd i'r afael benben â'r cwestiwn o hunan-gynaliadwyedd. Gwn fod Llywodraeth y DU yn awyddus iawn i weithio gyda chi ac i ymgysylltu ar y mater hwn.

**Jane Hutt:** I thank Mark Isherwood for those questions. The Minister for Environment and Sustainable Development is closely engaged in briefing on the impacts of the current flooding, as well as ensuring—and I have to say this as Finance Minister—that there is investment. Indeed, the investment is critical in terms of flood prevention and alleviation works. I am sure that the Minister will want to come back to the Assembly in relation to current flooding incidents and episodes that are having an adverse impact on communities and business.

**Jane Hutt:** Diolchaf i Mark Isherwood am y cwestiynau yna. Mae’r Gweinidog dros yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy yn ymwneud yn agos â briffio ar effaith y llifogydd presennol, yn ogystal â sicrhau - a rhaid i mi ddweud hyn fel y Gweinidog dros Gyllid - y ceir buddsoddiad. Yn wir, mae'r buddsoddiad yn hollbwysig o ran atal llifogydd a gwaith lliniaru. Yr wyf yn siŵr y bydd y Gweinidog yn awyddus i ddod yn ôl at y Cynulliad ynglŷn â’r digwyddiadau gorlifo presennol a chyfnodau sy'n cael effaith andwyol ar gymunedau a busnesau.

We are very confident in the investment and support that we give to our credit unions, but the Minister for Local Government and Communities will be speaking to ABCUL

Rydym yn hyderus iawn yn y buddsoddiad a'r gefnogaeth a roddwn i’n hundebau credyd, ond bydd y Gweinidog dros Lywodraeth Leol a Chymunedau yn siarad ag ABCUL am y

about the issues that you raised. Thank you for raising them.

materion a godwyd gennych. Diolch i chi am eu codi.

2.45 p.m.

**Darren Millar:** Minister, could we have a statement from the Minister for Health and Social Services on the future of neonatal services in north Wales? The Minister will be aware that the Betsi Cadwaladr University Local Health Board is currently consulting with the public on the provision of long-term neonatal care, which is currently provided at Ysbyty Glan Clwyd and Wrexham Maelor hospitals, with the possibility of that care being transferred to Arrowe Park Hospital. A number of organisations—including Cuddles, based at Ysbyty Glan Clwyd, where it supports parents and the special care baby unit there—have raised concerns with me that the Arrowe Park Hospital does not meet the current neonatal care standards, that there are huge transport and travel issues and implications for parents and other loved ones who wish to visit babies, and that such a move may have an impact on the nationality of babies if a mum is transferred to the north-west of England in a high-risk situation when she may want her baby to be born in Wales. Can we have a statement on that issue as soon as possible, please?

**Darren Millar:** Weinidog, a gawn ni ddatganiad gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar ddyfodol gwasanaethau newydd-anedig yn y Gogledd? Bydd y Gweinidog yn ymwybodol bod Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr wrthi'n ymgynghori â'r cyhoedd ar y ddarpariaeth o ofal tymor hir newydd-anedig, a ddarperir ar hyn o bryd yn Ysbyty Glan Clwyd ac Ysbyty Maelor Wrecsam, gyda'r posibilrwydd y bydd y gofal hwnnw yn cael ei drosglwyddo i Ysbyty Arrowe Park. Mae nifer o sefydliadau - gan gynnwys Cuddles, a leolir yn Ysbyty Glan Clwyd, lle mae'n cefnogi rhieni a'r uned gofal arbennig i fabanod yno - wedi codi pryderon gyda mi nad yw Ysbyty Arrowe Park yn bodloni'r safonau gofal newydd-anedig ar hyn o bryd, bod problemau mawr o ran materion cludiant a theithio, a'r goblygiadau ar gyfer rhieni ac anwyliaid eraill sy'n dymuno ymweld â babanod, ac y gallai symudiad o'r fath gael effaith ar genedligrwydd babanod os yw'r fam yn cael ei throsglwyddo i ogledd-orllewin Lloegr mewn sefyllfa risg uchel pan efallai ei bod am i'w babi gael ei eni yng Nghymru. A allwn ni gael datganiad ar y mater hwn cyn gynted ag y bo modd, os gwelwch yn dda?

**Jane Hutt:** Of course, the Minister for health will be answering questions this week. I must remind the Member that local health boards are developing plans to improve their neonatal services and to meet the aims of ‘Together for Health’. Health boards are considering issues in response to that in respect of training, transport and population needs.

**Jane Hutt:** Wrth gwrs, bydd y Gweinidog dros iechyd yn ateb cwestiynau yr wythnos hon. Mae'n rhaid i mi atgoffa'r Aelod fod byrddau iechyd lleol yn datblygu cynlluniau i wella eu gwasanaethau newydd-anedig ac i fodloni amcanion 'Law yn Llaw at Iechyd'. Mae byrddau iechyd yn ystyried materion mewn ymateb i hynny o ran anghenion hyfforddiant, cludiant a phoblogaeth.

**Nick Ramsay:** Could we have an update from the Minister for environment on the fate of the three drainage boards in Wales? There has been some concern about what will happen to those drainage boards once we have the proposed new single environmental body. Certainly, in south-east Wales, there is concern that the experience that has been amassed by the commission and by the drainage boards over many hundreds of years

**Nick Ramsay:** A allwn ni gael y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog dros yr amgylchedd ar dynged y tri bwrdd draenio yng Nghymru? Bu rhywfaint o bryder ynghylch beth fydd yn digwydd i'r byrddau draenio ar ôl i ni gael y corff amgylcheddol unigol newydd arfaethedig. Yn sicr, yn y De-ddwyrain, ceir pryder y gellid colli'r profiad a grynhowyd gan y comisiwn a chan y byrddau draenio dros gannoedd o

could be lost.

flynyddoedd.

**Jane Hutt:** I am sure that you have drawn these concerns to the attention of the Minister. I will make sure that he reports back to you directly on developments.

**Jane Hutt:** Yr wyf yn siŵr eich bod wedi dod â'r pryderon hyn i sylw'r Gweinidog. Byddaf yn gwneud yn siŵr ei fod yn adrodd yn ôl yn uniongyrchol i chi am ddatblygiadau.

**The Presiding Officer:** Item 3 has been deferred until 2 October, so we now move to item 4.

**Y Llywydd:** Mae Eitem 3 wedi ei gohirio tan 2 Hydref, felly symudwn yn awr at eitem 4.

## Datganiad: Fframwaith Gweithredu ar gyfer Byw'n Annibynnol—Dogfen Ymgynghori a Gyhoeddwyd ar 20 Medi
## Statement: Framework for Action on Independent Living—Consultation Document Issued on 20 September

**The Minister for Finance and Leader of the House (Jane Hutt):** I would like to make a statement on the Welsh Government's 'Framework for Action on Independent Living', which we launched for consultation last Thursday. The framework sets out action to promote the rights of disabled people in Wales to live independently and exercise the same choices as other citizens. It is a cross-government approach that I have developed with the Deputy Minister for Children and Social Services. The publication fulfils the commitment that I gave to the Petitions Committee on 11 October last year. I informed Members of the intention to publish on 20 September in my written statement to you of 17 July. We chose 20 September as it is the fortieth anniversary of the publication in 1972 of a letter to *The Guardian* by Paul Hunt. That sparked the beginning of the disability rights movement in the UK.

**Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ (Jane Hutt):** Hoffwn wneud datganiad ar 'Fframwaith ar gyfer Gweithredu ar Fyw'n Annibynnol' Llywodraeth Cymru, a lansiwyd ar gyfer ymgynghori ddydd Iau diwethaf. Mae'r fframwaith yn nodi camau gweithredu i hyrwyddo hawliau pobl anabl yng Nghymru i fyw'n annibynnol ac i ymarfer yr un dewisiadau â dinasyddion eraill. Mae'n ymagwedd traws-lywodraeth a ddatblygwyd gennyf gyda'r Dirprwy Weinidog dros Blant a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r cyhoeddiad yn cyflawni'r ymrwymiad a roddais i'r Pwyllgor Deisebau ar 11 Hydref y llynedd. Rhoddais wybod i'r Aelodau am y bwriad i gyhoeddi ar 20 Medi yn fy natganiad ysgrifenedig i chi ar 17 Gorffennaf. Rydym wedi dewis 20 Medi gan mai dyma ddeugeinfed pen-blwydd cyhoeddiad ym 1972 o lythyr i'r *Guardian* gan Paul Hunt. Dyna ysgogodd ddechrau'r mudiad hawliau anabledd yn y DU.

The aims of the framework are: to set out a positive vision for disabled people in Wales in the challenging context of recession and the UK Government's programme of welfare reform; to challenge stereotypes and negative attitudes; to set out for the first time a strategic approach to disability in Wales; to set out what the Welsh Government is doing to promote an inclusive and enabling society. The framework sets out how we are fulfilling our obligations under the United Nations Convention on the Rights of Persons with Disabilities. It also supports our strategic equality plan and our 'Tackling Poverty

Amcanion y fframwaith yw: nodi gweledigaeth gadarnhaol ar gyfer pobl anabl yng Nghymru yng nghyd-destun heriol dirwasgiad a rhaglen Llywodraeth y DU i ddiwygio lles; i herio stereoteipiau ac agweddau negyddol; amlinellu am y tro cyntaf ddull strategol tuag at anabledd yng Nghymru; i nodi'r hyn y mae Llywodraeth Cymru'n ei wneud i hyrwyddo cymdeithas gynhwysol a galluogol. Mae'r fframwaith yn nodi sut rydym yn cyflawni ein rhwymedigaethau o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau. Mae hefyd yn cefnogi ein

Action Plan'.

cynllun cydraddoldeb strategol a'n 'Cynllun Gweithredu ar Dlodi'.

The Welsh Government is well aware of the impacts of the UK Government's welfare reform agenda on disabled people. The fact that many are vulnerable in the current climate has strengthened the case for this framework. However, it can address only those issues within the Welsh Government's powers. The framework puts the spotlight on what the Welsh Government can do. It follows extensive engagement with disabled people in Wales, and it sets out actions in response to the priorities that they have identified. I will summarise them briefly.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol iawn o effaith agenda diwygio lles Llywodraeth y DU ar bobl anabl. Mae'r ffaith fod llawer ohonynt yn agored i niwed yn yr hinsawdd bresennol wedi cryfhau'r achos dros y fframwaith hwn. Fodd bynnag, dim ond y materion hynny sydd o fewn pwerau Llywodraeth Cymru y gall fynd i'r afael a hwy. Mae'r fframwaith yn rhoi sylw ar yr hyn y gall Llywodraeth Cymru ei wneud. Mae'n dilyn ymgysylltu helaeth â phobl anabl yng Nghymru, ac mae'n nodi camau gweithredu mewn ymateb i'r blaenoriaethau y maent wedi'u nodi. Fe roddaf grynodeb byr ohonynt.

On information and advice, the focus is on ensuring that people have access to the information that they need to exercise their rights and make informed choices, which includes improving advocacy services. The Welsh Government is currently undertaking a review of advice services in Wales, which is a key area in the context of welfare reform.

Ar wybodaeth a chyngor, mae'r ffocws ar sicrhau bod pobl yn cael mynediad at y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i arfer eu hawliau ac i wneud dewisiadau gwybodus, sy'n cynnwys gwella gwasanaethau eiriolaeth. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n cynnal adolygiad o'i wasanaethau cynghori yng Nghymru, sy'n faes allweddol yng nghyd-destun diwygio lles.

On housing, the framework links to the housing White Paper published in May, which includes proposals for expanding accessible housing registers, and reviewing the range of aids and adaptations programmes to secure further improvements in delivering services.

O ran tai, mae'r fframwaith yn gysylltiedig â'r Papur Gwyn ar dai a gyhoeddwyd ym mis Mai, sy'n cynnwys cynigion ar gyfer ehangu cofrestri tai hygyrch, ac ar gyfer adolygu'r amrywiaeth o raglenni cymhorthion ac addasiadau i sicrhau gwelliannau pellach o ran darparu gwasanaethau.

On social care, the framework sets out how the Government's reforms will support independent living. These will promote voice and control in the way in which services are delivered and develop a new model of citizen-directed support, including direct payments to enable disabled people to have more control over their care packages. In respect of person-centred technology, the framework includes action to improve training so that people are better equipped to support individuals in finding the most suitable enabling technology for their needs as a major enabler of independent living.

O ran gofal cymdeithasol, mae'r fframwaith yn nodi sut y bydd diwygiadau'r Llywodraeth yn cefnogi byw'n annibynnol. Bydd y rhain yn hyrwyddo llais a rheolaeth yn y ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu ac yn datblygu model newydd o gymorth a gyfarwyddir gan y dinesydd, gan gynnwys taliadau uniongyrchol i alluogi pobl anabl i gael mwy o reolaeth dros eu pecynnau gofal. O ran technoleg sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, mae'r fframwaith yn cynnwys camau i wella hyfforddiant fel bod pobl yn fwy cymwys i gefnogi unigolion i ddod o hyd i'r dechnoleg galluogi fwyaf addas ar gyfer eu hanghenion fel prif elfen i alluogi byw'n annibynnol.

On transport, the framework includes action on the accessibility of buses, trains and

O ran cludiant, mae'r fframwaith yn cynnwys gweithredu ar hygyrchedd bysiau, trenau a

station design, as well as driver training, all of which are key issues for disabled people. The section on accessible and inclusive places addresses the crucial role of inclusive design. It considers the planning and building control aspects, and the important role of local access groups.

dyluniad gorsafoedd, yn ogystal â hyfforddiant gyrrwyr, pob un ohonynt yn faterion allweddol i bobl anabl. Mae'r adran ar fannau hygyrch a lleoedd cynhwysol yn mynd i'r afael â'r rôl hanfodol o ddylunio cynhwysol. Mae'n ystyried y cynllunio a'r agweddau rheoli adeiladu, a rôl bwysig grwpiau mynediad lleol.

The employment section sets out action to promote the employment and employability of disabled people, including what the Welsh Government and its partners can do as employers, and through procurement and the supported factories and business framework.

Mae'r adran ar gyflogaeth yn amlinellu'r camau i hyrwyddo cyflogaeth a chyflogadwyedd pobl anabl, gan gynnwys yr hyn y gall Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid ei wneud fel cyflogwyr, a thrwy brosesau caffael a'r fframwaith ffatrïoedd â chymorth a busnes.

These priorities are interconnected. For example, the opportunities available to disabled people can be constrained by inaccessible public transport options. All these issues must be addressed if we are to build a genuinely inclusive society.

Mae'r blaenoriaethau hyn wedi'u cydgysylltu. Er enghraifft, gall y cyfleoedd sydd ar gael i bobl anabl gael eu cyfyngu gan opsiynau cludiant cyhoeddus anhygyrch. Rhaid mynd i’r afael â’r holl faterion hyn os ydym am adeiladu cymdeithas wirioneddol gynhwysol.

To promote this joined-up approach at local level, the framework highlights the role of disabled people’s organisations. These can have a major impact by engaging with public services and the private sector at local level. One of the questions for consultation is to identify the most practicable ways of supporting disabled people’s organisations across Wales.

Er mwyn hyrwyddo'r dull gweithredu cydgysylltiedig hwn ar lefel leol, mae'r fframwaith yn tynnu sylw at rôl sefydliadau pobl anabl. Gall y rhain gael effaith bwysig drwy ymgysylltu â gwasanaethau cyhoeddus a'r sector breifat ar lefel leol. Un o'r cwestiynau ar gyfer ymgynghori yw nodi'r ffyrdd mwyaf ymarferol o gefnogi sefydliadau pobl anabl ar draws Cymru.

In developing the framework, we have focused on practical action. We will take the same approach through the consultation process, so that we can strengthen the framework further. The focus is primarily on action by the Welsh Government, but the role of our delivery partners in local government and the wider public services will be crucial in tackling barriers at local level.

Wrth ddatblygu'r fframwaith, rydym wedi canolbwyntio ar weithredu ymarferol. Byddwn yn cymryd yr un agwedd drwy'r broses ymgynghori, fel y gallwn gryfhau'r fframwaith ymhellach. Mae'r ffocws yn bennaf ar gamau gweithredu gan Lywodraeth Cymru, ond bydd rôl ein partneriaid cyflenwi mewn llywodraeth leol a'r gwasanaethau cyhoeddus ehangach yn hanfodol wrth fynd i'r afael â rhwystrau ar lefel leol.

The framework reflects the diverse needs and priorities of disabled people. Some are vulnerable and need specific support, and many others just want to be able to participate in life in the same way as everyone else. The framework supports a major cultural and policy shift in support of the social model of disability. Although the social model was adopted by the Assembly in 2002, in practice, many barriers still remain.

Mae'r fframwaith yn adlewyrchu anghenion amrywiol a blaenoriaethau pobl anabl. Mae rhai yn agored i niwed ac angen cymorth penodol, a llawer o rai eraill sydd ddim ond eisiau cymryd rhan mewn bywyd yn yr un ffordd â phawb arall. Mae'r fframwaith yn cefnogi newid mawr mewn diwylliant a pholisi i gefnogi'r model cymdeithasol o anabledd. Er bod y model cymdeithasol wedi ei fabwysiadu gan y Cynulliad yn 2002, yn

We intend to use the framework to speed up progress in tackling these, so that disabled people can determine their own lives and increase their independence.

ymarferol, mae llawer o rwystrau yn dal i fodoli. Rydym yn bwriadu defnyddio'r fframwaith i gyflymu'r cynnydd wrth fynd i'r afael â’r rhain, fel y gall pobl anabl benderfynu ar eu bywydau eu hunain a chynyddu eu hannibyniaeth.

Through the consultation process, we will keep up the momentum for delivery, nationally and locally. Through the national disability equality forum, I will be engaging with stakeholders to monitor progress. The way forward is to emphasise a positive vision of the kind of country we want Wales to be. We want Wales to be a place where inclusion is the norm, and where services, facilities and buildings are genuinely accessible and welcoming to everyone.

Drwy'r broses ymgynghori, byddwn yn cynnal y momentwm ar gyfer cyflawni, yn genedlaethol ac yn lleol. Drwy'r fforwm cydraddoldeb anabledd cenedlaethol, byddaf yn ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn monitro cynnydd. Y ffordd ymlaen yw pwysleisio gweledigaeth gadarnhaol o'r math o wlad yr ydym am i Gymru fod. Rydym am i Gymru fod yn wlad lle mai cynhwysiad yw'r norm, a lle mae gwasanaethau, cyfleusterau ac adeiladau yn wirioneddol hygyrch ac yn groesawgar i bawb.

To conclude, tackling barriers for disabled people will not only advance their rights, but will also have wider benefits for access and inclusion, and will promote more sustainable and responsive services for everyone in Wales.

I gloi, bydd mynd i'r afael â rhwystrau i bobl anabl nid yn unig yn cynyddu eu hawliau, ond bydd hefyd yn cynnig manteision ehangach ar gyfer mynediad a chynhwysiant, a bydd yn hyrwyddo gwasanaethau mwy cynaliadwy ac ymatebol i bawb yng Nghymru.

**William Graham:** I thank the Leader of the House, and also the Deputy Minister for Children and Social Services, for bringing forward this statement today. On this side of the House, we support the framework for action on independent living, and although I will pose some questions today, I trust that they will be part of the consultation, and I do not expect the Minister to be able to give particular answers.

**William Graham:** Diolch i Arweinydd y Tŷ, a hefyd y Dirprwy Weinidog dros Blant a Gwasanaethau Cymdeithasol, am gyflwyno'r datganiad hwn heddiw. Ar yr ochr hon i'r Tŷ, rydym yn cefnogi’r fframwaith ar gyfer gweithredu ar fyw'n annibynnol, ac er y byddaf yn gofyn rhai cwestiynau heddiw, hyderaf y byddant yn rhan o'r ymgynghoriad, ac nid wyf yn disgwyl i'r Gweinidog allu rhoi atebion penodol.

The report identifies quite clearly that advice for disabled people is, sadly, unavailable in many areas of Wales and is not always easily understandable. The need for more information is recognised, and it is clearly important to follow up how the information is being used and the services delivered.

Mae'r adroddiad yn nodi’n glir nad oes cyngor ar gael, yn anffodus, ar gyfer pobl anabl mewn sawl rhan o Gymru, ac nid yw bob amser yn hawdd ei deall. Cydnabyddir yr angen am fwy o wybodaeth, ac mae'n amlwg yn bwysig i wneud gwaith dilynol ar sut y mae'r wybodaeth yn cael ei defnyddio a'r gwasanaethau yn cael eu darparu.

One of the problems that the consultation is tackling is changing people’s negative attitude, and that is a major challenge. It is rather ambiguous in this particular document, as there does not seem to be any clearly defined way in which to do that. The equality of service throughout the United Kingdom is

Un o'r problemau y mae'r ymgynghoriad yn mynd i'r afael a hi yw newid agwedd negyddol pobl, ac mae honno yn her fawr. Mae braidd yn amwys yn y ddogfen arbennig hon, gan nad yw'n ymddangos bod unrhyw ffordd wedi’i diffinio'n glir o wneud hynny. Mae'r gwasanaeth cyfartal ledled y Deyrnas

vital, and again we must pose the question of how that is to be ensured.

Unedig yn hanfodol, ac unwaith eto mae'n rhaid i ni ofyn y cwestiwn o sut y byddwn yn sicrhau hyn.

The complex and widely varying goals and ambitions of disabled individuals clearly need to be addressed, and this consultation is a good way forward. I ask whether there will be individual assessments specific to each person's needs, and how that could be achieved. We also ask what the Welsh Government's plans are for an inclusive and enabling society.

Yn amlwg, mae angen mynd i'r afael ag amcanion cymhleth ac amrywiol iawn, ac uchelgeisiau unigolion anabl, ac mae'r ymgynghoriad hwn yn ffordd dda ymlaen. Yr wyf yn gofyn a gynhelir asesiadau unigol sy'n benodol i anghenion pob unigolyn, a sut y gellid cyflawni hynny. Rydym hefyd yn gofyn pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cymdeithas gynhwysol a galluogol.

As an aside, Minister, I recently chaired a fuel poverty forum, and in the question-and-answer session afterwards, it became apparent that social workers and health workers in many cases have day-to-day contact with the elderly and the vulnerable. Therefore, they are one partner that should be able to give the information in a trusted form in the future. We look forward to the outcome of the consultation and join the Minister in her hope that there will be fruitful working with disabled people's organisations throughout Wales.

Gair wrth fynd heibio, Weinidog, cadeiriais fforwm tlodi tanwydd yn ddiweddar, ac yn y sesiwn holi-ac-ateb dilynol, daeth yn amlwg bod gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr iechyd mewn nifer o achosion yn cael cyswllt o ddydd i ddydd gyda'r henoed a phobl agored i niwed . Felly, maent yn un partner a ddylai fod yn gallu rhoi'r wybodaeth ar ffurf y gellir ymddiried ynddi yn y dyfodol. Rydym yn edrych ymlaen at ganlyniad yr ymgynghoriad ac yn ymuno â'r Gweinidog yn ei gobaith y ceir cydweithio ffrwythlon gyda sefydliadau pobl anabl ledled Cymru.

**Jane Hutt:** I thank the Welsh Conservatives' spokesperson for that positive contribution, and I am glad that this will lead to full engagement with, and response to, the consultation section in the framework that will take us forward to Christmas. I want to strengthen the framework as a result of the responses that we get.

**Jane Hutt:** Diolchaf i lefarydd y Ceidwadwyr Cymreig am y cyfraniad cadarnhaol yna, ac yr wyf yn falch y bydd hyn yn arwain at ymgysylltiad llawn ag adran ymgynghori'r fframwaith, ac at ymateb iddo, a fydd yn mynd â ni ymlaen at y Nadolig. Rwyf am gryfhau'r fframwaith o ganlyniad i'r ymatebion a gawn.

William Graham is right to focus on advice and information as being key. Access to information can enable disabled people to exercise their rights and find out about policy areas where, locally and nationally, we can make a difference. You will see in the framework the importance of understanding what local authorities can do, working with partners, to take a more strategic approach to advice and information. The Newport information station is an example of that model.

Mae William Graham yn iawn i bwysleisio bod cyngor a gwybodaeth yn allweddol. Gall mynediad at wybodaeth alluogi pobl anabl i ymarfer eu hawliau a chael gwybod am feysydd polisi lle, yn lleol ac yn genedlaethol, y gallwn wneud gwahaniaeth. Byddwch yn gweld yn y fframwaith pwysigrwydd deall yr hyn y gall awdurdodau lleol ei wneud, gan weithio gyda phartneriaid, i gymryd ymagwedd fwy strategol at gyngor a gwybodaeth. Mae gorsaf wybodaeth Casnewydd yn enghraifft o'r model hwnnw.

The work that has been done and the way that we have developed this framework is key to overcoming the barriers to delivering on the social model. When we launched last week,

Mae'r gwaith sydd wedi'i wneud a'r ffordd yr ydym wedi datblygu'r fframwaith hwn yn allweddol i oresgyn y rhwystrau i gyflawni'r model cymdeithasol. Pan lansiwyd hyn yr

the point was made that this is an example of co-production. Disabled people engaged fully with my officials and a whole range of organisations, nationally and locally, to focus on the key priorities for them, which the Welsh Government and our delivery partners at local level can respond to.

wythnos diwethaf, gwnaethpwyd y pwynt bod hwn yn enghraifft o gyd-gynhyrchu. Fe wnaeth pobl anabl ymgysylltu'n llwyr gyda fy swyddogion ac ystod eang o sefydliadau, yn genedlaethol ac yn lleol, i ganolbwyntio ar y blaenoriaethau allweddol iddynt hwy, y gall Llywodraeth Cymru a'n partneriaid cyflawni ar lefel lleol ymateb iddynt.

**Lindsay Whittle:** Thank you, Minister, for your statement today. The Party of Wales fully supports any effort aimed at creating a more inclusive society that enables disabled people to live independently. I have a few questions. The framework for action states that the Government will expand the scope for direct payments. While for some disabled people that is the best way of providing support for independent living, for others, it is not. Will the Government commit, therefore, to ensuring that public sector provision of social care will continue and be adequately funded, and will not simply be a second-rate option for those who may not be able to manage direct payments? For those who do receive direct payments, will the Government ensure that the sector is properly regulated so that the abuse of vulnerable people, which we unfortunately see too often in market-driven social care, is not allowed to fester in an unregulated market?

**Lindsay Whittle:** Diolch i chi, Weinidog, am eich datganiad heddiw.Mae Plaid Cymru yn cefnogi unrhyw ymdrech sydd â'r nod o greu cymdeithas fwy cynhwysol sy'n galluogi pobl anabl i fyw'n annibynnol. Mae gen i ychydig o gwestiynau. Mae'r fframwaith ar gyfer gweithredu yn datgan y bydd y Llywodraeth yn ehangu'r cwmpas ar gyfer taliadau uniongyrchol. Er mai dyma'r ffordd orau o ddarparu cefnogaeth i rai pobl anabl i fyw'n annibynnol, nid yw'n gweddu i eraill. A wnaiff y Llywodraeth ymrwymo, felly, i sicrhau bod darpariaeth y sector cyhoeddus o ofal cymdeithasol yn parhau ac yn cael ei ariannu'n ddigonol, ac na fydd yn ddim ond dewis eilradd ar gyfer y rhai nad ydynt yn gallu rheoli taliadau uniongyrchol? Ar gyfer y rhai sydd yn derbyn taliadau uniongyrchol, a fydd y Llywodraeth yn sicrhau bod y sector yn cael ei reoleiddio'n briodol fel nad yw cam-drin pobl agored i niwed, yr ydym yn anffodus yn ei weld yn rhy aml mewn gofal cymdeithasol wedi'i sbarduno gan y farchnad, yn crawni mewn marchnad heb ei rheoleiddio?

Many disabled people currently receive council tax benefit, and everyone will be extremely concerned about what will happen when that benefit is devolved. We need to address these issues now, particularly for younger disabled people.

Mae llawer o bobl anabl ar hyn o bryd yn derbyn budd-dal treth y cyngor, a bydd pawb yn bryderus iawn am beth fydd yn digwydd pan fydd y budd-dal yn cael ei ddatganoli. Mae angen i ni fynd i'r afael â'r materion hyn nawr, yn enwedig ar gyfer pobl anabl iau.

Finally, there was a specific lack of detail in the framework for action regarding people who have mental health problems. Can you please reassure us that you accept that there are distinct issues in relation to mental health and that, therefore, there is a far greater need for leadership from all of us, quite frankly, when it comes to tackling discrimination?

Yn olaf, roedd diffyg penodol o fanylder yn y fframwaith ar gyfer gweithredu ynghylch pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl. A allwch chi os gwelwch yn dda roi sicrwydd i ni eich bod yn derbyn bod materion penodol sy'n berthnasol i iechyd meddwl, ac felly, bod llawer mwy o angen am arweinyddiaeth gan bob un ohonom, a dweud y gwir, wrth fynd i'r afael â gwahaniaethu?

**Jane Hutt:** I thank Lindsay Whittle for those very constructive points. The key purpose of this is to ensure that disabled people have a

**Jane Hutt:** Diolchaf i Lindsay Whittle am y pwyntiau adeiladol iawn a wnaed. Prif bwrpas hyn yw sicrhau bod gan bobl anabl

choice, and choice is key to social care needs. That means that direct payments are a choice and are not the only route; indeed, they are not appropriate for all disabled people. However, we received strong evidence that direct payments allow people to take direct control of the support that they need to meet their social care needs, so we are keen to promote the greater uptake of direct payments and to make them easier for individuals to access and use. That was part of the consultation on the social services Bill, as there were proposals for promoting direct payments.

ddewis, ac mae dewis yn allweddol i anghenion gofal cymdeithasol. Mae hynny'n golygu mai dewis yw taliadau uniongyrchol ac nid yr unig lwybr, mewn gwirionedd, nid ydynt yn briodol ar gyfer pawb sy’n anabl. Fodd bynnag, cawsom dystiolaeth gref bod taliadau uniongyrchol yn caniatáu i bobl gymryd rheolaeth uniongyrchol o’r cymorth y maent ei angen i ddiwallu eu hanghenion gofal cymdeithasol, felly rydym yn awyddus i hyrwyddo defnydd mwy o daliadau uniongyrchol a’u gwneud yn haws i unigolion i gael mynediad atynt a’u defnyddio. Roedd hyn yn rhan o'r ymgynghoriad ar y Mesur gwasanaethau cymdeithasol, gan fod cynigion ar gyfer hyrwyddo taliadau uniongyrchol.

3.00 p.m.

There will be more consultation on developing direct payments as part of the Welsh model of citizen-directed support. There are key issues, not just with regard to the changes or transfer of cuts from the UK Government to council tax benefit, but there are changes through welfare reform, which will have a big impact on disabled people. If we look at housing benefit as well as council tax, the welfare reform changes include specific measures that will reduce spending on people claiming benefits for disability reasons. Work has been commissioned from LE Wales, a division of London Economics Limited, which is an independent research body, to look at the impact of reform of the disability living allowance, for example, on working-age and older people in Wales. That research has been published on the Welsh Government website, and I advise Members to look at it.

Bydd mwy o ymgynghori ar ddatblygu taliadau uniongyrchol yn rhan o fodel cymorth Cymru, sy’n canolbwyntio ar y dinesydd. Ceir materion allweddol, nid yn unig o ran y newidiadau neu drosglwyddo toriadau o Lywodraeth y DU i fudd-dal y dreth cyngor, ond mae newidiadau hefyd oherwydd ddiwygio lles, a fydd yn cael effaith fawr ar bobl anabl. Os ydym yn edrych ar fudd-dal tai yn ogystal â’r dreth cyngor, mae newidiadau’r diwygio lles yn cynnwys mesurau penodol a fydd yn lleihau gwariant ar bobl sy'n hawlio budd-daliadau am resymau anabledd. Mae gwaith wedi ei gomisiynu gan LE Wales, adran o London Economics Limited, sy'n gorff ymchwil annibynnol, i edrych ar effaith diwygio'r lwfans byw i'r anabl, er enghraifft, ar bobl o oedran gweithio a phobl hŷn yng Nghymru. Mae’r ymchwil hwnnw wedi ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru, ac rwyf yn cynghori Aelodau i edrych arno.

These issues are important regarding the ways in which we can move to address the priorities that have come through from disabled people themselves. You mentioned mental health as a key issue. If you look at the range of organisations that were involved in the regional engagement events and the national steering group, you will see that Mind Cymru, for example, was represented on the latter. It will have reflected its views in terms of the policy priorities for which we are responsible. However, it is now for the

Mae'r materion hyn yn bwysig o ran y ffyrdd y gallwn symud i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau sydd wedi dod oddi wrth pobl anabl eu hunain. Fe wnaethoch grybwyll bod iechyd meddwl yn fater allweddol. Os ydych yn edrych ar yr amrywiaeth o sefydliadau a oedd yn cymryd rhan yn y digwyddiadau ymgysylltu rhanbarthol a'r grŵp llywio cenedlaethol, byddwch yn gweld bod Mind Cymru, er enghraifft, yn cael ei gynrychioli ar yr olaf. Bydd wedi adlewyrchu ei farn o ran y blaenoriaethau polisi yr ydym yn

consultation to make these points clearly. I am sure that you and your party will be part of that.

gyfrifol amdanynt. Fodd bynnag, yr ymgynghoriad fydd bellach yn egluro’r pwyntiau hyn. Yr wyf yn siŵr y byddwch chi a'ch plaid yn rhan o hynny.

**Kirsty Williams:** I thank the Minister for her statement. The Welsh Liberal Democrats support the concept of developing the framework for action on independent living for disabled people. I am sure that most of us who stood at the last election would have been engaged in campaigns on these particular issues. However, I would be grateful if the Minister could clarify the next step after the consultation closes in December. The original paper was issued in the spring. It has taken a number of months to get to this stage. The consultation will now close in December. It looks like it could well be a year, potentially, before we see a resolution as to what the priorities are. I am not convinced that these priorities will tell us things that we do not already know in terms of the lack of action in some of these crucial areas. On the issue of advice, could the Minister please explain how this particular consultation coincides with the Government’s advocacy review, which is already out for consultation, and how support and advice services for disabled people will be looked at in terms of the Minister for local government’s advocacy review?

**Kirsty Williams:** Diolchaf i'r Gweinidog am ei datganiad.Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn cefnogi'r cysyniad o ddatblygu fframwaith ar gyfer gweithredu ar fyw'n annibynnol i bobl anabl. Yr wyf yn siŵr bod y rhan fwyaf ohonom a safodd yr etholiad diwethaf wedi bod yn ymwneud ag ymgyrchiadau ar y materion penodol hyn. Fodd bynnag, byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Gweinidog egluro’r cam nesaf ar ôl i’r ymgynghoriad ddod i ben ym mis Rhagfyr. Cyhoeddwyd y papur gwreiddiol yn y gwanwyn. Mae wedi cymryd nifer o fisoedd i gyrraedd y cam hwn. Bydd yr ymgynghoriad bellach yn cau ym mis Rhagfyr. Mae'n edrych fel y gallai fod yn flwyddyn, o bosibl, cyn i ni weld penderfyniad ynglŷn â beth yw'r blaenoriaethau. Nid wyf yn argyhoeddedig y bydd y blaenoriaethau hyn yn dweud wrthym bethau nad ydym yn wybod eisoes o ran y diffyg gweithredu mewn rhai o'r meysydd hollbwysig hyn. Ar y mater o gyngor a allai’r Gweinidog esbonio sut y bydd yr ymgynghoriad penodol hwn yn cyd-fynd ag adolygiad o wasanaethau eirioli’r Llywodraeth, sydd eisoes o dan ymgynghoriad, a sut yr ystyrir gwasanaethau cymorth a chyngor i bobl anabl yng nghyd-destun adolygiad eirioli’r Gweinidog dros lywodraeth leol?

Secondly, on the issue of housing, I doubt whether there is an Assembly Member who has not been contacted by people who have expressed huge frustration at the delays and the time it takes to get disabled facilities grants enacted. I have an elderly disabled person living in my constituency who has to wash out of a bucket because of the inability of the local authority to install an accessible shower in her home. Nobody here would expect to live in those circumstances, so it is not acceptable for us to expect our constituents to live in them. Powers to direct local authorities are available to the Welsh Government with regard to the timescale for disabled facilities grants. Many are exceeding that timescale, so what is the Government doing about it? Rather than consulting and

Yn ail, ar y mater o dai, yr wyf yn amau a oes yr un Aelod Cynulliad nad oes pobl wedi cysylltu â hwy i fynegi rhwystredigaeth enfawr am yr oedi a'r amser mae'n ei gymryd i gael grantiau cyfleusterau i'r anabl wed’i gweithredu. Mae gennyf berson anabl oedrannus sy'n byw yn fy etholaeth i sy'n gorfod ymolchi mewn bwced oherwydd anallu’r awdurdod lleol i osod cawod hygyrch yn ei chartref. Ni fyddai neb yma'n disgwyl byw dan yr amgylchiadau hynny, felly nid yw'n dderbyniol i ni ddisgwyl i’n hetholwyr fyw ynddynt ychwaith. Mae pwerau i gyfarwyddo awdurdodau lleol ar gael i Lywodraeth Cymru o ran yr amserlen ar gyfer grantiau cyfleusterau i'r anabl. Mae llawer yn methu â bodloni’r amserlen, felly beth mae’r Llywodraeth yn ei wneud am y

acknowledging that there is a problem, it might be useful to disabled people to see the Welsh Government getting to grips with the problem.

peth? Yn hytrach nag ymgynghori a chydnabod bod problem, gallai fod yn ddefnyddiol i bobl anabl weld bod Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â'r broblem.

I turn to the issue of housing for people with learning disabilities. People First is running a campaign on the lack of suitable housing for young adults with learning disabilities. They, like other young people, aspire to live independently of their parents and to live independently in the community, and yet many are prevented from doing so because of a lack of suitable housing and support. I would be grateful if you could address that.

Trof at y mater o dai ar gyfer pobl ag anableddau dysgu. Mae Pobl yn Gyntaf yn cynnal ymgyrch ar y diffyg o ran tai addas ar gyfer oedolion ifanc ag anableddau dysgu. Maent hwy, fel pobl ifanc eraill, yn dymuno byw'n annibynnol ar eu rhieni a byw'n annibynnol yn y gymuned, ac eto mae llawer yn cael eu hatal rhag gwneud hynny oherwydd diffyg tai addas a chefnogaeth. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymdrin â hynny.

I welcome the Government's creeping acknowledgement that direct payments are a way forward; I see Mark Drakeford smiling at this. I believe that greater personalised and individual care is the most enabling way in which we can help disabled people to get the care they need. Will the Government be setting targets as to how many direct payment plans it hopes to achieve in this particular term?

Yr wyf yn croesawu cydnabyddiaeth araf y Llywodraeth fod taliadau uniongyrchol yn ffordd ymlaen; Gwelaf fod Mark Drakeford yn gwenu am hyn. Credaf mai mwy o ofal personol ac unigol yw'r ffordd fwyaf galluogol i ni helpu pobl anabl i gael y gofal y maent ei angen. A fydd y Llywodraeth yn gosod targedau o ran faint o gynlluniau talu uniongyrchol y mae'n gobeithio ei gyflawni yn y tymor penodol hwn?

Wheelchairs continue to be an issue of great concern, especially in north Wales. However, another issue of technology that does not receive such attention is the issue of communication aids for disabled children, and there is a constant argument between the health sector and the education sector as to whose job it is to provide educational and communication aids to young people. I hope that we will have an opportunity to address that in this review.

Mae cadeiriau olwyn yn parhau i fod yn fater o bryder mawr, yn enwedig yn y Gogledd. Fodd bynnag, mater arall o dechnoleg nad yw'n derbyn fawr o sylw yw dosbarthu cymhorthion cyfathrebu ar gyfer plant anabl, ac mae dadl gyson rhwng y sector iechyd a'r sector addysg o ran pwy ddylai ddarparu cymhorthion addysgol a chyfathrebu i bobl ifanc. Rwyf yn gobeithio y byddwn yn cael cyfle i ymdrin â hynny yn yr adolygiad hwn.

With regard to the built environment, my local access group continues to be frustrated by the ability of developers to flout design and access statements to make new buildings accessible. They are often aided and abetted in that by the current regime for building regulations and building control that was privatised. There is an opportunity here for us to bring that back in-house to local authorities that can act without fear or favour. I have long argued this case with the Minister for the environment, and I hope that this provides us with an opportunity to bring building control and building regulation back

O ran yr amgylchedd adeiledig, mae fy ngrŵp mynediad lleol yn parhau'n rhwystredig oherwydd gallu datblygwyr i anwybyddu'r datganiadau dylunio a mynediad a fyddai'n gwneud adeiladau newydd yn hygyrch. Maent yn cael eu cynorthwyo a'u cefnogi yn aml yn hynny gan y drefn bresennol ar gyfer rheoliadau adeiladu a phrosesau rheoli adeiladu sydd wedi eu preifateiddio. Mae cyfle yma i ni ddod â hyn yn ôl yn fewnol i awdurdodau lleol a all weithredu heb ofn na ffafriaeth. Rwyf wedi hir ddadlau'r achos hwn gyda'r Gweinidog dros yr amgylchedd, a gobeithiaf

out of the mixed economy, as it is now, and back in-house to local government, which can act with greater independence than the current system currently allows. I would be grateful for the Minister’s views.

fod hyn yn rhoi cyfle i ni ddod â rheoli adeiladu a rheoliadau adeiladu yn ôl o'r economi gymysg, fel y mae nawr, ac yn ôl yn fewnol i lywodraeth leol, a all weithredu gyda mwy o annibyniaeth nag y mae’r system bresennol yn ei ganiatáu. Byddwn yn ddiolchgar am farn y Gweinidog.

**Jane Hutt:** I think that the leader of the Welsh Liberal Democrats has described quite clearly why we need the framework for action on independent living: because it brings together cross-government responsibilities. We already have these responsibilities, as she has said. I mentioned the fact that, in 2002, we adopted across this Chamber the social model of disability. That is the framework. I pay tribute to those who have campaigned and who are now at the point where they feel that they have delivered the framework with Welsh Government and all those who took part in discussions over the past year to get to this point, where we are co-ordinating and bringing together all our responsibilities. That is critical at this particular time of pressure and change, not just in terms of recession and public spending reductions, but welfare reform changes. Therefore, this framework is critically important if we are to not only espouse and subscribe to the social model, but deliver it in terms of Welsh Government responsibilities. Therefore, the advocacy review will feed into the advice and review we are undertaking of advice and information services.

**Jane Hutt:** Credaf fod arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol wedi disgrifio yn eithaf clir pam mae angen y fframwaith ar gyfer gweithredu ar fyw'n annibynnol: oherwydd ei fod yn dod â chyfrifoldebau traws-lywodraethol at ei gilydd. Mae’r cyfrifoldebau hyn gennym eisoes, fel y dywedodd hi. Crybwyllais y ffaith ein bod, yn 2002, wedi mabwysiadu ar draws y Siambr hon y model cymdeithasol o anabledd. Dyna'r fframwaith. Talaf deyrnged i'r rheini sydd wedi ymgyrchu ac sydd bellach ar y pwynt lle maent yn teimlo eu bod wedi cyflawni’r fframwaith gyda Llywodraeth Cymru a phawb a gymerodd ran mewn trafodaethau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i gyrraedd y pwynt hwn, lle rydym yn cydgysylltu a dwyn ynghyd ein holl gyfrifoldebau. Mae hynny'n hanfodol ar yr adeg arbennig hon o bwysau a newid, nid yn unig o ran dirwasgiad a gostyngiadau mewn gwariant cyhoeddus, ond newidiadau o ran diwygio lles hefyd. Felly, mae'r fframwaith hwn yn hanfodol bwysig os ydym am osgoi dim on cefnogi a thanysgrifio i’r model cymdeithasol, ac yn hytrach ei gyflawni yn rhan o gyfrifoldebau Llywodraeth Cymru. Felly, bydd yr adolygiad o wasanaethau eirioli yn bwydo i mewn i'r cyngor a’r adolygiad yr ydym yn ei gyflawni ynglŷn â gwasanaethau cyngor a gwybodaeth.

The points that you make on housing and access to aids and adaptations strengthens the Minister for housing’s consultation on these issues in relation to the housing Bill. However, more can be learned directly from disabled people as a result of this consultation.

Mae'r pwyntiau a wnewch ar dai a mynediad i gymhorthion ac addasiadau yn cryfhau ymgynghoriad y Gweinidog ar gyfer tai ar y materion hyn o ran y Mesur tai. Fodd bynnag, gellir dysgu mwy yn uniongyrchol gan bobl anabl o ganlyniad i'r ymgynghoriad hwn.

Your points on direct payments are important. We introduced them in 1996 and gradually extended them to include older people, carers, parents of disabled children and disabled 16 and 17-year-olds. From last April, they were extended to people without capacity to consent to them. That is an issue

Mae eich pwyntiau ar daliadau uniongyrchol yn bwysig. Fe’u cyflwynwyd gennym ym 1996 gan eu graddol ehangu i gynnwys pobl hŷn, gofalwyr, rhieni plant anabl a phobl anabl 16 a 17 mlwydd oed. O fis Ebrill diwethaf ymlaen, cawsant eu hymestyn i bobl heb y gallu i gydsynio iddynt. Mae hwnnw'n

where a designated suitable person manages the payments on the individual's behalf. However, take-up of direct payments remains relatively low. They are mostly favoured by younger disabled people. I have already mentioned the way that this links to the social services Bill and the consultation on that. This was launched at Dewis, in Pontypridd, which is a pioneering disabled people-led centre for independent living. It is managing the direct payments with the support of Rhondda Cynon Taf, or the local authorities in the surrounding area, and is making a huge impact.

fater lle mae person dynodedig addas yn rheoli'r taliadau ar ran yr unigolyn. Fodd bynnag, mae lefel manteisio ar daliadau uniongyrchol yn dal yn gymharol isel. Pobl anabl iau sydd bennaf yn eu ffafrio. Rwyf eisoes wedi sôn am y ffordd y mae hyn yn cysylltu â'r Mesur gwasanaethau cymdeithasol a'r ymgynghoriad ar hynny. Cafodd hyn ei lansio yn Dewis, ym Mhontypridd, sy'n ganolfan byw'n annibynnol arloesol i'r anabl a arweinir gan bobl. Mae'n rheoli'r taliadau uniongyrchol gyda chefnogaeth Rhondda Cynon Taf, neu'r awdurdodau lleol yn yr ardal gyfagos, ac yn cael effaith enfawr.

Finally, as regards the points you made about communication aids, wheelchair accessibility and the importance of building regulations, having a section on person-centred technology is important because this is an area where there is huge change and development. We have to make sure that it is a priority of policy development, commissioning and delivery at a local level. This will all be about the priorities in terms of delivering on this framework, following consultation.

Yn olaf, o ran y pwyntiau a wnaethoch am gymhorthion cyfathrebu, hygyrchedd ar gyfer cadeiriau olwyn a phwysigrwydd rheoliadau adeiladu, mae cael adran ar dechnoleg sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn bwysig oherwydd mae hwn yn faes lle y gwelir llawer o newid a datblygiadau. Mae'n rhaid i ni wneud yn siŵr ei fod yn flaenoriaeth wrth ddatblygu polisi, comisiynu a darparu ar lefel leol. Bydd hyn i gyd yn ymwneud â'r blaenoriaethau o ran cyflawni'r fframwaith hwn, yn dilyn ymgynghoriad.

**Mark Isherwood:** We have certainly come a long way since I led an opposition debate in the last Assembly calling for a national strategy for independent living for disabled people, in which our motion was defeated by the then coalition Government. I greatly welcome the fact that we have now largely achieved consensus on this. Therefore, I will move quickly to my questions. Given that independent living is about allowing disabled people to be in control, will you ensure that eligibility for taking advantage of citizen-directed support will lie with the disabled person rather than with government at a local and national level to determine whether they can take benefit?

**Mark Isherwood:** Yr ydym yn sicr wedi dod yn bell ers i mi arwain dadl yr wrthblaid yn y Cynulliad diwethaf yn galw am strategaeth genedlaethol ar gyfer byw'n annibynnol i bobl anabl, pryd y trechwyd ein cynnig gan y Llywodraeth glymblaid ar y pryd.Yr wyf yn croesawu'n fawr y ffaith ein bod bellach wedi cyflawni i raddau helaeth gonsensws ar hyn. Felly, byddaf yn symud yn gyflym at fy nghwestiynau. O gofio bod byw'n annibynnol yn ymwneud â chaniatáu i bobl anabl fod mewn rheolaeth, a wnewch chi sicrhau bod y cymhwyster ar gyfer manteisio ar gymorth wedi'i gyfeirio gan y dinesydd yn gorwedd gyda'r person anabl yn hytrach na chyda llywodraeth ar lefel leol a chenedlaethol er mwyn penderfynu a ydynt yn gallu cymryd budd-dal ?

My second question relates to the pooling of budgets. In England, the independent living agenda recognises that the different public sector agencies will need to pool budgets if a person choosing to take control can genuinely achieve the independent living that they aspire to. Therefore, there is concern in

Mae fy ail gwestiwn yn ymwneud â chyfuno cyllidebau. Yn Lloegr, mae'r agenda byw'n annibynnol yn cydnabod y bydd angen i'r gwahanol asiantaethau sector cyhoeddus gyfuno cyllidebau os gall unigolyn sy'n dewis cymryd rheolaeth o ddifrif yn gallu cyflawni byw'n annibynnol, fel y maent yn

Wales that that budget-pooling opportunity may not exist. How will you address that concern?

dymuno ei wneud. Felly, mae pryder yng Nghymru na fydd y cyfle hwnnw i gyfuno cyllidebau yn bodoli. Sut yr ydych am fynd i'r afael â'r pryder hwnnw?

Finally, in relation to the public sector equality duty that already exists—and has existed since early 2011—how will we ensure that local authorities in particular, but all public sector bodies generally in Wales recognise that this means that no decision will made about a disabled person without consulting them. I am sure that we all have casework involving disabled people for whom that is still not happening.

Yn olaf, ynglŷn â'r ddyletswydd o gydraddoldeb yn y sector cyhoeddus sydd eisoes yn bodoli – ac sydd wedi bodoli ers yn gynnar yn 2011 - sut y byddwn yn sicrhau bod awdurdodau lleol yn arbennig, ond pob corff sector cyhoeddus yn gyffredinol yng Nghymru yn cydnabod bod hyn yn golygu na wneir unrhyw benderfyniad ynghylch person anabl heb ymgynghori â hwy. Yr wyf yn siŵr bod gennym i gyd waith achos sy'n cynnwys pobl anabl sy'n parhau i fod mewn sefyllfa lle nad yw hyn yn digwydd.

**Jane Hutt:** Thank you, Mark Isherwood, for those very constructive points and questions. This framework has been developed by and with disabled people. I have already commented on the fact that this dovetails into the consultation on the social services Bill regarding the ways in which we can develop a model of citizen-directed support. Of course, disabled people have strong views on how we can take this forward. As you can see in the framework, this accords very clearly to the Welsh Government's strategic equality plan, the key objective of which is to strengthen the advice, information and advocacy services for disabled people and ensuring that we remove the barriers that disabled people face in terms of their everyday lives. Therefore, I believe that you will see in this framework and in the consultation to which you will contribute a real step-change regarding the way in which disabled people are empowered to engage and have choice in relation to the delivery of their services.

**Jane Hutt:** Diolch, Mark Isherwood, am eich pwyntiau a chwestiynau adeiladol iawn. Mae'r fframwaith hwn wedi ei ddatblygu gan a chyda phobl anabl. Yr wyf eisoes wedi sôn am y ffaith bod hyn yn cyd-fynd â'r ymgynghoriad ar y Mesur gwasanaethau cymdeithasol o ran y ffyrdd y gallwn ddatblygu model o gymorth a gyfeirir gan y dinesydd. Wrth gwrs, mae gan bobl anabl deimladau cryf am sut y gallwn fwrw ymlaen â hyn. Fel y gallwch weld yn y fframwaith, mae hyn yn cyd-fynd yn glir iawn â chynllun cydraddoldeb strategol Llywodraeth Cymru, sydd â'r amcan allweddol o gryfhau'r gwasanaethau cyngor, gwybodaeth ac eiriolaeth ar gyfer pobl anabl a sicrhau ein bod yn cael gwared ar y rhwystrau sy'n wynebu pobl anabl yn o ran eu bywydau bob dydd. Felly, yr wyf yn credu y byddwch yn gweld yn y fframwaith hwn, ac yn yr ymgynghoriad y byddwch yn cyfrannu ato, newid sylweddol o ran y ffordd y mae pobl anabl yn cael eu grymuso i ymgysylltu a chael dewis o ran darpariaeth eu gwasanaethau.

## Datganiad: Canlyniadau TGAU Saesneg Iaith 2012
## Statement: GCSE English Language Results 2012

**The Minister for Education and Skills (Leighton Andrews):** In my written statement on 10 September, I announced the publication of a report on the outcomes for GCSE English language. That report, prepared by regulatory officials, found that the August outcomes, showing a significant

**Y Gweinidog dros Addysg a Sgiliau (Leighton Andrews):** Yn fy natganiad ysgrifenedig ar 10 Medi, cyhoeddais adroddiad ar y canlyniadau ar gyfer arholiadau Saesneg TGAU. Yn yr adroddiad hwnnw, a baratowyd gan swyddogion rheoleiddio, gwelwyd bod canlyniadau mis

fall in the percentage of candidates in Wales achieving grades C and above, were unjustified and, almost certainly, unfair. It was clear from the evidence that the 2012 Wales cohort should have achieved similar outcomes to the 2011 cohort. It was also clear that the mechanism that had been introduced, at Ofqual's insistence, to ensure comparable outcomes, had failed in Wales. The report explained that the grade boundaries had been determined on the basis of a methodology that was based on the prior attainment at the age of 11 of candidates in England based on standard assessment tests.

Awst, yn dangos gostyngiad sylweddol yn y ganran o ymgeiswyr yng Nghymru a gyflawnodd raddau C neu uwch, yn anghyfiawn a, bron yn sicr, yn annheg. Roedd yn amlwg o'r dystiolaeth y dylai carfan Cymru 2012 fod wedi cyflawni canlyniadau tebyg i garfan 2011. Roedd hefyd yn amlwg fod y mecanwaith a oedd wedi ei gyflwyno, oherwydd bod Ofqual yn mynnu, er mwyn sicrhau canlyniadau tebyg, wedi methu yng Nghymru. Mae'r adroddiad yn egluro bod ffiniau'r graddau wedi eu pennu ar sail methodoleg a oedd yn seiliedig ar gyrhaeddiad blaenorol, yn 11 oed, ymgeiswyr yn Lloegr wedi'i seilio ar brofion asesu safonol.

The report made several recommendations, the first being that WJEC should regrade GCSE English language to achieve outcomes that are as similar as possible to the outcomes achieved by candidates in 2011. It emphasised that this regrading should, preferably, be applied to all of WJEC's candidates in both Wales and England. I issued a direction to WJEC on 11 September, requiring, by law, that it issue regraded results within seven days. WJEC met the terms of the direction in full and within the deadline and, on 18 September, 2,386 candidates in Wales received revised grades. This included over 1,200 learners who were awarded a C grade, which is a passport to many courses, apprenticeships and employment opportunities. These revised grades are a fairer and truer indication of candidates' ability than the original grades.

Gwnaeth yr adroddiad nifer o argymhellion, y cyntaf oedd y dylai CBAC ailraddio papurau TGAU iaith Saesneg i gyflawni canlyniadau sydd mor debyg â phosibl i'r canlyniadau a gyflawnwyd gan ymgeiswyr yn 2011. Roedd yn pwysleisio y dylai'r ailraddio hwn, os yn bosib, gael gymhwyso i bob ymgeisydd CBAC yng Nghymru a Lloegr. Fe gyflwynais gyfarwyddyd i CBAC ar 11 Medi, yn ei gwneud yn ofynnol, yn ôl y gyfraith, ei fod yn cyhoeddi canlyniadau wedi'u hailraddio o fewn saith niwrnod. Bodlonodd CBAC delerau'r cyfarwyddyd yn llawn ac o fewn yr amserlen ac, ar 18 Medi, derbyniodd 2,386 o ymgeiswyr yng Nghymru raddau diwygiedig. Roedd hyn yn cynnwys dros 1,200 o ddysgwyr y dyfarnwyd, gradd C iddynt, sef pasbort i lawer o gyrsiau, prentisiaethau a chyfleoedd am gyflogaeth. Mae'r graddau diwygiedig hyn yn adlewyrchu gallu ymgeiswyr mewn modd mwy teg a chywir na'r graddau a gwreiddiol.

The report's recommendation that there should be a regrading of WJEC candidates in England was shared with Ofqual, which has decided not to follow through on it. We note that legal action is now under way in England in relation to the English language GCSE results of two other examining boards.

Rhannwyd argymhelliad yr adroddiad y dylid ailraddio'r ymgeiswyr CBAC yn Lloegr gydag Ofqual, sydd wedi penderfynu peidio â gweithredu ar hynny. Rydym yn nodi bod camau cyfreithiol yn awr ar y gweill yn Lloegr ynglŷn â chanlyniadau TGAU iaith Saesneg dau fwrdd arholi arall.

3.15 p.m.

In Wales, 95% of candidates sat WJEC English language GCSEs and 5% sat AQA English language GCSEs. My officials' investigation found insufficient evidence to indicate that AQA candidates in Wales had

Yng Nghymru, safodd 95% o ymgeiswyr TGAU bapurau iaith Saesneg CBAC safodd 5% bapurau iaith Saesneg TGAU AQA. Canfu ymchwiliad fy swyddogion nad oedd digon o dystiolaeth i ddangos bod ymgeiswyr

been similarly disadvantaged to WJEC's candidates. I have asked officials to continue to review any further evidence that emerges.

AQA yng Nghymru wedi eu hanfanteiso yn yr un modd ag ymgeiswyr CBAC. Rwyf wedi gofyn i swyddogion barhau i adolygu unrhyw dystiolaeth ychwanegol a ddaw i'r amlwg.

Candidates who were disappointed by their results in the summer, whether they took their examinations with AQA or WJEC, are able to resit GCSE English language in the specially arranged November examinations.

Bydd ymgeiswyr a oedd yn siomedig o ran eu canlyniadau yn yr haf, pa un a oeddent wedi sefyll arholiadau AQA neu CBAC, yn gallu ailsefyll papurau TGAU iaith Saesneg mewn arholiadau ym mis Tachwedd a drefnwyd yn arbennig.

GCSE qualifications are jointly regulated by the Welsh Government, Ofqual and the Council for the Curriculum, Examinations and Assessment in Northern Ireland. Inevitably, there is a degree of negotiated consensus between the regulators in determining grade boundaries. Where qualifications have a majority of candidates in Wales, the Welsh Government has the strongest voice, and that is why the England-based predictor methodology was not used for any of WJEC's other GCSEs this year. For WJEC's English language, more than 70% of the candidates were from England, and Ofqual required the use of a predictor methodology for grade outcomes based on English key stage 2 results.

Mae cymwysterau TGAU yn cael eu rheoleiddio ar y cyd gan Lywodraeth Cymru, Ofqual a'r Cyngor dros Gwricwlwm, Arholiadau ac Asesu yng Ngogledd Iwerddon. Yn anochel, ceir rhywfaint o gonsensws a drafodir rhwng y rheoleiddwyr wrth bennu ffiniau graddau. Pan fo mwyafrif yr ymgeiswyr ar gyfer cymwyster yng Nghymru, Llywodraeth Cymru sydd â'r llais cryfaf y, a dyna pham na ddefnyddiwyd methodoleg rhagfynegydd Lloegr ar gyfer unrhyw un o bynciau TGAU eraill CBAC eleni. O ran papurau iaith Saesneg CBAC, roedd mwy na 70% o'r ymgeiswyr yn dod o Loegr, ac Ofqual yn mynnu'r defnydd o fethodoleg rhagfynegydd ar gyfer canlyniadau gradd yn seiliedig ar ganlyniadau Saesneg cyfnod allweddol 2.

Welsh Government regulatory officials did not agree with this methodology. In the limited time available between the calculation of potential outcomes and the publication of the August results, officials argued long and hard with Ofqual. While they succeeded in persuading Ofqual to drop two more severe options, it was essential in the time available to reach a compromise to allow results to be published according to the agreed timetable. Ofqual required an upward adjustment of grade boundaries, and Ofqual wrote to WJEC to request this.

Nid oedd swyddogion rheoleiddio Llywodraeth Cymru yn cytuno gyda'r fethodoleg hon. Yn yr amser cyfyngedig sydd ar gael rhwng y cyfrifiad o ganlyniadau posibl a chyhoeddi canlyniadau mis Awst, dadleuodd y swyddogion yn hir ac yn galed gyda Ofqual. Er eu bod wedi llwyddo i berswadio Ofqual i ollwng dau opsiwn llym arall, roedd yn hanfodol yn yr amser oedd ar gael i gyrraedd cyfaddawd i ganiatáu i ganlyniadau gael eu cyhoeddi yn unol â'r amserlen y cytunwyd arni. Roedd Ofqual yn gofyn am newid am i fyny o ffiniau gradd, ac ysgrifennodd Ofqual at CBAC i ofyn am hyn.

The decision to require an exam board to regrade a qualification, particularly to do so unilaterally, is an exceptional step to take. Only an elected representative has the authority to take such a step, while acting on the expert and evidence-based advice of regulatory officials. This demonstrates a clear benefit of having the regulatory

Mae'r penderfyniad i fynnu bod bwrdd arholi yn ailraddio cymhwyster, yn enwedig i wneud hynny yn unochrog, yn gam eithriadol i'w gymryd. Dim ond cynrychiolydd etholedig sydd â'r awdurdod i gymryd cam o'r fath, gan weithredu ar gyngor arbenigol a seiliedig ar dystiolaeth gan swyddogion rheoleiddio. Mae hyn yn dangos y budd

function based within Government. When high-stakes action is needed to redress an injustice, it can be taken swiftly and with clear accountability.

amlwg o gael y swyddogaeth reoleiddio yn seiliedig o fewn y Llywodraeth. Pan fo angen cymryd camau gweithredu sylweddol i unioni anghyfiawnder, gellir gwneud hynny yn gyflym a chydag atebolrwydd clir.

During the hearing by the House of Commons Education Select Committee on 11 September, a number of inaccurate statements were made by Ofqual representatives. I am pleased that the chief executive of Ofqual has now agreed to correct her claim that Ofqual had raised concerns about 43 of the 46 GCSE subjects for WJEC's provisional results. Concerns were not raised by Ofqual about WJEC's GCSEs other than GCSE English language. There were other inaccuracies that I believe are also being corrected.

Yn ystod y gwrandawiad gan Bwyllgor Dethol Tŷ'r Cyffredin ar Addysg ar 11 Medi, gwnaed nifer o ddatganiadau anghywir gan gynrychiolwyr Ofqual. Yr wyf yn falch fod prif weithredwr Ofqual bellach wedi cytuno i gywiro ei honiad bod Ofqual wedi codi pryderon ynglŷn â 43 o'r 46 pwnc TGAU o ran darpar ganlyniadau CBAC. Ni chodwyd pryderon gan Ofqual am bynciau TGAU CBAC ar wahân i TGAU iaith Saesneg. Roedd anghywirdebau eraill hefyd sydd, mi gredaf, yn cael eu cywiro.

At the select committee, the chair of Ofqual claimed that the reason for our regrading was that we were unable to accept politically that there was a difference in performance between Welsh and English candidates. That statement was entirely inappropriate for a supposedly politically impartial chair of a non-departmental public body to make. It is also completely untrue. Our report made it clear that we believed that there should have been a regrading of the GCSE English language award in England as well as in Wales. That would not have reduced the performance gap between England and Wales—it would have maintained it.

Yn y pwyllgor dethol, roedd cadeirydd Ofqual yn honni mai'r rheswm dros ein ailraddio ni oedd nad oeddem yn gallu derbyn yn wleidyddol bod gwahaniaeth mewn perfformiad rhwng ymgeiswyr Cymru a Lloegr. Roedd y datganiad hwnnw yn gwbl anaddas i gadeirydd gorff cyhoeddus anadrannol, ac sydd i fod yn wleidyddol ddiduedd, ei wneud. Mae hefyd yn gwbl anwir. Roedd ein hadroddiad yn ei gwneud yn glir ein bod yn credu y dylid bod wedi ailraddio dyfarniadau TGAU iaith Saesneg yn Lloegr yn ogystal ag yng Nghymru. Ni fyddai hynny wedi lleihau'r bwlch mewn perfformiad rhwng Cymru a Lloegr - byddai wedi ei gynnal yn hytrach.

In Wales, we have acted swiftly and decisively to address an injustice for GCSE English language candidates. The Welsh regulatory system has worked. We will now look forward to the forthcoming review of qualifications to determine the future of 14-19 qualifications in Wales.

Yng Nghymru, rydym wedi gweithredu'n gyflym ac yn bendant i fynd i'r afael ag anghyfiawnder ar gyfer ymgeiswyr TGAU iaith Saesneg. Mae system reoleiddio Cymru wedi gweithio. Byddwn yn awr yn edrych ymlaen at yr adolygiad sydd ar ddod o gymwysterau i benderfynu dyfodol cymwysterau 14-19 yng Nghymru.

**Angela Burns:** Minister, thank you for your statement and for the swift report that your officials put together and published in the earlier part of September. However, I have a significant number of queries that I wish to posit to you. Your statement is quite extraordinary in that a substantial amount of it is about the fact that this was all to do with Ofqual, and that you had to agree with its

**Angela Burns:** Weinidog, diolch i chi am eich datganiad ac am yr adroddiad cyflym y mae eich swyddogion wedi ei baratoi ac a gyhoeddwyd yn gynnar ym mis Medi. Fodd bynnag, mae gennyf nifer sylweddol o gwestiynau yr wyf yn dymuno eu gofyn i chi. Mae eich datganiad yn dra rhyfeddol gan fod rhan sylweddol ohono yn ymwneud â'r ffaith fod hyn oll yn ymwneud ag Ofqual, a

methodology because it was at its insistence. I will read this statement from WJEC and ask you to clarify it for me. It says:

bod yn rhaid i chi gytuno â'i fethodoleg oherwydd ei fod yn mynnu hynny. Fe ddarllenaf y datganiad hwn gan CBAC a gofyn i chi ei egluro i mi. Mae'n dweud:

‘Ofqual and the Welsh Government work jointly on a range of regulatory matters which relate to the examination awarding process in England and Wales. For example, in 2012 these regulators jointly required WJEC to make our GCSE English language awards more severe at grade C than we had proposed, by asking for changes to some of our grade boundaries.’

Mae Ofqual a Llywodraeth Cymru yn gweithio ar y cyd ar amrywiaeth o faterion rheoleiddio sy'n ymwneud â'r broses ddyfarnu ar arholiadau yng Nghymru a Lloegr. Er enghraifft, yn 2012, roedd y rheoleiddwyr hyn yn ei gwneud yn ofynnol ar y cyd bod CBAC yn gwneud ein dyfarniadau TGAU iaith Saesneg yn fwy llym ar gyfer gradd C nag yr oeddem wedi’i fwriadu, drwy ofyn am newidiadau i rai o'n ffiniau gradd.

So I would be grateful if you could clarify exactly what was said to WJEC. I would be grateful if you would let us know whether you are prepared to share with us any of the meetings between your department as regulators, Ofqual as a regulator and WJEC, so that we can get to the heart of this matter. I listened to the First Minister’s somewhat off-the-cuff remark on this during First Minister’s questions, but this goes to the heart of the matter. Were your department officials totally involved in all of the discussions? At what point did they start to raise with you and any of the other stakeholders more widely the fact that they had fundamental concerns about how the methodology for the awarding of the grades was going to work? It seems to me that there was an awful lot of panic right at the very last minute.

Felly, byddwn yn ddiolchgar pe gallech egluro beth yn union a ddywedwyd wrth CBAC. Byddwn yn ddiolchgar pe baech yn gadael i ni wybod a ydych yn barod i rannu gyda ni unrhyw un o'r cyfarfodydd rhwng eich adran chi fel rheoleiddwyr, Ofqual fel rheoleiddiwr a CBAC, fel y gallwn fynd at wraidd y mater hwn. Gwrandewais ar sylw, wrth fynd heibio braidd, yn ystod amser cwestiynau’r Prif Weinidog, ond mae hyn yn mynd at wraidd y mater. A oedd swyddogion eich adran yn chwarae rhan llawn yn yr holl drafodaethau? Ar ba bwynt wnaethon nhw ddechrau codi gyda chi a chydag unrhyw un o'r rhanddeiliaid eraill yn fwy eang y ffaith bod ganddynt bryderon sylfaenol ynghylch sut yr oedd y fethodoleg ar gyfer dyfarnu'r graddau yn mynd i weithio? Mae'n ymddangos i mi y bu panig sylweddol iawn ar y funud olaf un.

Are you aware how many of the students who took the exam in January were taking it as a re-sit and how many were taking it as an early exam? I would like your view on whether you believe that a re-sit student should fairly and justly be judged on exactly the same basis as the rest of their cohort from the previous year. Do you believe that a student taking an early exam should be judged with the cohort of the year they should be in? What impact might all of this furore have on the exams in January 2013, if there are exams then? I am interested in your views on what effect this will have on the cross-border pollination we have because there are so many schools on our borders were the pupils from England and Wales work together very closely. What effect will

Ydych chi'n gwybod faint o'r myfyrwyr a safodd yr arholiad ym mis Ionawr a oedd yn ail-sefyll a sawl un oedd yn sefyll yr arholiad yn gynnar? Hoffwn gael eich barn ar ba un a ydych yn credu y dylai myfyriwr sy’n ail-sefyll gael ei farnu yn deg ac yn gyfiawn ar union yr un sail â gweddill eu carfan o'r flwyddyn flaenorol. A ydych yn credu y dylai myfyriwr sy’n sefyll arholiad yn gynnar gael ei farnu gyda charfan y flwyddyn y dylen nhw fod ynddi? Pa effaith y gallai’r holl helynt hyn gael ar yr arholiadau ym mis Ionawr 2013, os bydd arholiadau bryd hynny? Mae gennyf ddiddordeb yn eich barn ar yr effaith a gaiff hyn ar y peillio traws-ffiniol sydd gennym oherwydd bod cymaint o ysgolion ar ein ffiniau lle mae disgyblion o Gymru a Lloegr yn gweithio gyda'i gilydd yn

this have on all of the different exam grades?

agos iawn. Pa effaith a gaiff hyn ar yr holl wahanol raddau arholiad?

I am sorry, Presiding Officer, but I have so many questions on this. I will try to pick out a couple of the more important ones. I think that you talked about accountability, Minister, and that is exactly what we need: more accountability. Again, I would like your view on why you think we should not consider having an independent regulator. I take your point that only an elected representative can ask for regrading, but an independent regulator could recommend a regrading to the elected representative.

Mae'n ddrwg gennyf, Lywydd, ond mae gennyf gymaint o gwestiynau ar hyn. Byddaf yn ceisio dewis un neu ddau o'r rhai pwysicaf. Credaf ichi sôn am atebolrwydd, Weinidog, a dyna'n union beth sydd ei angen: mwy o atebolrwydd. Unwaith eto, hoffwn eich barn ar pam y credwch na ddylem ystyried cael rheoleiddiwr annibynnol. Rwyf yn derbyn eich pwynt mai dim ond cynrychiolydd etholedig gaiff ofyn am ailraddio, ond gallai rheoleiddiwr annibynnol argymell ailraddio wrth y cynrychiolydd etholedig.

Above all, I am desperately concerned about the tone of this statement, because it basically says that we were just too small in the game to make any difference to whatever it was that Ofqual wanted to do. How will this reflect on our ability to have independent exams? I am looking forward to the results of the qualifications review, but if we end up with a brand-new examination system for Wales we are going to have to be able to stand on our own two feet and raise our voice not just to England and Ofqual, but in Europe and against all the other nations so that we can be seen to have internationally recognised and robust qualifications. Yet this statement seems to say that we are too little and that we could not stand up to Ofqual. Therefore, I really want to understand that and understand where you are coming from. I do have other questions, but I might reserve those for the Liberal Democrat debate tomorrow.

Yn anad dim, yr wyf yn hynod bryderus am dôn y datganiad hwn, oherwydd ei fod yn y bôn yn dweud ein bod yn rhy fach yn y gêm i wneud unrhyw wahaniaeth i beth bynnag oedd Ofqual eisiau ei wneud. Sut fydd hyn yn adlewyrchu ar ein gallu i gael arholiadau annibynnol? Rwy'n edrych ymlaen at ganlyniadau'r adolygiad cymwysterau, ond os bydd gennym, yn y diwedd, system arholi newydd sbon ar gyfer Cymru, rydym yn mynd i orfod gallu sefyll ar ein traed ein hunain a chodi ein llais nid yn unig i Loegr ac Ofqual, ond yn Ewrop ac yn erbyn yr holl genhedloedd eraill fel y gellir gweld ein bod yn meddu ar gymwysterau rhyngwladol cydnabyddedig a chadarn. Eto i gyd, mae'n ymddangos bod y datganiad hwn yn dweud ein bod yn rhy fach ac nad oeddem yn gallu sefyll i fyny i Ofqual. Felly, rwyf wir am ddeall hynny a deall eich safbwynt. Mae gen i gwestiynau eraill, ond efallai y byddaf yn cadw'r rheini ar gyfer dadl y Democratiaid Rhyddfrydol yfory.

**Leighton Andrews:** I think that I answered the Member's initial question in my statement. I spent some time explaining that my officials did not agree with the methodology and that they argued long and hard with Ofqual. In fact, if she were to go back to the original report that we published on 10 September, she will see that these issues are explored thoroughly over several paragraphs. It was Ofqual that wrote to WJEC requiring the change in grades. I explained the process by which, in this particular case—and only in this case of WJEC English language—WJEC had more

**Leighton Andrews:** Credaf imi ateb cwestiwn cyntaf yr Aelod yn fy natganiad. Treuliais gryn amser yn esbonio nad oedd fy swyddogion yn cytuno â'r fethodoleg a'u bod wedi dadlau yn hir ac yn galed gyda Ofqual. Yn wir, pe byddai'n mynd yn ôl at yr adroddiad gwreiddiol a gyhoeddwyd gennym ar 10 Medi, bydd yn gweld bod y materion hyn yn cael eu harchwilio yn drwyadl dros sawl paragraff. Ofqual ysgrifennodd at CBAC gan ei gwneud yn ofynnol i newid y graddau. Eglurais y broses a oedd yn golygu, yn yr achos arbennig hwn - a dim ond yn yr achos hwn o iaith Saesneg CBAC – roedd

candidates in England than in Wales and that it was therefore inevitable in the context of the three-country regulatory system that it was Ofqual's views on the predictor methodology that would dominate. My officials have tried honestly and diligently to operate a three-country system of regulation at GCSE, but there have been significant changes along the way. Earlier this year, for example, the Northern Ireland examining body, the CCEA, decided to withdraw its qualifications from offer in England because of the emerging policy divergence between Northern Ireland and England. There are clearly issues on which Northern Ireland and Wales share common concerns about the approach that has been taken to GCSEs by both the Secretary of State and Ofqual in England.

gan CBAC fwy o ymgeiswyr yn Lloegr nag yng Nghymru ac roedd yn anochel felly yng nghyd-destun system reoleiddio'r tair gwlad, mai barn Ofqual ar y fethodoleg rhagfynegydd a fyddai'n cario'r dydd. Mae fy swyddogion wedi ceisio yn onest ac yn ddiwyd i weithredu system reoleiddio'r tair gwlad ar lefel TGAU, ond bu newidiadau sylweddol ar hyd y ffordd. Yn gynharach eleni, er enghraifft, penderfynodd corff arholi Gogledd Iwerddon, CCEA, i beidio â chynnig ei gymwysterau yn Lloegr oherwydd y gwahaniaeth polisi sy'n datblygu rhwng Gogledd Iwerddon a Lloegr. Mae'n amlwg y ceir materion y mae Gogledd Iwerddon a Chymru yn rhannu pryderon yn eu cylch yn ymwneud â'r agwedd at TGAU a gymerwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol ac Ofqual yn Lloegr.

The Member asked a number of questions about January and June, about re-sits and about early entrants into exams. There some issues in respect of WJEC that relate to January and June differences, but they are not as pronounced as those that apply principally in respect of AQA and principally across the border. Certainly, we have less of a re-sit culture among candidates in Wales than there is in England, and we have the statistics to demonstrate that there are more re-sits undertaken in England. Indeed, there are more early entrants in England as well. So, I do not see that candidates should be disadvantaged because they re-sit. Of course, we have a limitation on the number of re-sits.

Mae'r Aelod wedi gofyn nifer o gwestiynau am mis Ionawr a mis Mehefin, am ail-sefyll ac am rai sy'n sefyll arholiadau yn gynnar. Mae rhai materion ynglŷn â CBAC sy'n ymwneud â gwahaniaethau rhwng mis Ionawr a mis Mehefin, ond nid ydynt mor sylweddol â'r rhai sy'n berthnasol yn bennaf i AQA ac yn bennaf ar draws y ffin. Yn sicr, mae gennym lai o ddiwylliant ail-sefyll ymhlith ymgeiswyr yng Nghymru nag yn Lloegr, ac mae gennym yr ystadegau i ddangos bod mwy o ail-sefyll yn digwydd yn Lloegr. Yn wir, mae mwy o ymgeiswyr sy'n sefyll yn gynnar yn Lloegr hefyd. Felly, nid wyf yn gweld pam y dylai ymgeiswyr fod o dan anfantais oherwydd eu bod yn ail-sefyll. Wrth gwrs, mae gennym gyfyngiad ar y nifer sy'n ail-sefyll.

The cross-border issues are reasonably clear; we are responsible for the regulation of centres in Wales and Ofqual is responsible for the regulation of centres in England. In terms of her statement about us being too small to make a difference, I do not think that anything in my statement said that we were too small to make a difference. I said that there has to be a negotiated consensus when you have three countries seeking to regulate a qualification. Whether that three-country regulation can continue in the present form will be a matter for review following the qualifications review, but I certainly do not have any fears about the Welsh regulatory system, nor do I have any fears about the

Mae'r materion traws-ffiniol yn weddol glir, ni sy'n gyfrifol am reoleiddio canolfannau yng Nghymru ac Ofqual sy'n gyfrifol am reoleiddio canolfannau yn Lloegr. O ran ei datganiad ein bod yn rhy fach i wneud gwahaniaeth, nid wyf yn credu bod unrhyw beth yn fy natganiad yn dweud ein bod yn rhy fach i wneud gwahaniaeth. Dywedais fod yn rhaid cael consensws a drafodwyd pan mae gennych dair gwlad sydd yn ceisio rheoleiddio cymhwyster. Mae pa un a fydd y rheoleiddio tair gwlad hwnnw yn parhau ar ei ffurf bresennol, yn fater i'w adolygu yn dilyn yr adolygiad cymwysterau, ond yn sicr nid oes gennyf unrhyw bryderon am y system reoleiddio yng Nghymru, ac nid oes gennyf

future of Welsh qualifications. Scotland, of course, is not part of that three-country consensus behind GCSEs. It is clear from discussions that I have had with the Northern Ireland Minister for Education, John O'Dowd, both in the last couple of weeks and earlier in the summer, that Northern Ireland is also thinking about its qualifications in the future. We should look forward to the qualifications review, which is being undertaken by Huw Evans. It has taken extensive evidence across Wales and across the UK, and I think that it has given very serious consideration to all these issues.

unrhyw bryderon am ddyfodol cymwysterau yng Nghymru. Nid yw'r Alban, wrth gwrs, yn rhan o'r consensws tair gwlad sydd y tu ôl TGAU. Mae'n amlwg o'r trafodaethau yr wyf wedi'u cael gyda'r Gweinidog yng Ngogledd Iwerddon dros Addysg, John O'Dowd, yn ystod yr ychydig wythnosau diwethaf ac yn gynharach yn yr haf, fod Gogledd Iwerddon hefyd yn meddwl am ei chymwysterau yn y dyfodol. Dylem edrych ymlaen at yr adolygiad o gymwysterau sy'n cael ei gynnal gan Huw Evans. Mae wedi casglu tystiolaeth helaeth ar draws Cymru ac ar draws y DU, ac yr wyf yn credu ei fod wedi rhoi ystyriaeth ddwys iawn i'r holl faterion hyn.

At the end of the day, there is a question for regulators in England. Over 150 bodies have started a court case against Ofqual, against the AQA and against Edexcel in England. They include two Conservative councils, by the way, which may be of interest to Members. It is a question for others in this Chamber as to what they would have done on the basis of the report that I received from my officials. I acted swiftly to correct an injustice and to ensure fairness for candidates in Wales.

Yn y pen draw, mae cwestiwn yn codi ar gyfer rheoleiddwyr yn Lloegr. Mae dros 150 o gyrff wedi cychwyn achos llys yn erbyn Ofqual, yn erbyn AQA ac yn erbyn Edexcel yn Lloegr. Maent yn cynnwys dau gyngor Ceidwadol, gyda llaw, a allai fod o ddiddordeb i'r Aelodau. Mae'n gwestiwn i eraill yn y Siambr hon o ran beth y byddent hwy wed ei wneud ar sail yr adroddiad a dderbyniais gan fy swyddogion. Fe gymerais i gamau cyflym i unioni anghyfiawnder ac i sicrhau tegwch i ymgeiswyr yng Nghymru.

**Vaughan Gething:** I welcome your statement today and the decision that you took, Minister, to order the regrading of English language GCSE papers in Wales. I believe that you have dealt with a clear injustice. However, Minister, I also welcome that fact that you have produced a written statement and published the report that gave the evidence for the regrade decision. Those of us who read the report saw that there were some interesting comments in it. I want to ask about one aspect of that, which is controlled assessment. I think that constructive comments were made about controlled assessment, which I think, if got right, will produce fairness in terms of really measuring a student's ability to undertake an area of work that can be practically applied.

**Vaughan Gething:** Croesawaf eich datganiad heddiw a'r penderfyniad a gymerwyd gennych. Weinidog, wrth orchymyn ailraddio papurau TGAU iaith Saesneg yng Nghymru, yr wyf yn credu eich bod wedi ymdrin ag anghyfiawnder eglur. Fodd bynnag, Weinidog, yr wyf hefyd yn croesawu'r ffaith eich bod wedi llunio datganiad ysgrifenedig a chyhoeddi'r adroddiad a ddarparodd y dystiolaeth ar gyfer y penderfyniad ailraddio. Gwelodd y rhai ohonom sydd wedi darllen yr adroddiad bod rhai sylwadau diddorol ynddo. Rwyf am ofyn am un agwedd ar hynny, sef asesiad a reolir. Credaf fod sylwadau adeiladol wedi eu gwneud am asesiad a reolir, ac yr wyf yn meddwl, os y caiff ei wneud yn gywir, y bydd yn creu tegwch wrth fesur gallu myfyrwyr i ymgymryd â maes gwaith y gellir ei gymhwyso yn ymarferol.

My second question, Minister, is whether you share my concern about the attacks that were made, by elected and unelected officials, inside and outside of Wales, on the GCSE qualification itself, particularly those

Fy ail gwestiwn, Weinidog, yw a ydych yn rhannu fy mhryder am yr ymosodiadau a wnaed, gan swyddogion etholedig ac anetholedig, y tu mewn a thu allan i Gymru, ar y cymhwyster TGAU ei hun, yn enwedig y

referring to it as a failed qualification and referring to risk that it undermines current learners' achievements, particularly taking into account the fact that students in England will undertake GCSEs for at least four years and that students in Wales will continue to take GCSEs across a range of subjects, regardless of the outcome of the qualifications review. These examinations will not be swept away overnight.

rheiny sy'n cyfeirio ato fel cymhwyster wedi methu a chyfeirio hefyd at y perygl ei fod yn tanseilio cyflawniadau dysgwyr presennol, yn enwedig wrth gymryd i ystyriaeth y ffaith y bydd myfyrwyr yn Lloegr yn sefyll TGAU am o leiaf bedair blynedd ac y bydd myfyrwyr yng Nghymru yn parhau i sefyll TGAU ar draws ystod o bynciau, waeth beth fydd canlyniad yr adolygiad o gymwysterau . Ni fydd yr arholiadau hyn yn cael eu dileu dros nos.

**Leighton Andrews:** I welcome the comments from my colleague the Member for Cardiff South and Penarth, particularly in respect of controlled assessment. I think that there are lessons to be learned there. There is one outstanding question, I think, which is being discussed both in Wales and in England, as to whether a qualification based on 60% controlled assessment can be right. Is that too high perhaps as a proportion of the overall examination? GCSEs are strong qualifications; that is our view and I think that is the view of most people in this Chamber.

**Leighton Andrews:** Croesawaf y sylwadau gan fy nghydweithiwr yr Aelod dros Dde Caerdydd a Phenarth, yn enwedig o ran asesiad a reolir. Rwyf yn credu bod gwersi i'w dysgu ynglŷn â hynny. Mae un cwestiwn pwysig, mi gredaf, sy'n cael ei drafod yng Nghymru ac yn Lloegr, ynglŷn â pha un a yw'n iawn bod 60% o gymhwyster yn seiliedig ar asesiad a reolir. A yw hynny yn gyfran rhy uchel efallai o'r arholiad cyfan? Mae TGAU yn gymwysterau cryf; dyna yw ein barn ni, ac rwy'n credu mai dyna yw barn y rhan fwyaf o bobl yn y Siambr hon.

3.30 p.m.

The Conservative spokesperson has said that in the past as well. I deplore therefore those who say that they are not fit for purpose and that they are subject to dumbing down and to grade inflation. Those statements are unfortunate and they are liable to undermine confidence in the qualification. My colleague, John O'Dowd, the Northern Ireland Minister for Education has himself said that he is concerned that such statements have been damaging to the GCSE brand. This is an issue on which Wales and Northern Ireland are as one.

Mae llefarydd y Ceidwadwyr wedi dweud hynny yn y gorffennol hefyd. Rwyf yn wfftio felly y rhai sy'n dweud nad ydynt yn addas at eu diben a'u bod yn destun symleiddio a chwyddo graddau. Mae'r datganiadau hynny yn anffodus ac maent yn debygol o danseilio hyder yn y cymhwyster. Mae fy nghydweithiwr, John O'Dowd, Gweinidog dros Addysg Gogledd Iwerddon wedi dweud ei fod yn pryderu bod datganiadau o'r fath wedi bod yn niweidiol i'r brand TGAU. Mae hwn yn fater y mae Cymru a Gogledd Iwerddon yn cytuno'n llwyr arno..

**Simon Thomas:** First of all, Minister, I want to put on record that the Party of Wales agrees with your actions as Minister and regulator in ordering the regrading of GCSE English-language exams this year. We believe that that has led to a fairer outcome for the students who took those exams and we believe that you did the right thing. I also want to put on record my own personal faith in GCSEs, as a parent, and as someone whose son is halfway through his GCSE courses. I will not embarrass him by praising his results so far. However, any situation that results in a

**Simon Thomas:** Yn gyntaf oll, Weinidog, yr wyf am ddweud ar goedd fod Plaid Cymru yn cytuno â'r camau a gymerwyd gennych fel Gweinidog a rheoleiddiwr wrth orchymyn ailraddio arholiadau TGAU iaith Saesneg eleni. Rydym yn credu bod hynny wedi arwain at ganlyniad tecach ar gyfer y myfyrwyr safodd yr arholiadau hynny ac rydym yn credu eich bod wedi gwneud y peth iawn. Rwyf hefyd am gofnodi fy ffydd personol, fel rhiant, yn y TGAU, ac fel rhywun y mae ei fab hanner ffordd drwy ei gyrsiau TGAU. Ni wnaf godi cywilydd arno

politician, in effect, deciding B, C and D grades in English language or any other subject is not a situation that we want to see repeated in Wales.

drwy ganmol ei ganlyniadau hyd yn hyn. Fodd bynnag, mae unrhyw sefyllfa sy'n golygu mai gwleidydd, i bob pwrpas, sy'n penderfynu ar raddau B, C a D yn iaith Saesneg neu mewn unrhyw bwnc arall, yn sefyllfa nad ydym am ei gweld eto yng Nghymru.

In my view, a Minister should not be the person who patrols the standards, agrees the banding and is then the regulator of the exam system as well. These functions should be separated. This is not a recent view; I said this back in May before this all broke out. In particular, we can see now that the Minister's actions as regulator can be caught up and confused with his policy directing actions, both as the person who sets the banding and has something to say, for example, on the quality of the WJEC. Therefore, I do not agree with the Minister's statement that only an elected official can undertake this role. What is important is that the powers devolved to Wales to undertake this role are appropriately used by the most appropriate body or Minister in that regard.

Yn fy marn i, ni ddylai Gweinidog fod y person sy'n goruchwylio'r safonau, yn cytuno ar y bandio ac yna'n rheoleiddio'r system arholiadau yn ogystal. Dylai'r swyddogaethau hyn fod ar wahân. Nid yw hon yn farn ddiweddar; dywedais hyn yn ôl ym mis Mai cyn i hyn i gyd ddod i'r amlwg. Yn arbennig, gallwn weld nawr fod y camau a gymerodd y Gweinidog fel rheoleiddiwr yn cael eu cymysgu a'u drysu gyda'i gamau cyfeirio polisi, fel y person sy'n gosod y band ac sydd â rhywbeth i'w ddweud, er enghraifft, ar ansawdd CBAC. Felly, nid wyf yn cytuno â datganiad y Gweinidog mai dim ond swyddog etholedig all ymgymryd â'r swyddogaeth hon. Yr hyn sy'n bwysig yw bod y pwerau sydd wedi'u datganoli i Gymru i ymgymryd â'r swyddogaeth hon yn cael eu defnyddio'n briodol gan y corff neu'r Gweinidog mwyaf priodol yn hynny o beth.

I also deplore the attitude taken by Michael Gove and Nick Clegg as regards exams and rewarding young people for their skills, aptitude and learning, but we are not here to scrutinise Michael Gove or Nick Clegg, so I simply note in passing that it is another u-turn by the Liberal Democrats on their 2010 election manifesto. Neither are we hear to scrutinise Ofqual, but I note that its attack on the WJEC was without merit and was not supported by the evidence. We are here to scrutinise the Minister and I would like the Minister therefore to answer the following points: what is now the position of the 5% of Welsh students who took GCSE English with another exam board? He mentioned this in his statement, but I would like more detail, if possible, from him. Is he confident in particular that they have fair grades? I estimate that this could be up to 400 or 500 students in Wales. What assessment has he made of his decision to regrade one of the key denominators of school banding—the GCSE in English? Is he confident in the school banding system following this decision? What about next year? He will be

Rwyf hefyd yn wfftio at yr ymagwedd a gymerwyd gan Michael Gove a Nick Clegg ynglŷn ag arholiadau a gwobrwyo pobl ifanc am eu sgiliau, eu gallu a'u dysg, ond nid ydym ni yma i graffu ar Michael Gove na Nick Clegg, felly yr wyf yn syml am nodi wrth fynd heibio ei fod yn un tro pedol arall gan y Democratiaid Rhyddfrydol ar eu maniffesto ar gyfer etholiad 2010. Nid ydym ychwaith yma i graffu ar Ofqual, ond nodaf nad oedd gwirionedd i'w ymosodiad ar CBAC ac nad oedd tystiolaeth i'w gefnogi. Rydym ni yma i graffu ar y Gweinidog a hoffwn i'r Gweinidog, felly, i ateb y pwyntiau canlynol: beth erbyn hyn yw sefyllfa'r 5% o fyfyrwyr Cymru a safodd Saesneg TGAU gyda bwrdd arholi arall? Crybwyllodd hyn yn ei ddatganiad, ond hoffwn gael mwy o fanylion, os yn bosibl, oddi wrtho. A yw'n hyderus yn benodol eu bod yn cael graddau teg? Rwy'n amcangyfrif y gallai hyn fod hyd at 400 neu 500 o fyfyrwyr yng Nghymru. Pa asesiad y mae ef wedi ei wneud ar ei benderfyniad i ailraddio un o nodweddion allweddol bandio mewn ysgolion - y TGAU mewn Saesneg? A yw'n hyderus o ran y

aware that the WJEC has been asked by the regulators, including himself, to strengthen the GCSEs in both English and Geography for next year. Is he confident that the same situation will not arise again?

system fandio mewn ysgolion yn dilyn y penderfyniad hwn? Beth am y flwyddyn nesaf? Bydd yn ymwybodol bod y rheoleiddwyr, gan gynnwys ef ei hun, wedi gofyn i CBAC gryfhau'r TGAU mewn Saesneg a Daearyddiaeth ar gyfer y flwyddyn nesaf. A yw'n hyderus na fydd yr un sefyllfa yn codi eto?

Turning now to his particular role, why, as exam regulator, did he accede to the demands of Ofqual to use key stage 2 predictors, which are English-only, as a way of determining outcomes? He must have known then—as I think he acknowledged tacitly in his statement—that this was unsuitable for Welsh students. Does he accept on reflection that this was a mistake by him and his officials? Does he regret making that decision, which he then had to overturn by ordering the regrading? Will he further reflect on the lessons learnt from this situation that there could, and should be, an independent regulator of exams in Wales as we move forward with a review of qualifications? Finally, and most importantly, will he join me in stating clearly that, whatever happens in England, the best features of GCSEs in Wales, including coursework, will be retained in an independent, less-market-driven exam system in Wales?

Gan droi yn awr at ei swyddogaeth benodol, pam, fel rheolydd arholiadau, y cytunodd â gofynion Ofqual i ddefnyddio rhagfynegyddion cyfnod allweddol 2, sydd yn Saesneg yn unig, fel ffordd o bennu canlyniadau? Mae'n rhaid ei bod yn gwybod bryd hynny – credaf ei fod yn cydnabod hynny'n dawel yn ei ddatganiad - fod hyn yn anaddas ar gyfer myfyrwyr Cymru. A yw'n derbyn, o edrych yn ôl, ei fod ef a'i swyddogion wedi gwneud camgymeriad? A yw'n difaru gwneud y penderfyniad hwnnw, y bu'n rhaid iddo ei wrthdroi'n ddiweddarach drwy orchymyn yr ailraddio? A fydd yn ystyried ymhellach y gwersi a ddysgwyd o'r sefyllfa hon, sef y gellid, ac y dylid, pennu rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer arholiadau yng Nghymru, wrth i ni symud ymlaen gydag adolygiad o gymwysterau? Yn olaf, ac yn bwysicaf oll, a wnaiff ymuno â mi drwy ddatgan yn glir, beth bynnag a ddigwydd yn Lloegr, y bydd y nodweddion gorau o TGAU yng Nghymru, gan gynnwys gwaith cwrs, yn cael eu cadw mewn system arholiadau annibynnol yng Nghymru, nad yw'n cael ei sbarduno cymaint gan y farchnad?

**Leighton Andrews:** I start by thanking the Plaid Cymru spokesperson for his support for the action that I took, and also for his support for the GCSE as a qualification. However, I wish to correct him on one point: a politician did not decide the grades. The Minister, as regulator, ordered the WJEC to regrade; it set the grades on the basis of our direction. I believe that we have a clear separation of roles. He is right to say that the Ofqual attack on the WJEC was unwarranted, and I referred in my statement to the corrections that the chief executive of Ofqual has assured us that she will make to her evidence to the select committee.

**Leighton Andrews:** Dechreuaf drwy ddiolch i lefarydd Plaid Cymru am gefnogi'r camau a gymerais, ac hefyd am gefnogi TGAU fel cymhwyster. Fodd bynnag, hoffwn ei gywiro ar un pwynt: nid gwleidydd benderfynodd ar y graddau. Y Gweinidog, fel rheoleiddiwr, a orchmynnodd CBAC i ailraddio; gosododd CBAC y graddau ar sail ein cyfarwyddyd. Rwy'n credu bod gennym wahaniad clir o ran swyddogaethau. Mae'n iawn wrth ddweud nad oedd esgus dros ymosodiad Ofqual ar CBAC, a chyfeiriais yn fy natganiad at y cywiriadau y mae prif weithredwr Ofqual wedi ein sicrhau y bydd yn eu gwneud i'w thystiolaeth i'r pwyllgor dethol.

On the 5% of candidates who sat the GCSE under AQA, I have said that if we get further evidence that is robust, we would be prepared

Ynglŷn â'r 5% o ymgeiswyr a safodd TGAU o dan AQA, yr wyf wedi dweud, os byddwn yn cael rhagor o dystiolaeth sy'n gadarn,

to look at this situation again. There is a court case that may have a bearing on that matter over the border in England. I have to say that the evidence that we have in relation to AQA is more mixed and variable than what we have in respect of the WJEC. We have some centres in Wales that did exceptionally well under the AQA, which illustrates some of the difficulties that we have. On banding, I am absolutely confident that the system that we have is robust.

byddem yn barod i edrych ar y sefyllfa eto. Mae achos llys ar y gweill a allai fod yn effeithio ar y mater hwnnw dros y ffin yn Lloegr. Rhaid i mi ddweud bod y dystiolaeth sydd gennym ynglŷn ag AQA yn fwy cymysg ac amrywiol na'r hyn sydd gennym ynglŷn â CBAC. Mae gennym rai canolfannau yng Nghymru a wnaeth yn arbennig o dda o dan AQA, sy'n amlinellu rhai o'r anawsterau sydd gennym. Ynglŷn â bandio, yr wyf yn gwbl hyderus bod y system sydd gennym yn gadarn.

On next year’s qualifications—and he is right to raise this—I am confident that the situation should not arise next year, and I had discussions with my officials about that just yesterday. May I correct him on the issue about the key stage 2 predictor? I did not accede to a request from Ofqual and, in fact, I was not involved in a decision on any acceptance of the key stage 2 predictor as a predictor for the grade boundaries for GCSE English language. I do not think that my officials made a mistake; I think that they operated, understandably, in a context where a decision had to be made swiftly—as I said earlier—and there is inevitably a degree of negotiated consensus when you have three regulators seeking to operate and make a judgment. My involvement was when we identified that the results were clearly unfair; we needed to analyse those results, understand them, and, in the exceptional circumstances that we found, to then order a regrading. That was the approach that we took.

Ynglŷn â chymwysterau y flwyddyn nesaf - ac mae'n iawn i godi'r mater hwn - yr wyf yn hyderus na ddylai'r sefyllfa godi y flwyddyn nesaf, a chefais drafodaethau gyda fy swyddogion am hynny ddoe ddiwethaf. A gaf i ei gywiro ar y mater am ragfynegydd cyfnod allweddol 2? Wnes i ddim cytuno i gais gan Ofqual ac, mewn gwirionedd, nid oeddwn yn rhan o benderfyniad am unrhyw dderbyniad o ragfynegydd cyfnod allweddol 2 fel rhagfynegydd ar gyfer y ffiniau graddau ar gyfer Saesneg TGAU. Nid wyf yn credu bod fy swyddogion wedi gwneud camgymeriad; Credaf eu bod wedi gweithredu, yn ddealladwy, mewn cyd-destun lle’r oedd rhaid gwneud penderfyniad yn gyflym - fel y dywedais yn gynharach - ac yn anochel bydd rhywfaint o gonsensws a drafodwyd pan fo gennych dri rheoleiddiwr yn ceisio gweithredu a gwneud dyfarniad. Cymerais i ran, dim ond pan nodwyd bod y canlyniadau yn amlwg yn annheg; roedd angen i ni ddadansoddi’r canlyniadau hynny, eu deall, ac, yn yr amgylchiadau eithriadol a ganfuom, wedyn gorchymyn ailraddio. Dyna’r agwedd a gymerwyd gennym.

On the broad question that he asked about the future, certainly we see that coursework has a role, and we would expect that to continue following the qualifications review. Unlike in England, we are not outlawing the use of modular exams either.

O ran y cwestiwn eang iddo ofyn am y dyfodol, rydym yn sicr yn gweld bod lle i waith cwrs, a byddem yn disgwyl i hynny barhau yn dilyn yr adolygiad o gymwysterau. Yn wahanol i’r hyn sy’n digwydd yn Lloegr, nid ydym yn gwahardd y defnydd o arholiadau modiwlar ychwaith.

**Aled Roberts:** As another parent of a youngster who is halfway through his GCSE exams, I also believe that that exam is still fit for purpose. I believe that my son’s educational experiences are much stronger than my own, where, to all intents and purposes, provided I worked hard for the last

**Aled Roberts:** Fel rhywun arall sy’n rhiant i berson ifanc sydd hanner ffordd drwy ei arholiadau TGAU, rwyf innau hefyd yn credu bod yr arholiad yn dal yn addas at ei ddiben. Yr wyf yn credu bod profiadau addysgol fy mab yn llawer cryfach na fy rhai i, lle, i bob pwrpas, ar yr amod fy mod yn gweithio'n

three or four weeks at O-level, I was pretty sure of doing quite well.

galed yn ystod y tair neu bedair wythnos olaf fy lefel O, roeddwn yn gymharol sicr o wneud yn eithaf da.

**William Powell:** What has changed?

**William Powell:** Beth sydd wedi newid?

**Aled Roberts:** That is true. [*Laughter*.]

**Aled Roberts:** Mae hynny'n wir. [*Chwerthin*.]

I would like some clarification regarding the circumstances from early 2012, when, I think, the initial approach was made by Ofqual to the WJEC with regard to the use of predictors and other issues, where there were clear conflicts between policy in Wales and in England. It is quite clear that, at that early stage, the WJEC, as well as your officials, did not envisage that there would be, to quote from the report, a

Hoffwn gael rhywfaint o eglurhad ynghylch yr amgylchiadau o ddechrau 2012, pan, mi gredaf, y cysylltodd Ofqual gyntaf â CBAC ynglŷn â'r defnydd o ragfynegyddion a materion eraill, lle'r oedd gwrthdaro amlwg rhwng polisi yng Nghymru ac yn Lloegr . Mae'n gwbl glir, yn y cyfnod cynnar, na wnaeth CBAC, na'ch swyddogion, ragweld y byddai, i ddyfynnu o'r adroddiad,

'significant impact on the outcomes for candidates in Wales'.

effaith sylweddol ar y canlyniadau ar gyfer ymgeiswyr yng Nghymru.

However, by the time that the indicators were being considered again—on 27 July, I believe—it was clear that difficulties were arising, and there is an explanation in the report regarding the use in England of the combined English course et cetera and the key stage 2 predictors. There is something that I do not understand in the report. It was clear at that stage that there were discussions involving your officials, the WJEC and Ofqual in an attempt to reach an agreement with regard to the final outcomes. There were apparently three potential ways forward—I think that the report refers to the chosen way forward as having the least impact as far as Welsh students were concerned. Would you be willing, because of the position in which we as opposition spokespeople find ourselves, for your officials to provide briefings on those different processes that were available and whether, in fact, the WJEC at that stage was still warning with regard to the way forward as far as that particular outcome was concerned?

Fodd bynnag, erbyn yr adeg yr oedd y dangosyddion yn cael eu hystyried unwaith eto - ar 27 Gorffennaf mi gredaf - roedd yn amlwg bod anawsterau yn codi, ac mae esboniad yn yr adroddiad ynghylch y defnydd yn Lloegr o'r cwrs Saesneg cyfunol ayb a'r rhagfynegyddion cyfnod allweddol 2. Mae rhywbeth nad wyf yn ei ddeall yn yr adroddiad. Roedd yn amlwg bryd hynny fod trafodaethau rhwng eich swyddogion, CBAC ac Ofqual mewn ymgais i ddod i gytundeb o ran y canlyniadau terfynol. Roedd yn ymddangos bod tair ffordd bosibl ymlaen - credaf fod yr adroddiad yn nodi mai'r ffordd ymlaen a ddewiswyd fyddai'n cael yr effaith leiaf cyn belled ag yr oedd myfyrwyr Cymru yn y cwestiwn. A fyddech yn fodlon, oherwydd y sefyllfa yr ydym ni fel llefarwyr y gwrthbleidiau yn canfod ein hunain ynddi, yn fodlon i'ch swyddogion ddarparu gwybodaeth briffio ar y gwahanol brosesau a oedd ar gael ac a oedd CBAC, mewn gwirionedd, ar y cam hwnnw yn dal i rybuddio ynglŷn â'r ffordd ymlaen cyn belled ag yr oedd y canlyniad penodol hwnnw yn y cwestiwn?

Those options, as far as I can see at the moment, are not in the public domain, and I think that it would help us in looking at the way forward if they were, because the way forward is the most important aspect at this

Nid yw'r opsiynau hynny, cyn belled ag y gallaf weld ar hyn o bryd, ar gael yn gyhoeddus, a chredaf y byddai o gymorth i ni wrth edrych ar y ffordd ymlaen pe byddent, oherwydd y ffordd ymlaen sydd bwysicaf ar

stage, rather than looking back at what has happened, although the report indicates that there were clear difficulties as far as the situation in Wales was concerned. I would like to understand as well whether your officials, with the WJEC, were carrying out any work between the early part of the year and 27 July to affirm that there were none of these significant impacts that, apparently, came to the fore at the end of the month.

hyn o bryd, yn hytrach nag edrych yn ôl ar yr hyn sydd wedi digwydd, er bod yr adroddiad yn dangos bod anawsterau amlwg cyn belled ag yr oedd y sefyllfa yng Nghymru yn y cwestiwn. Hoffwn i ddeall hefyd a oedd eich swyddogion, gyda CBAC, yn gwneud unrhyw waith rhwng rhan gyntaf y flwyddyn a 27 Gorffennaf i gadarnhau nad oedd yr un o'r effeithiau sylweddol hyn yn bodoli, ond a ddaeth i'r amlwg, yn ôl pob tebyg, ar ddiwedd y mis.

I agree with Simon Thomas that our main concern has to be, given the move in England to the use of key stage 2 predictors, and the fact that we do not have a similar methodology on which we can rely on Wales, what you consider to be the way forward. We would not want to find ourselves in a situation in which the divergences in policy between England, Wales and Northern Ireland, given the numbers involved in England and the imbalance—I think that 84,000 youngsters in England took the WJEC English-language course, compared to only 34,000 in Wales—would mean that there were difficulties going forward. What opportunities will you have to seek a way forward for us and, potentially, for Northern Ireland, subject to the review that will come out in November?

Rwy'n cytuno gyda Simon Thomas mai ein prif bryder yw, o ystyried y symudiad yn Lloegr i ddefnyddio rhagfynegyddion cyfnod allweddol 2, a'r ffaith nad oes gennym fethodoleg debyg y gallwn ddibynnu arni yng Nghymru, beth yn eich barn chi yw’r ffordd ymlaen. Ni fyddem am ganfod ein hunain mewn sefyllfa lle mae'r gwahaniaethau mewn polisi rhwng Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, o ystyried y niferoedd dan sylw yn Lloegr a'r anghydbwysedd - credaf fod 84,000 o bobl ifanc yn Lloegr wedi dilyn y cwrs iaith Saesneg, o'i gymharu â dim ond 34,000 yng Nghymru – a fyddai’n golygu bod anawsterau wrth symud ymlaen. Pa gyfleoedd a fydd gennych i chwilio am ffordd ymlaen i ni ac, o bosibl, ar gyfer Gogledd Iwerddon, yn amodol ar yr adolygiad a fydd yn dod allan ym mis Tachwedd?

**Leighton Andrews:** I have no difficulty in sharing further information with Members around the issues of the options that were being looked at. If the Member would like to write to me specifically on the detail of what he would like to see, I will be happy to consider that. A fair amount of material is given in the original report on this. There is a slight contradiction here between the desire to understand what happened and the danger of politicians then becoming involved in the setting of grade boundaries. As far as I was concerned, that was something I was not going to get involved in the detail of. I intervened at the right time, in my view, and when a Minister should become involved, namely when it was clear that there was an exceptional circumstance and a real injustice. It is not my role to get involved in how those grade boundaries are set.

**Leighton Andrews:** Nid oes gennyf unrhyw anhawster o ran rhannu gwybodaeth ychwanegol gydag Aelodau ynglŷn â materion y dewisiadau a oedd yn cael eu hystyried. Pe hoffai'r Aelod ysgrifennu ataf yn benodol ar fanylion yr hyn yr hoffai ei weld, byddaf yn hapus i ystyried hynny. Mae cryn dipyn o ddeunydd wedi ei roi yn yr adroddiad gwreiddiol ar hyn. Mae gwrthddywediad bach yma rhwng yr awydd i ddeall yr hyn a ddigwyddodd a'r perygl o wleidyddion, yna’n cymryd rhan mewn gosod ffiniau graddau. Cyn belled ag yr oeddwn i yn y cwestiwn, roedd hynny’n rhywbeth nad oeddwn yn mynd i gymryd rhan yn ei fanylion. Fe wnes i ymyrryd ar yr amser cywir, yn fy marn i, ac ar yr adeg y dylai Gweinidog gymryd rhan, sef pan oedd yn amlwg fod amgylchiadau eithriadol yn bodoli, a gwir anghyfiawnder yn ogystal. Nid fy swyddogaeth i yw cymryd rhan yn y ffordd y mae ffiniau gradd yn cael eu gosod.

There is a context that it is important for all to understand. This current suite of exams in the subject of English had been under consideration since 2008, and the original understanding that Ofqual had agreed with other regulators back in 2008 was that the change in specifications should not lead to any marked change year on year between the outcomes of those who sat the previous specification and those who were taking the new specification. There have been significant changes in personnel at Ofqual since 2010, and I believe that I am right in saying that none of the Ofqual officials who were key to taking the decisions in this year, 2012, were around at the time of the original agreement in 2008 that was minuted, whereas my officials were. Therefore, we have a corporate memory here of how these discussions took place.

Mae hwn yn gyd-destun sydd yn bwysig i bawb ei ddeall. Roedd y gyfres gyfredol hon o arholiadau yn y pwnc Saesneg wedi bod dan ystyriaeth ers 2008, a’r ddealltwriaeth gwreiddiol yr oedd Ofqual wedi cytuno arni gyda rheoleiddwyr eraill yn ôl yn 2008 oedd na ddylai'r newid mewn manylebau arwain at unrhyw newid amlwg flwyddyn ar ôl blwyddyn rhwng canlyniada'r rhai a safodd y fanyleb flaenorol a'r rhai a oedd yn sefyll y fanyleb newydd. Bu newidiadau sylweddol mewn personél yn Ofqual ers 2010, ac yr wyf yn credu fy mod yn iawn wrth ddweud nad oedd unrhyw un o swyddogion Ofqual a oedd yn allweddol wrth gymryd y penderfyniadau yn y flwyddyn hon, 2012, o gwmpas ar adeg y cytundeb gwreiddiol yn 2008, a gofnodwyd, ond mi roedd fy swyddogion i. Felly, mae gennym gof corfforaethol yma o sut y digwyddodd y trafodaethau hyn.

In respect of the future, we have the qualifications review—as I said, it has taken extensive evidence; it will be reporting in November. That will give us a basis on which to consider a whole series of issues, not least relationships with other examining bodies in other countries within the United Kingdom or, indeed, beyond our boundaries.

O ran y dyfodol, mae gennym yr adolygiad o gymwysterau - fel y dywedais, mae wedi golygu tystiolaeth helaeth; bydd yn adrodd ym mis Tachwedd. Bydd hynny'n rhoi sail inni i ystyried cyfres gyfan o faterion, gan gynnwys ein perthynas â chyrff arholi eraill mewn gwledydd eraill o fewn y Deyrnas Unedig neu, yn wir, y tu hwnt i'n ffiniau.

**The Presiding Officer:** We have now had a speaker from each of the parties, so I ask the remaining speakers just to ask questions, please.

**Y Llywydd: Yr** ydym bellach wedi cael siaradwr o bob un o'r partïon, felly gofynnaf i'r siaradwyr sy'n weddill i ofyn cwestiynau yn unig, os gwelwch yn dda.

**David Rees:** I welcome your statement, Minister, and I applaud your efforts over the summer to make sure that we got a fair and just system for our students and the work that they did. I have a couple of points, about which I will be quick.

**David Rees:** Croesawaf eich datganiad, Weinidog, ac yr wyf yn cymeradwyo eich ymdrechion dros yr haf i wneud yn siŵr ein bod yn cael system deg a chyfiawn ar gyfer ein myfyrwyr a'r gwaith a wnaethant. Mae gennyf un neu ddau o bwyntiau, y byddaf yn gyflym.

**The Presiding Officer:** Try to stick to questions, if you can, please.

**Y Llywydd:** Ceisiwch gadw i gwestiynau, os gallwch, os gwelwch yn dda.

3.45 p.m.

**David Rees:** On the situation regarding the quality assurance aspect of regulations—the control elements have also been mentioned—it is important that we look at the quality assurance procedures that exist within WJEC and beyond. Will you be looking at those

**David Rees:** O ran y sefyllfa ynglŷn ag agwedd sicrwydd ansawdd y rheoliadau – mae elfennau rheoli wedi eu crybwyll hefyd - mae'n bwysig ein bod yn edrych ar y gweithdrefnau sicrhau ansawdd sy'n bodoli o fewn CBAC a thu hwnt. A fyddwch yn

aspects very carefully, Minister, to ensure that that takes place effectively?

edrych ar yr agweddau hynny yn ofalus iawn, Weinidog, i sicrhau bod hynny'n digwydd yn effeithiol?

Secondly, what legal advice did you receive? As you mentioned, Minister, there are areas in England that have taken legal advice. Did you receive any legal advice at all relating to the outcomes?

Yn ail, pa gyngor cyfreithiol a gawsoch? Fel y dywedasoch, Weinidog, mae ardaloedd yn Lloegr sydd wedi cael cyngor cyfreithiol. A gawsoch chi unrhyw gyngor cyfreithiol o gwbl ynglŷn â'r canlyniadau?

**Leighton Andrews:** I am not going to comment on the detail of any legal advice; no Minister would. Clearly, the decisions that I took were informed by legal advice. The Member can make that assumption. In respect of quality assurance within WJEC, he raises an important issue, and I know that he does so on the basis of his own background and experience in this field. I want to inform the Chamber that I wrote to the chair of WJEC yesterday, raising a number of issues that had arisen from the previous review of the structure of the qualifications market, which we published before the summer recess, as Members will recall. A number of issues were raised there about accountability, governance and other issues, with regard to WJEC. I have asked the chair of WJEC to come back to me by 26 October with observations on that report.

**Leighton Andrews:** Nid wyf yn mynd i roi sylwadau ar fanylion unrhyw gyngor cyfreithiol; ni fyddai unrhyw Weinidog yn gwneud hynny. Yn amlwg, roedd y penderfyniadau a gymerais wedi eu llywio gan gyngor cyfreithiol. Gall yr Aelod wneud y dybiaeth honno. O ran sicrhau ansawdd o fewn CBAC, mae'n codi mater pwysig, a gwn ei fod yn gwneud hynny ar sail ei gefndir ei hun a phrofiad yn y maes hwn. Rwyf am i'r Siambr wybod fy mod wedi ysgrifennu at gadeirydd CBAC ddoe, gan godi nifer o faterion a oedd wedi codi o'r adolygiad blaenorol o strwythur y farchnad cymwysterau, a gyhoeddwyd gennym cyn egwyl yr haf, fel y bydd yr Aelodau'n cofio. Codwyd nifer o faterion yno am atebolrwydd, llywodraethu a materion eraill, ynglŷn â CBAC. Yr wyf wedi gofyn i gadeirydd CBAC ymateb erbyn 26 Hydref gyda sylwadau ar yr adroddiad hwnnw.

**Suzy Davies:** I wish to press you further, Minister, about a different but relevant comparison—not between the thresholds in England and Wales, but between the thresholds of English and Welsh first-language GCSEs here in Wales. I wish to refer when your department was involved in discussions with WJEC and other bodies—and you may want to add something to your earlier response on that. When your department was involved in those discussions—and I mean the discussions, not the final report—about a more difficult threshold for the English-language GCSE, there appears to have been no concern from you or WJEC regarding the standard of the Welsh first-language GCSE. This must mean either that the Welsh first-language GCSE was already more demanding—in which case, we should ask why the English-language GCSE has been allowed to be comparatively easier all this time, or that both GCSEs had equal thresholds to start with, but

**Suzy Davies:** Hoffwn bwyso arnoch ymhellach, Weinidog, am gymhariaeth wahanol ond perthnasol - nid rhwng y trothwyon yn Lloegr a Chymru, ond rhwng trothwyon TGAU ar gyfer y Gymraeg a'r Saesneg fel mamiaith yma yng Nghymru. Hoffwn gyfeirio at yr adeg pan oedd eich adran yn cymryd rhan mewn trafodaethau gyda CBAC a chyrff eraill - ac efallai y byddwch am ychwanegu rhywbeth at eich ateb cynharach ar hynny. Pan oedd eich adran yn rhan o'r trafodaethau hynny - ac yr wyf yn golygu y trafodaethau, nid yr adroddiad terfynol - am drothwy fwy anodd ar gyfer TGAU iaith Saesneg, mae'n ymddangos na fu unrhyw bryder gennych chi na CBAC ynglŷn â safon TGAU ar gyfer y Gymraeg fel mamiaith. Mae'n rhaid bod hyn yn golygu naill ai bod y TGAU ar gyfer y Gymraeg fel mamiaith eisoes yn fwy heriol - ac os hynny, dylem ofyn pam y gadawyd TGAU iaith Saesneg i fod yn gymharol haws yr holl amser, neu bod gan y ddau TGAU drothwyon

that only the English-language GCSE was considered for improvement for whatever reason, possibly leaving the standard of the Welsh first-language GCSE poorer by comparison. As ours is a bilingual nation, none of us would be comfortable with the idea that the English-language GCSE here was either easier or harder than the Welsh first-language equivalent. Which one was it?

cyfartal i ddechrau, ond dim ond y TGAU Saesneg a ystyriwyd ar gyfer gwella am ba bynnag reswm, gan o bosibl, adael safon TGAU ar gyfer y Gymraeg fel mamiaith yn salach mewn cymhariaeth. Gan fod ein cenedl ni yn ddwyieithog, ni fyddai neb ohonom yn gyfforddus â'r syniad fod y TGAU iaith Saesneg naill ai yn haws nac yn anos na'r Gymraeg fel mamiaith cyfatebol. Pa un sy'n wir?

**Leighton Andrews:** The Member is trying to raise something that is a complete red herring. The reality of the situation is this: there was only one GCSE subject where we had a debate around the issue of key stage 2 predictors. That was English language, because it was only in that subject that there were more students in England than there were in Wales. There were changes to the specifications for GCSE English language for a number of reasons. These were discussed over a considerable period before they were introduced. One interesting thing of which Members may not be aware is that there is a qualification available in England called GCSE English, known as combined English, that we did not approve to be taught in Wales because we did not think that it sufficiently tested the overall curriculum. We preferred candidates to study GCSE English language and/or GCSE English literature, and not the combined English exam. Therefore, I think that we have taken a very robust and rigorous approach to this.

**Leighton Andrews:** Mae'r Aelod yn ceisio codi sgwarnog drwy godi hyn. Gwirionedd y sefyllfa yw hyn: dim ond ynglŷn ag un pwnc TGAU y cawsom ddadl ynghylch rhagfynegyddion cyfnod allweddol 2. Iaith Saesneg oedd hwnnw, oherwydd dim ond yn y pwnc hwnnw yr oedd mwy o fyfyrwyr yn Lloegr nag yng Nghymru. Cafwyd newidiadau i'r manylebau ar gyfer TGAU iaith Saesneg am nifer o resymau. Trafodwyd y rhain dros gyfnod sylweddol cyn iddynt gael eu cyflwyno. Un peth diddorol efallai na fydd yr Aelodau'n ymwybodol ohono yw bod cymhwyster ar gael yn Lloegr o'r enw TGAU Saesneg, a adnabyddir fel Saesneg cyfunol, na wnaethom ei gymeradwyo i gael ei addysgu yng Nghymru gan nad oeddem yn credu ei fod yn profi'r cwricwlwm cyffredinol yn ddigonol. Roedd yn well gennym i ymgeiswyr astudio TGAU iaith Saesneg a / neu TGAU llenyddiaeth Saesneg, ac nid yr arholiad Saesneg cyfunol. Felly, credaf ein bod wedi dangos ymagwedd gadarn a thrwyadl iawn wrth ystyried hyn.

In respect of the Welsh first-language GCSE, all syllabuses are subject to review from time to time. Certainly, if we thought that there were issues that needed to be addressed, we would have been looking at them. However, in respect of this, I see no evidence to suggest that the standards for GCSE English language were worse than the standards for GCSE Welsh language.

O ran y TGAU ar gyfer y Gymraeg fel mamiaith, mae pob maes llafur yn destun adolygiad o bryd i'w gilydd. Yn sicr, pe byddem yn credu bod yna faterion yr oedd angen mynd i'r afael â hwy, byddem wedi bod yn edrych arnynt. Fodd bynnag, o ran hyn, nid wyf yn gweld unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu bod y safonau ar gyfer TGAU iaith Saesneg yn waeth na'r safonau ar gyfer TGAU iaith Gymraeg.

*Daeth y Dirprwy Lywydd i'r Gadair am 3.49 p.m.*
*The Deputy Presiding Officer took the Chair at 3.49 p.m.*

## Datganiad: Cyngor Sir Ynys Môn
## Statement: Isle of Anglesey County Council

**The Minister for Local Government and**

**Y Gweinidog dros Lywodraeth Leol a**

**Communities (Carl Sargeant):** I would like to update members on the intervention in the Isle of Anglesey County Council and on my future plans. This follows detailed reports that I have received from the commissioners and from the Auditor General for Wales. In my last statement to the Assembly in May, I noted that the council had made good progress under the commissioners' stewardship. In particular, the fractious politics that have bedevilled the council in recent years seem largely to have disappeared. The commissioners reiterated that view in their latest report to me. Councillors continue to take a balanced and mature approach to all issues. Political groups are stable, and relationships between them are cordial. Isolated instances of misconduct have been swiftly and effectively dealt with. No longer do they poison the political atmosphere and distract the council from the issues that matter. That marks a complete turnaround since March 2011 and reflects great credit on councillors themselves, as well as on the commissioners.

**Chymunedau (Carl Sargeant):** Hoffwn i ddiweddaru'r aelodau ar yr ymyrraeth ar Gyngor Sir Ynys Môn ac ar fy nghynlluniau i'r dyfodol. Mae hyn yn dilyn adroddiadau manwl yr wyf wedi eu derbyn gan y comisiynwyr a gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Yn fy natganiad diwethaf i'r Cynulliad ym mis Mai, nodais fod y cyngor wedi gwneud cynnydd da o dan stiwardiaeth y comisiynwyr. Yn benodol, mae'r wleidyddiaeth gecrus sydd wedi tarfu ar y cyngor yn ystod y blynyddoedd diweddar fel petaent wedi diflannu i raddau helaeth. Ailadroddodd y comisiynwyr y farn honno yn eu hadroddiad diweddaraf i mi. Mae'r cynghorwyr yn parhau i fabwysiadu ymagwedd gytbwys ac aeddfed i bob mater. Mae grwpiau gwleidyddol yn sefydlog, ac mae'r berthynas rhyngddynt yn gynnes. Ymdriniwyd yn gyflym ac yn effeithiol ag ambell achos o gamymddwyn. Nid ydynt yn gwenwyno'r awyrgylch gwleidyddol bellach nac yn tynnu sylw'r cyngor oddi wrth y materion sydd o bwys. Mae hynny'n dangos newid llwyr ers mis Mawrth 2011 sy'n glod mawr i'r cynghorwyr eu hunain, yn ogystal ag i'r comisiynwyr.

Nonetheless, in May, I extended my direction for a further four months to allow the council to finish restructuring its senior management team. For too long, officers had to work without clear leadership or a coherent sense of purpose. My commissioners have filled some of that void themselves, but they are not the long-term solution. Instead, the council now has a high-calibre senior management team. It will be vital to bringing stability and capacity to the council.

Serch hynny, ym mis Mai, rwyf wedi ymestyn fy nghyfarwyddyd am bedwar mis arall er mwyn caniatáu i'r cyngor orffen ailstrwythuro ei uwch dîm rheoli. Am gyfnod rhy hir, mae swyddogion wedi gorfod gweithio heb arweiniad clir neu ymdeimlad cydgysylltiedig o bwrpas. Mae fy nghomisiynwyr wedi llenwi rhai o'r bylchau hynny eu hunain, ond nid ydynt yn atebion tymor hir.Yn hytrach, mae gan y cyngor bellach uwch dîm rheoli o'r radd flaenaf. Bydd yn hanfodol i ddod â sefydlogrwydd a gallu i'r cyngor.

My commissioners' view of the council's internal management is that progress has been slower than it should have been in the political sphere, largely because of the time needed to recruit the new senior team. However, they are now confident that sustainable improvement will continue.

Safbwynt fy nghomisiynwyr o reoli mewnol y cyngor yw bod cynnydd wedi bod yn arafach nag y dylai fod yn y byd gwleidyddol, yn bennaf oherwydd yr amser sydd ei angen i recriwtio'r uwch dîm newydd. Fodd bynnag, maent yn awr yn hyderus y bydd gwelliant cynaliadwy yn parhau.

Amidst all of this good news, Anglesey received a highly critical report from Estyn on its education services. As Leighton Andrews and I said at the time, failure on this scale will not be tolerated. The council will

Yng nghanol yr holl newyddion da yma, derbyniodd Ynys Môn adroddiad beirniadol iawn ar ei wasanaethau addysg gan Estyn. Fel y dywedodd Leighton Andrews a minnau ar y pryd, ni fydd methiant ar y raddfa hon yn

therefore receive a package of external challenges and support to ensure that these problems get the attention they demand. During most of the period covered by the Estyn report, Anglesey suffered from instability, incoherence, weak corporate and financial management and a complete lack of political leadership. It is unsurprising that services suffered too. I appointed my commissioners to resolve those corporate issues. The success that they have had will significantly increase the council's ability to manage and recover services. Commissioners can and will ensure that the council addresses Estyn's findings urgently. However, they cannot secure a full and sustainable recovery of the education services, and that has never been part of their remit. Only the council can do that, with the support and challenge we have agreed to provide.

cael ei oddef. Bydd y cyngor felly'n derbyn pecyn o heriau allanol a chymorth i sicrhau bod y problemau hyn yn cael y sylw angenrheidiol. Yn ystod y rhan fwyaf o'r cyfnod sydd dan sylw yn adroddiad Estyn, roedd Ynys Môn yn dioddef o ansefydlogrwydd, diffyg cysylltiad, rheolaeth gorfforaethol ac ariannol gwan a diffyg llwyr o ran arweiniad gwleidyddol. Nid yw'n syndod bod y gwasanaethau wedi dioddef hefyd. Penodais fy nghomisiynwyr i ddatrys y materion corfforaethol hynny. Bydd y llwyddiant y maent wedi'i gael yn cynyddu gallu'r cyngor i reoli ac adfer gwasanaethau yn sylweddol. Gall y comisiynwyr sicrhau bod y cyngor yn rhoi sylw ar frys i ganfyddiadau Estyn a byddant yn gwneud hynny. Fodd bynnag, ni allant sicrhau adferiad llawn a chynaliadwy o wasanaethau addysg, ac nid yw erioed wedi bod yn rhan o'u cylch gwaith. Dim ond y cyngor all wneud hynny, gyda'r gefnogaeth a'r her yr ydym wedi cytuno i'w darparu.

The question now is whether the council is becoming capable of managing its affairs itself and coping with its own problems without external direction. I believe that we are nearing that point. My commissioners and the auditor general are clear that councillors may be ready to resume control. This is not just about rewarding councillors' good behaviour. There are three important reasons for beginning to withdraw the commissioners.

Y cwestiwn yn awr yw a yw'r cyngor yn gallu rheoli ei faterion ei hun ac ymdopi â'i broblemau ei hun heb gyfarwyddyd allanol. Credaf ein bod yn agosáu at y pwynt hwnnw. Mae fy nghomisiynwyr a'r archwilydd cyffredinol yn glir bod cynghorwyr efallai yn barod i ailddechrau rheoli. Nid gwobrwyo ymddygiad da y cynghorwyr yw hyn yn unig. Mae tri rheswm pwysig dros ddechrau galw'r comisiynwyr yn eu hôl.

First, all the evidence we have about the council's recovery needs to be tested properly. We cannot know that councillors are capable of taking informed and mature decisions, or that officers are capable of supporting them, without giving them the chance to try. Intervention must be phased out progressively. It cannot just be switched off.

Yn gyntaf, bydd angen profi'r holl dystiolaeth sydd gennym am anghenion adferiad y cyngor yn briodol. Ni allwn wybod bod cynghorwyr yn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus ac aeddfed, neu bod swyddogion yn gallu eu cefnogi, heb roi cyfle iddynt roi cynnig arni. Rhaid i ymyrraeth gael ei ddiddymu'n raddol. Ni ellir rhoi terfyn arno ar unwaith.

Secondly, if I keep commissioners in full control for too long, there would be a risk in withdrawing them in that commissioners would increasingly be drawn into routine management rather than recovery, and members and officers could and would come to rely too much on them. That would make it harder for intervention to end.

Yn ail, os wyf yn cadw comisiynwyr mewn rheolaeth lawn am gyfnod rhy hir, byddai risg yn eu tynnu'n ôl oherwydd byddai comisiynwyr yn gynyddol yn cael eu tynnu i mewn i reoli arferol yn hytrach nag adfer, a gallai aelodau a swyddogion ddod i ddibynnu gormod arnynt. Byddai hynny'n ei gwneud yn anoddach i ymyrraeth ddod i ben.

Finally, intervention is costly and disruptive. Desperate circumstances need drastic measures, and I had no option but to appoint commissioners last year. However, I can only justify such measures in principle or in law for as long as is absolutely necessary. If and when matters begin to improve, I must reflect that in the terms of my intervention, and I must restore the democratic process as soon as I can.

Yn olaf, mae ymyrraeth yn gostus ac yn drafferthus. Mae amgylchiadau enbyd yn gofyn am fesurau llym, ac nid oedd gennyf ddewis ond i benodi comisiynwyr y llynedd. Fodd bynnag, ni allaf ond cyfiawnhau mesurau o'r fath mewn egwyddor neu o ran cyfraith cyhyd ag sy'n gwbl angenrheidiol. Os a phryd y bydd pethau'n dechrau gwella, rhaid i mi adlewyrchu hynny yn nhelerau fy ymyrraeth, a rhaid imi adfer y broses ddemocrataidd cyn gynted ag y gallaf.

I have therefore accepted the recommendations of the commissioners and the auditor general to bring my intervention to an end. Under these arrangements, powers that the commissioners currently hold will return to the council. Commissioners will remain, with their power to confirm or override any council decision that goes against the advice of statutory officers. This provides an essential safeguard and allows us to test the strength of the council's recovery in a controlled environment. Commissioners will also continue to support the council, monitor its progress, and report to me. If they believe that recovery is faltering or that the council is reverting to its old ways, I will not hesitate to restore their full powers and to take other measures.

Yr wyf wedi derbyn felly argymhellion y comisiynwyr a'r archwilydd cyffredinol i ddod â fy ymyrraeth i ben. O dan y trefniadau hyn, bydd pwerau sydd gan y comisiynwyr ar hyn o bryd yn dychwelyd i'r cyngor. Bydd y Comisiynwyr yn aros, gyda'u pŵer i gadarnhau neu ddiystyru unrhyw benderfyniad gan y cyngor sy'n mynd yn groes i gyngor swyddogion statudol. Mae hyn yn rhoi dull diogelu hanfodol ac yn ein galluogi i brofi cryfder adferiad y cyngor mewn amgylchedd rheoledig. Bydd Comisiynwyr hefyd yn parhau i gynorthwyo'r cyngor, yn monitro ei gynnydd, ac yn adrodd i mi. Os ydynt yn credu bod adferiad yn simsan neu fod y cyngor yn mynd yn ôl i'w hen ffyrdd, ni fyddaf yn oedi i adfer eu pwerau llawn ac i gymryd camau eraill.

The reduced role means a smaller commissioner team. I have decided to re-appoint Byron Davies, Mick Giannasi and Alex Aldridge on a part-time basis. Their current roles are closest to the new responsibilities that I expect commissioners to take in the next phase. Margaret Foster and Gareth Jones depart as this phase of my intervention comes to a successful end. They do so with my profound thanks and, I am sure, those of the council. We would not have reached this point so quickly, if at all, without the efforts that they and all of the commissioners have made.

Mae'r rôl ostyngol yn golygu tîm comisiynydd llai. Rwyf wedi penderfynu ail-benodi Byron Davies, Mick Giannasi ac Alex Aldridge ar sail ran-amser. Eu swyddogaethau ar hyn o bryd yw'r agosaf at y cyfrifoldebau newydd yr wyf yn disgwyl i gomisiynwyr eu cymryd yn y cyfnod nesaf. Mae Margaret Foster a Gareth Jones yn gadael wrth i'r cam hwn o fy ymyrraeth ddod i ben yn llwyddiannus. Maent yn gwneud hynny gyda diolch o galon gennyf a diolch y cyngor hefyd, rwy'n siwr. Ni fyddem wedi cyrraedd y pwynt hwn mor gyflym, os o gwbl, heb yr ymdrechion y maent hwy a'r holl gomisiynwyr wedi eu gwneud.

I will issue a new direction implementing these arrangements shortly. It will come into force at the start of next month and run until the end of May next year. If councillors prove able to exercise control during that period, and if next year's elections yield a stable administration within the council, I can and will bring my intervention to a complete

Byddaf yn cyhoeddi cyfarwyddyd newydd yn gweithredu'r trefniadau hyn yn fuan. Bydd yn dod i rym ar ddechrau'r mis nesaf ac yn rhedeg tan ddiwedd Mai y flwyddyn nesaf. Os yw cynghorwyr yn dangos eu bod yn gallu arfer rheolaeth yn ystod y cyfnod hwnnw, ac os fydd etholiadau'r flwyddyn nesaf yn esgor ar weinyddiaeth sefydlog o

end. That would mark the end of a long and often turbulent journey. It has involved difficult decisions and tough sanctions—the toughest that have ever been applied to any British local authority. The council now has a clear opportunity to come through that not only with full control restored, but in a much better state to address the needs and aspirations of those it serves.

fewn y cyngor, gallaf ddod â fy ymyrraeth i ben yn llwyr, a byddaf yn gwneud hynny. Byddai hynny'n nodi diwedd taith hir a thaith gythryblus yn aml. Mae wedi golygu penderfyniadau anodd a sancsiynau caled - y caletaf erioed sydd wedi cael eu defnyddio arf gyfer unrhyw awdurdod lleol ym Mhrydain. Bellach mae gan y cyngor gyfle clir i ddod drwy hynny nid yn unig gyda rheolaeth lawn wedi ei adfer, ond mewn cyflwr llawer gwell i fynd i'r afael ag anghenion a dyheadau'r bobl y mae'n eu gwasanaethu.

**Janet Finch-Saunders:** Thank you, Minister, for bringing forward this quite detailed report. As you mentioned, it is good that we are now coming to the end of what has been a painful and long journey. You mentioned that it was quite an unprecedented move to do what you had to do and put commissioners in place. It is fair to say that we acknowledge the work that you have done. It was a bold decision to do what you did, but we now need to see some of those actions move forward to bring some confidence back into the democratic system in Anglesey, and in Wales in general.

**Janet Finch-Saunders:** Diolch i chi, Weinidog, am gyflwyno'r adroddiad eithaf manwl hwn. Fel yr oeddech yn sôn, mae'n dda ein bod yn awr yn dod i ddiwedd yr hyn a fu'n daith boenus a hir. Roeddech yn cyfeirio at y ffaith ei fod yn gam eithaf digynsail i wneud yr hyn oedd raid i chi ei wneud a phenodi comisiynwyr. Mae'n deg dweud ein bod yn cydnabod y gwaith yr ydych wedi ei wneud. Yr oedd yn benderfyniad dewr i wneud yr hyn wnaethoch chi, ond bellach mae angen i ni weld rhai o'r camau gweithredu hynny'n symud ymlaen i ddod â rhywfaint o hyder yn ôl i'r system ddemocrataidd yn Ynys Môn, ac yng Nghymru yn gyffredinol.

There are one or two observations that I have to make, and one or two questions, if you would not mind. I take note of the fact that you say that for too long officers had to work without clear leadership, and you have gone some way to addressing that. You have also mentioned one of the negatives, the highly critical report from Estyn, and I have a question on that later. You refer on page 2 of your statement to whether the council is becoming capable of managing its own affairs, and you say that the commissioners and the auditor general are clear that councillors may be ready to resume control. I would like a bit more detail around that, either now or at another time, because it sounds rather ambiguous.

Mae un neu ddau sylw y mae'n rhaid i mi eu gwneud, ac un neu ddau gwestiwn, os nad oes wahaniaeth gennych. Rwy'n nodi'r ffaith eich bod yn dweud bod swyddogion wedi gorfod gweithio heb arweiniad clir am gyfnod rhy hir, ac rydych wedi mynd i'r afael â hynny i raddau helaeth. Rydych wedi crybwyll un o'r agweddau negyddol hefyd, yr adroddiad beirniadol iawn gan Estyn, ac mae gen i gwestiwn ar hynny'n nes ymlaen. Rydych yn cyfeirio ar dudalen 2 eich datganiad a yw'r cyngor yn gallu rheoli ei faterion ei hun, ac rydych yn dweud bod y comisiynwyr a'r archwilydd cyffredinol yn glir y gall cynghorwyr fod yn barod i ailddechrau rheoli. Hoffwn ychydig mwy o fanylion ynghylch hynny, naill ai yn awr neu ar adeg arall, oherwydd ei fod yn swnio braidd yn amwys.

I move on to the point that you make that any intervention must be phased out progressively. I am also aware that you are withdrawing two of the commissioners, and

I symud ymlaen at y pwynt a wnewch bod yn rhaid i unrhyw ymyrraeth gael ei ddirwyn i ben yn raddol. Yr wyf hefyd yn ymwybodol eich bod yn tynnu dau o'r comisiynwyr yn ôl,

again, we ought to pay tribute to them, as well as to those who remain. Are you keeping those commissioners beyond the date of the election? As a result of the boundary changes, you will be reducing the number of councillors from 40 to 30. At a time when there are still some serious issues to be dealt with in Isle of Anglesey County Council, what sort of risk management do you have to address effective scrutiny and monitoring? Not only are you reducing the number of councillors, but there is also an election, and so you may have a considerable number of new and inexperienced councillors.

ac unwaith eto, dylem dalu teyrnged iddynt, yn ogystal ag i'r rhai sy'n aros. Ydych chi'n cadw y comisiynwyr hynny y tu hwnt i ddyddiad yr etholiad? O ganlyniad i'r newid ffiniau, byddwch yn lleihau nifer y cynghorwyr o 40 i 30. Ar adeg pan mae yna rai materion difrifol i ymdrin â nhw yng Nghyngor Sir Ynys Môn, pa fath o ddull rheoli risg sydd gennych i fynd i'r afael â chraffu a monitro effeithiol? Nid yn unig yr ydych yn lleihau nifer y cynghorwyr, ond mae etholiad hefyd, ac felly efallai y bydd gennych nifer sylweddol o gynghorwyr newydd a dibrofiad.

To talk about some of the problems Anglesey is still facing, the Estyn report was damning, and it paints a grim picture of education standards on Anglesey. Given that it refers to secondary school attendance rates as being unacceptably low, school improvement services as being inadequate, and to there not being enough progress in planning for school places, clearly there are many issues. On budget difficulties, Anglesey council needs to plug another hole of £2.2 million. The biggest overspend is in the social services department, where costs are spiralling towards £1 million. My predecessor, commissioner Gareth Jones, who chaired the meeting, called the need to find another £2.2 million ‘a very special challenge’.

Gan siarad am rai o'r problemau y mae Ynys Môn yn dal i’w hwynebu, roedd adroddiad Estyn yn ddamniol, ac mae'n rhoi darlun difrifol o safonau addysg ar Ynys Môn. O gofio ei fod yn nodi bod cyfraddau presenoldeb ysgolion uwchradd yn rhai annerbyniol o isel, gwasanaethau gwella ysgolion yn rhai annigonol, ac nad oedd digon o gynnydd wrth gynllunio ar gyfer lleoedd mewn ysgolion, yn amlwg mae llawer o broblemau. Ynghylch anawsterau cyllidebol, mae angen i gyngor Ynys Môn lenwi twll arall o £2.2 miliwn. Mae'r gorwariant mwyaf yn yr adran gwasanaethau cymdeithasol, lle mae costau yn cynyddu ar garlam tuag at £1 filiwn. Galwodd fy rhagflaenydd, y comisiynydd Gareth Jones, a gadeiriodd y cyfarfod, yr angen i ddod o hyd i £ 2.2 miliwn yn 'her arbennig iawn'.

4.00 p.m.

Considering the recent damning Estyn report on education services on the island, and the widely reported news that social services are in disarray, how confident are you that the process of democratic renewal on Ynys Môn will be sufficiently advanced for elections to go ahead in May? How confident are you that the high-calibre management team referred to in the statement will be able to tackle those educational problems? How can the Minister describe the situation as a ‘complete turnaround’ since 2011 when there are still so many problems with regard to education, as highlighted in the Estyn report, and social services, where there is a £1 million budget black hole? Will you outline in more detail what additional support and resources you intend to make available to ensure that social

O ystyried yr adroddiad damniol diweddar gan Estyn ar wasanaethau addysg ar yr ynys, a'r newyddion a adroddwyd yn eang bod y gwasanaethau cymdeithasol mewn anhrefn, pa mor hyderus ydych chi y bydd y broses o adfer democrataidd ar Ynys Môn yn cael ei datblygu’n ddigonol er mwyn i etholiadau fynd yn eu blaen ym mis Mai? Pa mor hyderus ydych chi y bydd y tîm rheoli o'r radd flaenaf y cyfeirir atynt yn y datganiad yn gallu mynd i'r afael â'r problemau addysgol? Sut all y Gweinidog ddisgrifio'r sefyllfa fel ‘newid llwyr’ ers 2011 pan mae nifer o broblemau o hyd o ran addysg, fel yr amlygwyd yn adroddiad Estyn, a gwasanaethau cymdeithasol, lle mae twll du o £1 miliwn yn y gyllideb? A fyddwch chi’n amlinellu'n fanylach pa gymorth ac adnoddau

services on Ynys Môn can overcome their present financial difficulties? What are the implications of the Minister's decision to phase out his intervention on the reported £2.2 million budget shortfall for the next financial year? Will more resources be made available? Finally, has the Minister taken advice on the robustness of corporate arrangements for dealing with this specific challenge?

ychwanegol yr ydych yn bwriadu sicrhau fydd ar gael i sicrhau y gall y gwasanaethau cymdeithasol ar Ynys Môn oresgyn eu hanawsterau ariannol presennol? Beth yw goblygiadau penderfyniad y Gweinidog i roi'r gorau'n raddol i'w ymyrraeth ar yr diffyg o £2.2 miliwn a adroddwyd yn y gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf? A sicrheir y bydd mwy o adnoddau ar gael? Yn olaf, a yw'r Gweinidog wedi cymryd cyngor ar gadernid trefniadau corfforaethol ar gyfer ymdrin â'r her benodol hon?

**Carl Sargeant:** I thank the Member for her many detailed questions. I hope that my statement answered many of them. On some of the detail that you requested, I will split the questions up into two sections—corporate responsibility and service delivery. My commissioners were placed there over 12 months ago as a result of the organisation's failure in its corporate responsibility. I do not say lightly that there has been a complete turnaround in the island's operation, because, 12 months ago, it was a question of whether there would be an Anglesey council or not. The intervention was harsh but needed, and it came at the appropriate time. I welcome the support from across the Chamber at the time and the continued support for the intervention now. I take note of the Member's comments in support of the commissioners, and particularly Margaret and Gareth, who are leaving their roles as commissioners after the excellent work that they did.

**Carl Sargeant:** Diolch i'r Aelod am ei chwestiynau manwl niferus. Rwy'n gobeithio fod fy natganiad wedi ateb llawer ohonynt. Ar rai o'r manylion yr ydych yn gofyn amdanynt, byddaf yn rhannu'r cwestiynau yn ddwy ran - cyfrifoldeb corfforaethol a darparu gwasanaethau. Sefydlwyd fy nghomisiynwyr yno dros 12 mis yn ôl o ganlyniad i fethiant y sefydliad yn ei gyfrifoldeb corfforaethol. Nid wyf yn dweud yn ysgafn y bu newid llwyr yng ngweithrediad yr ynys, oherwydd, 12 mis yn ôl, roedd yn gwestiwn o ba un a fyddai cyngor Ynys Môn ai peidio. Roedd yr ymyrraeth yn llym ond roedd ei hangen, a daeth ar yr adeg briodol. Croesawaf y gefnogaeth ar draws y Siambr ar y pryd a'r gefnogaeth barhaus i'r ymyrraeth yn awr. Nodaf sylwadau'r Aelod yn cefnogi'r comisiynwyr, ac yn enwedig Margaret a Gareth, sy'n gadael eu swyddogaethau fel comisiynwyr ar ôl y gwaith rhagorol y maent wedi ei wneud.

The Member mentioned serious issues. I do not see the function of Anglesey in the delivery of services as being any different from that in the other 21 authorities across Wales. They all have an extremely challenging job to deliver public services. Anglesey is not the only authority that has problems with educational services or social services across Wales. Some are under special measures, and some are not. Therefore, separating the corporate responsibility from public service delivery is important. Nevertheless, the Member raises the important issue of Estyn. Working alongside my colleague, the Minister for education, we have indicated our support for the council in turning the education system around, bearing in mind that the Estyn report

Soniodd yr Aelod am faterion difrifol. Nid wyf yn gweld swyddogaeth Ynys Môn mewn darparu gwasanaethau yn wahanol o gwbl i'r hyn a geir yn y 21 awdurdod arall ar draws Cymru. Mae gan bob un ohonynt waith hynod o heriol i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Nid Ynys Môn yw'r unig awdurdod sydd â phroblemau gyda gwasanaethau addysg neu wasanaethau cymdeithasol ar draws Cymru. Mae rhai o dan fesurau arbennig, ac mae eraill nad ydynt. Felly, mae gwahanu'r cyfrifoldeb corfforaethol oddi wrth ddarpariaeth gwasanaethau cyhoeddus yn bwysig. Serch hynny, mae'r Aelod yn codi mater pwysig Estyn. Gan weithio ochr yn ochr â'm cydweithiwr, y Gweinidog dros addysg, rydym wedi nodi ein cefnogaeth i'r cyngor i

was a snapshot in time and that the council has to engage to make sure that it can deliver. The inspectorate will be looking at that very closely.

newid y system addysg, gan gadw mewn cof bod adroddiad Estyn yn gipolwg ar gyfnod penodol a bod raid i'r cyngor ymgysylltu i sicrhau y gall gyflawni hyn. Bydd yr arolygiaeth yn edrych ar hynny yn agos iawn.

The Member raised an issue regarding the comment in my statement that councillors 'may' be ready to take charge back on the island. I thought long and hard about that comment and I nearly removed the 'may', but the fact of the matter is that we do not know. The whole process has been a test, and that is why we are removing the commissioners' direct intervention and giving the councillors and the corporate management team space to show that they can deliver, and be trusted to deliver, public services that Anglesey should be proud of. Come May, with a new administration at the council—whether a reduced council of the same councillors or a reduced council with new councillors—I want to be in a place where Anglesey can be one of the lead authorities in Wales. There is no reason why it cannot set an example for the other 21 authorities with the position that it is now in, with a strong delivery team, compared with the position that it was in previously. Therefore, if we can reach that point in May, the commissioners, the councillors, the senior team and members of the authority's council should be extremely proud of that.

Cododd yr Aelod fater ynghylch y sylw yn fy natganiad y bydd cynghorwyr 'efallai' yn barod i fod yn gyfrifol unwaith eto ar yr ynys. Meddyliais yn hir ac yn ddwys am y sylw hwnnw bu bron i mi â dileu 'efallai', ond y ffaith amdani yw nad ydym yn gwybod. Mae'r broses gyfan wedi bod yn brawf, a dyna pam ein bod yn cael gwared ar ymyrraeth uniongyrchol y comisiynwyr ac yn rhoi lle i'r cynghorwyr a'r tîm rheoli corfforaethol i ddangos eu bod yn gallu cyflawni, ac y gellir ymddiried ynddynt i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus y gall Ynys Môn fod yn falch ohonynt. Pan ddaw Mai, gyda gweinyddiaeth newydd yn y cyngor - boed hynny'n gyngor llai o'r un cynghorwyr neu'n gyngor llai gyda chynghorwyr newydd - rwyf am fod mewn sefyllfa lle gall Ynys Môn fod yn un o'r awdurdodau arweiniol yng Nghymru. Nid oes unrhyw reswm pam na all osod esiampl i'r 21 awdurdod arall drwy'r sefyllfa y mae ynddi'n awr, gyda thîm cyflwyno cryf, o'i gymharu â'r sefyllfa yr oedd ynddi'n flaenorol. Felly, os gallwn gyrraedd y pwynt hwnnw ym mis Mai, dylai'r comisiynwyr, y cynghorwyr, yr uwch dîm ac aelodau o gyngor yr awdurdod fod yn falch iawn o hynny.

**Ieuan Wyn Jones:** Diolch yn fawr iawn i'r Gweinidog am ei ddatganiad heddiw. Mae nifer o gwestiynau'n codi o'r datganiad hwn yr hoffwn iddo ymateb iddynt. Hoffwn yn y lle cyntaf groesawu'r ffaith bod y Gweinidog wedi derbyn adroddiad y comisiynwyr, a hynny ar sail y ffaith bod cynnydd wedi digwydd o ran gwella llywodraethu corfforaethol.

**Ieuan Wyn Jones:** I thank the Minister for his statement today. Several questions arise from this statement that I would like him to respond to. In the first instance, I want to welcome the fact that the Minister has accepted the commissioners' report on the grounds that there has been progress in respect of improving corporate governance.

Fel y mae'r Gweinidog yn ymwybodol, yn ddiweddar, mae'r cyngor wedi penodi tri swyddog newydd i weithredu fel dirprwy brif weithredwr, a chyfarwyddwyr sy'n gyfrifol am gymunedau a dysgu gydol oes. Rwyf wedi cael cyfle, fel rwy'n siŵr y mae ef, i gyfarfod â'r tri swyddog newydd. Yn fy marn i, ac rwy'n gobeithio yn ei farn ef, mae hynny'n cryfhau'r tîm rheoli ac yn rhoi cyfle, o dan arweiniad y prif weithredwr, i'r cyngor

As the Minister is aware, the council has recently appointed three new officers to act as deputy chief executive and as the directors responsible for communities and lifelong learning. I have had the opportunity, as I am sure has he, to meet the three new officers. In my opinion, and I hope in his, that strengthens the management team and gives the council the opportunity, under the leadership of the chief executive, to make

wneud cynnydd pellach ym maes rheolaeth gorfforaethol.

further strides in the area of corporate governance.

Mae'r cyngor nid yn unig yn cryfhau ei reolaeth gorfforaethol ond mae'n gwneud hynny mewn cyd-destun anodd iawn. Mae'r Gweinidog wedi cyfeirio at adroddiad Estyn—a byddaf yn sôn am hynny mewn eiliad—ac at y gwasanaethau cymdeithasol. Hefyd, mae'r hinsawdd ariannol bresennol yn un hynod o anodd ac yn creu sialens. Mae'r ffaith bod y cyngor wedi symud mor bell, fel y mae'r Gweinidog wedi'i awgrymu, yn y cyd-destun hwnnw ac yn yr hinsawdd honno yn rhywbeth y dylem oll ei longyfarch amdano.

The council is not only strengthening its corporate governance, but is doing so in a very difficult context. The Minister has referred to the Estyn report—and I will talk about that in a moment—and to social services. In addition, the current financial climate is exceptionally difficult and represents a challenge. The fact that the council has moved so far forward, as the Minister has suggested, in that particular context and in that climate is something that we should all congratulate it on.

Fel y mae'r Gweinidog wedi'i nodi, mae gwelliannau hefyd wedi bod yn ymddygiad yr aelodau. Yn bwysig iawn, os caf ddweud—ac mae wedi nodi hyn yn ei adroddiad—mae mwy o sefydlogrwydd yn y grwpiau gwleidyddol. Nid yw hynny'n golygu bod pob un aelod yn perthyn i blaid wleidyddol, ond o leiaf bellach mae un grŵp y mae'r aelodau annibynnol yn perthyn iddo—neu'r rhan fwyaf ohonynt, o leiaf.

As the Minister has noted, improvements have also been seen in the behaviour of the members. Very importantly, if I may say so—and he has noted this in his report—there is more stability among the political groups. That does not mean that every member is affiliated to a political party, but at least there is one group that the independent members now belong to—or the majority of them belong to it, at least.

Mae hyn, felly, wedi rhoi'r cyfle i'r Gweinidog ganiatáu trosglwyddo pwerau yn ôl i'r pwyllgor gwaith, er bod hynny o dan arolygaeth y comisiynwyr. Mae'r cyngor nid yn unig yn wynebu'r her hon o safbwynt cryfhau ei reolaeth gorfforaethol ond, ar hyn o bryd, mae'n mynd drwy ddau ymgynghoriad mawr iawn, y naill am ddyfodol ysgolion ar hyd a lled yr ynys, a'r llall am gartrefi gofal ar yr ynys. Mae hynny'n golygu os yw'r tîm rheoli i gario hyder pobl Môn, rhaid iddo wybod bod ganddo gefnogaeth nid yn unig y cynghorwyr ond Llywodraeth Cymru hefyd. Mae'n bwysig bod y gefnogaeth honno'n cael ei rhoi i'r cyngor, sy'n mynd drwy broses anodd iawn, nid yn unig ar lefel corfforaethol ond hefyd ar lefel gwasanaethau.

Therefore, that has given the Minister the opportunity to allow the transfer of powers back to the executive, although it is under the control of the commissioners. The council is not only facing this challenge from the point of view of strengthening its corporate governance, but, at present, it is undertaking two major consultations, one on the future of schools throughout the island, and the other on care homes on the island. That means that if the management team is to have the confidence of the people of Anglesey, it needs to know that it has the support not only of the councillors but also of the Welsh Government. It is important that that support be given to the council, which is going through a difficult process, not only on a corporate level but also in respect of services.

Hoffwn ofyn un cwestiwn i'r Gweinidog am leihau nifer y comisiynwyr. Mae wedi ailadrodd fwy nag unwaith yn ei ddatganiad ac wrth ateb cwestiynau blaenorol fod lleihau nifer y comisiynwyr yn golygu y byddant yn parhau i gael trosolwg dros waith y cyngor er bod y pwerau'n cael eu trosglwyddo. Fodd bynnag, yng nghyd-destun ymateb y

I want to put one question to the Minister on reducing the number of commissioners. He has reiterated more than once in his statement and in response to previous questions that reducing the number of commissioners will mean that they still have oversight of the council's work although the powers are transferred. However, in the context of the

Llywodraeth i adroddiad Estyn a'r ffaith bod bwrdd adfer addysg yn cael ei gynnwys, beth fydd y berthynas rhwng y comisiynwyr sy'n parhau a'r bwrdd adfer? Mae angen mewnbwn y tîm rheoli i sicrhau bod y bwrdd hwnnw'n gweithredu er lles pobl Môn.

Government's response to the Estyn report and the fact that an education recovery board is being put in place, what kind of relationship will the remaining commissioners have with the recovery board? The input of the management team will be needed to ensure that that board operates for the benefit of the people of Anglesey.

Er mai trefniadau corfforaethol oedd o dan y chwyddwydr, a dyna pam yr oedd wedi penodi comisiynwyr, ni allwn osgoi'r ffaith bod adroddiad Estyn wedi'i gyhoeddi. Rwy'n siŵr y byddwch eisiau cymryd y cyfle hwn i longyfarch ysgolion Môn, Weinidog, oherwydd roedd adroddiad Estyn wedi'i gyhoeddi ar adeg pan oedd canlyniadau y llynedd yn edrych yn rhai hynod o siomedig. Eleni, mae'r canlyniadau gymaint â hynny'n well, ac rwy'n gobeithio y byddwch yn cymryd y cyfle hwn i longyfarch ysgolion, prifathrawon a disgyblion Môn ar sicrhau tipyn o welliant yn eu canlyniadau. Gobeithio y bydd cyfle inni gael trafodaeth am gasgliadau Estyn rywdro eto. Fodd bynnag, gan fod yr adroddiad hwnnw wedi dod allan mor feirniadol, a'ch bod wedi penderfynu ar y cyd â'r Gweinidog Addysg a Sgiliau i gael bwrdd adfer, beth fydd y berthynas rhwng yr ochr gorfforaethol a'r gwasanaeth?

Although it was the corporate arrangements that were under the microscope, and that is why commissioners had to be appointed, we cannot get away from the fact that the Estyn report has been published. I am sure that you will want to take this opportunity to congratulate Anglesey's schools, Minister, because Estyn's report was published at a time when last year's results looked very disappointing. This year, the results are so much better, and I hope that you will take this opportunity to congratulate schools, headteachers and pupils on Anglesey for the significant improvement in their results. I hope that there will be another opportunity for us to discuss Estyn's conclusions. However, given that that report was so critical, and that you decided jointly with the Minister for Education and Skills to have a recovery board, what will the relationship be between the corporate side and the service?

Ar y cyfan, Weinidog, mae'ch ymateb heddiw yn un cadarnhaol iawn. Rydych wedi cyhoeddi nid yn unig y bydd y pwerau hyn yn cael eu trosglwyddo, ond hefyd y ffiniau newydd ar gyfer etholiadau'r flwyddyn nesaf. Dyma gyfle, felly, i'r cyngor sicrhau mandad newydd fis nesaf, a bydd hwnnw'n gyfle i bawb, gan gynnwys y pleidiau gwleidyddol, fynd ati o ddifrif i adfer enw da Môn, a chymryd y cyfle i wneud hynny ym mis Mai y flwyddyn nesaf.

On the whole, Minister, your response today is a very positive one. You have announced not only that these powers will be transferred, but also the new boundaries for next year's elections. This is an opportunity, therefore, for the council to seek a new mandate next month, and that will be an opportunity for everyone, including the political parties, to make a serious attempt to restore Anglesey's reputation, and to take the opportunity to do so in May next year.

**Carl Sargeant:** I thank the local Member for Anglesey for his contribution and his support for the intervention that we have made, turning the corporate responsibility of the island around.

**Carl Sargeant:** Diolch i'r Aelod lleol dros Ynys Môn am ei gyfraniad a'i gefnogaeth i'r ymyrraeth yr ydym wedi ei gwneud, gan newid cyfrifoldeb corfforaethol yr ynys.

He is quite right to make representations and to recognise the approach that we and the council have taken in strengthening the management team, bringing in some experienced officers to support the progress of delivery for the people of Anglesey.

Mae o'n hollol iawn i wneud sylwadau ac i gydnabod y dull yr ydym ni a'r cyngor wedi cymryd i gryfhau y tîm rheoli, gan ddod â rhai swyddogion profiadol i gefnogi'r cynnydd o ran cyflawni ar gyfer pobl Ynys Môn.

He raises a similar issue to Janet Finch-Saunders, returning to the Estyn education report. The Member will recognise, as I mentioned earlier, that the Estyn report was a snapshot in time, and I pay tribute, as the Member did, to the excellent results that the students on Anglesey achieved this year. However, that does not detract from the issues in the report that Estyn produced. The council should, and will, address those issues in support of the educational board that the Minister for education has introduced.

Mae'n codi mater tebyg i'r un a godwyd gan Janet Finch-Saunders, gan ddychwelyd at adroddiad addysg Estyn. Bydd yr Aelod yn cydnabod, fel y soniais yn gynharach, fod adroddiad Estyn yn gipolwg ar gyfnod penodol, ac yr wyf yn talu teyrnged, fel y gwnaeth yr Aelod, i'r canlyniadau ardderchog a gyflawnwyd gan fyfyrwyr ar Ynys Môn eleni. Fodd bynnag, nid yw hynny'n tynnu oddi wrth y materion yn yr adroddiad a gynhyrchwyd gan Estyn. Dylai'r cyngor fynd i'r afael â'r materion hynny i gefnogi'r bwrdd addysgol y mae'r Gweinidog dros addysg wedi eu cyflwyno, ac fe fydd y cyngor yn gwneud hynny.

Working relationships between the councillors now and the new senior team are monitored closely by the commissioners. Working alongside the educational board is not unique to the island. It is happening across various other authorities, and the financial consequences that the Member raises of how the Isle of Anglesey Council delivers services on a reduced budget are the same for the 21 other authorities. A £1.7 billion reduction to Welsh Government from Westminster has a consequence for service delivery, and I believe that these challenges will show the worth of the new administration in how it is able to deal with that effectively.

Bellach mae'r berthynas waith rhwng y cynghorwyr a'r uwch dîm newydd yn cael eu monitro'n agos gan y comisiynwyr. Nid yw gweithio ochr yn ochr â'r bwrdd addysgol yn unigryw i'r ynys. Mae'n digwydd ar draws awdurdodau eraill amrywiol, ac mae'r canlyniadau ariannol y mae'r Aelod yn eu codi o sut y mae Cyngor Ynys Môn yn darparu gwasanaethau ar gyllideb lai yr un fath ar gyfer y 21 awdurdod eraill. Mae gostyngiad o £1.7 biliwn i Lywodraeth Cymru gan San Steffan yn cael canlyniad ar ddarparu gwasanaethau, ac rwyf yn credu y bydd yr heriau hyn yn dangos gwerth y weinyddiaeth newydd yn y modd y mae'n gallu ymdrin â hynny yn effeithiol.

The real test is the time between now and the elections in May. Is the administration that has been shadowing the commissioners now able to show its political worth, putting the often petty political personal battles to one side and showing that it has grown significantly into the role of making difficult decisions in the world that is the political sphere of public services? I am hopeful that that can happen. On the recommendation of the auditor general and the commissioners, it is important that we now give the island a chance to be democratically driven by the people who were elected to do that, on the right terms and conditions. I hope that they can now prove that we have made the right decision here today.

Y prawf go iawn yw'r amser rhwng nawr a'r etholiadau ym mis Mai. A yw'r weinyddiaeth sydd wedi bod yn cysgodi'r comisiynwyr bellach yn gallu dangos ei gwerth gwleidyddol, gan roi'r brwydrau personol gwleidyddol, dibwys yn aml, i'r naill ochr a dangos ei bod wedi tyfu'n sylweddol i swyddogaeth o wneud penderfyniadau anodd ym myd gwleidyddol gwasanaethau cyhoeddus? Rwy'n gobeithio y gall hyn ddigwydd. Ar argymhelliad yr archwilydd cyffredinol a'r comisiynwyr, mae'n bwysig ein bod yn awr yn rhoi cyfle i'r ynys gael ei gyrru'n ddemocrataidd gan y bobl a gafodd eu hethol i wneud hynny, ar y telerau a'r amodau cywir. Rwy'n gobeithio yn awr y gallant brofi ein bod wedi gwneud y penderfyniad iawn yma heddiw.

**Peter Black:** I also welcome the intention announced in the statement by the Minister to

**Peter Black:** Yr wyf hefyd yn croesawu'r bwriad a gyhoeddwyd yn y datganiad gan y

move towards removing the commissioners from running Anglesey council. If they have proved one thing, it is that it is not just a political grouping that can fail in education, but also Government commissioners as well, as is evident from the Estyn report. Clearly, it shows the difficulties of managing a service of that complexity, particularly in a small council, where those sorts of issues can arise.

Gweinidog i symud tuag roi diwedd ar weld y comisiynwyr yn rhedeg Cyngor Ynys Môn. Os ydynt wedi profi un peth, yr hyn a brofwyd yw nad dim ond grŵp gwleidyddol a all fethu mewn addysg, ond comisiynwyr Llywodraeth hefyd, fel sy'n amlwg o adroddiad Estyn. Yn amlwg, mae'n dangos yr anawsterau o reoli gwasanaeth mor gymhleth, yn enwedig mewn cyngor bach, lle gall y mathau hynny o faterion godi.

I am concerned about some of the language that is used in the statement before us. The Minister has just referred to the petty personal political battles that have characterised Anglesey politics, and, like him, I regret that that has been the case. Of course it is not just in Anglesey council where those sorts of battles take place. Anyone who has watched Prime Minister’s question time, or sometimes even questions to the First Minister here, can see that sometimes we can all descend to that level. I am not quite sure whether commissioners are the appropriate solution for that sort of debacle when it happens, but it appears as though Anglesey council is in better shape than it was when the commissioners went in, and so, clearly, the Minister is to be congratulated on that.

Yr wyf yn pryderu am rywfaint o'r iaith a ddefnyddir yn y datganiad sydd ger ein bron. Mae'r Gweinidog wedi cyfeirio yn unig at y mân frwydrau gwleidyddol personol sydd wedi nodweddu gwleidyddiaeth Ynys Môn, ac, fel yntau, yr wyf yn gresynu mai fel hynny y bu. Wrth gwrs, nid yn unig yng nghyngor Ynys Môn y mae’r mathau hynny o frwydrau yn digwydd. Dylai unrhyw un sydd wedi gwylio sesiwn gwestiynau’r Prif Weinidog, neu weithiau hyd yn oed gwestiynau i'r Prif Weinidog yma, weld y gallwn ni i gyd ddod i lawr i'r lefel honno weithiau. Nid wyf yn hollol siŵr ai comisiynwyr yw'r ateb priodol i’r math yna o lanast pan fydd yn digwydd, ond mae'n ymddangos fel petai Cyngor Sir Ynys Môn mewn gwell cyflwr nag yr oedd pan aeth y comisiynwyr i mewn, ac felly, yn amlwg, mae'r Gweinidog i’w longyfarch ar hynny.

However, I find a couple of comments in this statement disturbing. The Minister says

Fodd bynnag, mae un neu ddau o sylwadau yn y datganiad hwn yn peri pryder. Dywed y Gweinidog

‘We cannot know that councillors are capable of taking informed and mature decisions, or that officers are capable of supporting them, without giving them the chance to try.’

Ni allwn wybod bod cynghorwyr yn gallu cymryd penderfyniadau cytbwys ac aeddfed, neu bod swyddogion yn gallu eu cefnogi, heb roi iddynt y cyfle i roi cynnig arni.

I find that to be a dangerous value judgment, to be honest, because, at the end of the day, if the councillors are there because the people have put them there, it is not for Ministers here to make such a judgment about the elected representatives who have been put in place as a result of a democratic election, especially after next May, when a fresh mandate will be available in terms of the people of Anglesey and that council.

Yn fy marn, i mae hwn yn ddyfarniad gwerth peryglus, i fod yn onest, oherwydd, ar ddiwedd y dydd, os yw’r cynghorwyr yno am fod y bobl wedi eu rhoi nhw yno, nid mater i’r Gweinidogion yma yw llunio barn o'r fath am y cynrychiolwyr etholedig sydd wedi cael eu hethol o ganlyniad i etholiad democrataidd, yn enwedig ar ôl mis Mai nesaf, pan fydd mandad ffres ar gael o ran pobl Ynys Môn a’r cyngor hwnnw.

4.15 p.m.

Again, near the end of the statement, the

Unwaith eto, yn agos at ddiwedd y datganiad,

Minister said

‘If councillors prove able to exercise control during that period’.

Once again, that could be seen to be a judgment of the electorate and it is a strange principle that, if applied universally, would see the Welsh Government holding the hands of any new administration across Wales until it is ready to run the council. I do not think that even the Minister is prepared to go down that route at this stage, despite some of the legislation that has recently been passed. [*Interruption*.] Well, perhaps Cardiff could do with that sort of assistance.

I have a particular question on the Estyn report. The Minister referred to the reduced commissioner team and in particular to the fact that Margaret Foster and Gareth Jones have departed. As I understood it—and this is also stated on the council’s website—Gareth Jones had responsibility for education. I believe that Margaret Foster had responsibility for social services. Both of those services have been identified as having particular problems. Therefore, in the remaining period of the commissioners being in charge in Anglesey, what arrangements are in place to ensure that those two services in particular are being monitored effectively by the commission in light of the critical reports that have come out in relation to them? It is important that, if the commissioners are to retain the corporate responsibility for education and social services, there is a clear line of accountability within the commission team and that the proper arrangements are in place to ensure that that responsibility is seen through. Therefore, I would be grateful if the Minister would give me an answer to that question.

**Carl Sargeant:** I thank the Member for his contribution. I was surprised at his swipe, in the very first contribution he made, at the commissioners in light of the excellent work that they have done in turning the administration into a professional organisation in relation to the delivery of public services.

dywedodd y Gweinidog

Os yw cynghorwyr yn dangos eu bod yn gallu arfer rheolaeth yn ystod y cyfnod hwnnw.

Unwaith eto, gellid ystyried bod hynny’n farn ar yr etholwyr ac mae'n egwyddor ryfedd, fyddai, o’i defnyddio’n gyffredinol, yn gweld Llywodraeth Cymru yn dal dwylo unrhyw weinyddiaeth newydd ledled Cymru tan ei bod yn barod i redeg y cyngor. Nid wyf yn credu bod hyd yn oed y Gweinidog yn barod i fynd i lawr y llwybr hwnnw ar hyn o bryd, er gwaethaf rhywfaint o'r ddeddfwriaeth sydd wedi cael ei phasio yn ddiweddar. [*Torri ar draws*.]Wel, efallai y gallai Caerdydd wneud â'r math yna o gymorth.

Mae gennyf gwestiwn penodol ar adroddiad Estyn. Cyfeiriodd y Gweinidog at y tîm comisiynydd llai ac yn arbennig at y ffaith bod Margaret Foster a Gareth Jones wedi ymadael. Fel y deallais i’r sefyllfa - a chaiff hyn ei ddatgan hefyd ar wefan y cyngor - roedd gan Gareth Jones gyfrifoldeb am addysg. Credaf fod gan Margaret Foster gyfrifoldeb am wasanaethau cymdeithasol. Nodwyd bod problemau penodol gan y ddau wasanaeth hynny. Felly, yn y cyfnod sy'n weddill i’r comisiynwyr fod yn gyfrifol yn Ynys Môn, pa drefniadau sydd wedi’u sefydlu i sicrhau bod y ddau wasanaeth hwn yn arbennig yn cael eu monitro'n effeithiol gan y comisiwn o ystyried yr adroddiadau beirniadol sydd wedi ymddangos ynglŷn â nhw? Os bydd y comisiynwyr yn cadw'r cyfrifoldeb corfforaethol ar gyfer gwasanaethau addysg a chymdeithasol, mae'n bwysig bod llinell glir o atebolrwydd o fewn y tîm comisiynu a bod y trefniadau priodol wedi’u sefydlu i sicrhau bod y cyfrifoldeb yn cael ei gynnal i’r diwedd. Felly, byddwn yn ddiolchgar pe byddai'r Gweinidog yn rhoi ateb i'r cwestiwn hwnnw i mi.

**Carl Sargeant:** Diolch i'r Aelod am ei gyfraniad. Roeddwn yn synnu at ei ergyd, yn y cyfraniad cyntaf a wnaeth, at y comisiynwyr o ystyried y gwaith rhagorol y maent wedi'i wneud yn troi'r weinyddiaeth yn sefydliad proffesiynol ynghylch darparu gwasanaethau cyhoeddus.

With regard to the way in which the management team and the commissioners relate to the political aspect of this and manage that process, I hope that the Member will forgive me because when I made my statement, I said that I hoped that the members would be able to move to a place where they could democratically take ownership of the processes and decisions in Anglesey and the right that the people of Anglesey have given them. I did not intervene on the island because I held the view that it was the right thing to do; this was directed by the auditor general, who comes from an external body and who, I am sure, the Member would not disagree with on most things. He believed that this was the right thing to do in terms of taking away the dealings of direct intervention from the political element of the council and giving them to the commissioners. Therefore, I acted appropriately, as directed by the auditor general.

O ran y ffordd y mae'r tîm rheoli a'r comisiynwyr yn ymwneud ag agwedd wleidyddol hyn ac yn rheoli'r broses honno, yr wyf yn gobeithio y bydd yr Aelod yn maddau i mi oherwydd pan wneuthum fy natganiad, dywedais fy mod yn gobeithio y byddai'r aelodau yn gallu symud i fan lle gallent, yn ddemocrataidd, gymryd perchnogaeth o'r prosesau a'r penderfyniadau yn Ynys Môn a'r hawl y mae pobl Ynys Môn wedi ei rhoi iddynt. Nid wnes ymyrryd ar yr ynys oherwydd fy mod o'r farn mai dyma oedd y peth iawn i'w wneud; cyfarwyddwyd hyn gan yr archwilydd cyffredinol sy'n dod o gorff allanol ac sy'n rhywun, yr wyf yn sicr, na fyddai'r Aelod yn anghytuno ag ef ar y rhan fwyaf o bethau. Credai mai dyma oedd y peth iawn i'w wneud o ran symud y busnes o ymyrryd yn uniongyrchol oddi wrth elfen wleidyddol y cyngor a'i roi i'r comisiynwyr. Felly, yr wyf wedi ymddwyn yn briodol, fel y cefais fy nghyfarwyddo gan yr archwilydd cyffredinol.

Following a reinspection by the commissioners and the auditor general, we believe that this is the right time to reintroduce powers to the council. I do not know whether that will be successful, but we have to give them the opportunity to see whether they are capable of doing this. However, the big difference between giving power back to the very same people we took the power away from is the corporate responsibility of the organisation. It has changed significantly. We have a senior team that is working extremely hard to ensure that the operation that council and politics produces can be managed in the appropriate way. I am confident that that can be taken forward.

Yn dilyn ailarolygiad gan y comisiynwyr a'r archwilydd cyffredinol, credwn mai dyma'r amser iawn i ailgyflwyno pwerau i'r cyngor. Nid wyf yn gwybod a fydd yn llwyddiannus, ond mae'n rhaid i ni roi'r cyfle iddynt i weld a ydynt yn gallu gwneud hyn. Fodd bynnag, y gwahaniaeth mawr rhwng rhoi grym yn ôl i'r union bobl y cymerom ni'r pŵer oddi arnynt yw cyfrifoldeb corfforaethol y sefydliad. Mae wedi newid yn sylweddol. Mae gennym dîm uwch sy'n gweithio'n hynod o galed i sicrhau y gellir rheoli'r gwaith y mae'r cyngor a gwleidyddiaeth yn ei gynhyrchu yn y ffordd briodol. Yr wyf yn hyderus y gellir symud ymlaen â hyn.

The Member made reference to the two commissioners who are leaving the organisation having done what I believe to be a great job in turning the organisation around. The commissioners have corporate responsibility as an organisation. While Gareth had an interest in the educational aspect of the organisation, all five commissioners had corporate responsibility for the whole process. Therefore, they should all be given great support and gratitude for the work that they have done. I am hopeful

Cyfeiriodd yr Aelod at y ddau gomisiynydd sy'n gadael y sefydliad sydd wedi gwneud yr hyn y credaf oedd yn waith gwych mewn newid y sefydliad. Mae gan y comisiynwyr gyfrifoldeb corfforaethol fel sefydliad. Er bod gan Gareth ddiddordeb yn agwedd addysgol y sefydliad, roedd gan bob un o'r pum comisiynydd gyfrifoldeb corfforaethol am y broses gyfan. Felly, dylai pob un gael cefnogaeth a diolch mawr am y gwaith y maent wedi'i wneud. Yr wyf yn obeithiol y bydd y gwasanaethau bellach yn cael eu

that the services will now be delivered by the organisation, under extreme pressure because of the finances available to it and the 21 other authorities, and that it will be able to make democratic decisions; decisions made by the people elected to do that in the correct atmosphere of corporate responsibility, governed by a very experienced senior team, which I hope will be able to manage that political process much more effectively.

darparu gan y sefydliad, o dan bwysau eithafol oherwydd y cyllid sydd ar gael iddo a'r 21 awdurdod arall, ac y bydd yn gallu gwneud penderfyniadau democrataidd; penderfyniadau a wneir gan y bobl a etholwyd i wneud hynny mewn awyrgylch priodol cyfrifoldeb corfforaethol, a lywodraethir gan dîm uwch profiadol iawn, fydd, yr wyf yn gobeithio, yn gallu rheoli'r broses wleidyddol yn llawer mwy effeithiol.

**Mike Hedges:** First, I congratulate the Minister on the actions that he has taken. I wonder if there will be any apologies from those who have criticised some parts of the journey, including the election postponement. I welcome the smaller number of councillors and the movement to multi-member wards, and I suggest that the rest of Wales might benefit from that. The question that I would like to ask is this: is until the end of next May long enough? Would it not be better to wait until the first round of meetings of the new council take place before the commissioners are removed?

**Mike Hedges:** Yn gyntaf, rwy’n llongyfarch y Gweinidog ar y camau y mae wedi eu cymryd. Tybed os bydd unrhyw ymddiheuriadau gan y rhai sydd wedi beirniadu rhai rhannau o'r daith, gan gynnwys gohirio etholiad. Rwyf yn croesawu’r nifer llai o gynghorwyr a’r symudiad at wardiau aml-aelod, ac yr wyf yn awgrymu y gallai gweddill Cymru elwa ar hynny. Y cwestiwn yr hoffwn ei ofyn yw: a yw tan ddiwedd mis Mai nesaf yn ddigon o amser? Oni fyddai'n well aros tan fydd rownd cyntaf cyfarfodydd y cyngor newydd yn digwydd cyn cael gwared ar y comisiynwyr?

**Carl Sargeant:** The Member raises an important question, and I thank him for his comments. In terms of the exit profile and the caveats I mentioned in relation to being subject to compliance and non-failure of the organisation up until May, I have also asked the authority to look at how it will proceed following the May elections in terms of support and training for new councillors, and whether there is an opportunity for the council itself to perhaps look at the mentoring programme that it may wish to procure to ensure that the island has some stability in the early months of the administration post May. It is my intention, hopefully, to withdraw completely the services of the commissioners by May, but the proof is in the pudding, as they say, in terms of whether this is achievable or not. I have great confidence in the officers and workforce of Anglesey council. I hope that the political spectrum working in that environment can make a significant change when intervention by the Welsh Government ceases in May.

**Carl Sargeant:** Mae'r Aelod yn codi cwestiwn pwysig, a diolchaf iddo am ei sylwadau. O ran y proffil ymadael a’r cafeatau y soniais amdanynt ynghylch bod y sefydliad yn ddarosyngedig i gydymffurfiaeth a sicrhau nad yw’n methu tan fis Mai, rwyf hefyd wedi gofyn i'r awdurdod i edrych ar sut y bydd yn bwrw ymlaen yn dilyn etholiadau mis Mai o ran cymorth a hyfforddiant ar gyfer cynghorwyr newydd, ac a oes cyfle i'r cyngor ei hun i edrych ar y rhaglen fentora y bydd efallai’n dymuno ei chaffael er mwyn sicrhau bod gan yr ynys rywfaint o sefydlogrwydd ym misoedd cynnar y swydd weinyddol ym mis Mai. Fy mwriad, gobeithio, yw tynnu gwasanaethau’r comisiynwyr yn ôl yn llwyr erbyn mis Mai, ond amser a ddengys, fel y maent yn ei ddweud, o ran a oes modd cyflawni hyn ai peidio. Mae gennyf hyder mawr yn y swyddogion a gweithlu Cyngor Ynys Môn. Rwy'n gobeithio y gall y sbectrwm gwleidyddol sy’n gweithio yn yr amgylchedd hwnnw wneud newid sylweddol pan fydd ymyrraeth gan Lywodraeth Cymru yn dod i ben ym mis Mai.

**Mark Isherwood:** I have two questions. Given that the council has been dogged by

**Mark Isherwood:** Mae gennyf ddau gwestiwn. O ystyried bod y cyngor wedi cael

allegations since its formation in 1996 regarding senior management and corporate governance, and given the report of the Care and Social Services Inspectorate Wales in August 2011 that referred to serious failings regarding the safeguarding of children, delayed assessments, poor care management and low staff morale, why did you wait until February 2012 before acknowledging that corporate governance and senior management also needed radical reform? Given that you appointed the commissioners in March 2011 to take over the running of the council from the political, elected executive to address failings in corporate governance, what do you think that the statement made by Estyn 16 months later, in August, that

ei blagio gan honiadau ers ei ffurfio yn 1996 ynghylch uwch reolwyr a llywodraethu corfforaethol, ac o ystyried adroddiad Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ym mis Awst 2011 a oedd yn cyfeirio at fethiannau difrifol yn ymwneud â diogelu plant, asesiadau wedi'u hoedi, rheoli gofal gwael a morâl staff yn isel, pam wnaethoch chi aros tan fis Chwefror 2012 cyn cydnabod bod llywodraethu corfforaethol ac uwch reolwyr hefyd angen diwygio radical? O ystyried eich bod yn penodi comisiynwyr ym mis Mawrth 2011 i gymryd drosodd y gwaith o redeg y cyngor gan y weithrediaeth wleidyddol, etholedig i fynd i'r afael â gwendidau mewn llywodraethu corfforaethol, beth ydych chi'n credu oedd y datganiad a wnaed gan Estyn 16 mis yn ddiweddarach, ym mis Awst,

'operational leadership in the delivery of education has not driven improvements in areas of underperformance and schools and officers have not been held to account'

Nid yw arweinyddiaeth weithredol wrth gyflwyno addysg wedi sbarduno gwelliannau mewn meysydd o danberfformio ac nid yw ysgolion a swyddogion wedi cael eu dwyn i gyfrif

said about the real relationship between the senior management and those commissioners?

yn ei ddweud am y berthynas wirioneddol rhwng yr uwch reolwyr a'r comisiynwyr hynny?

**Carl Sargeant:** I thank the Member for his comments. I point the Member to the statement that I have just made in the Chamber regarding the process of introducing a new senior team. Of course, Estyn's remarks are to be noted by the council and acted upon, in support of my colleague, Leighton Andrews, in terms of the education board that is in place, and we are taking that issue seriously.

**Carl Sargeant:** Diolch i'r Aelod am ei sylwadau. Tynnaf sylw'r Aelod at y datganiad yr wyf newydd ei wneud yn y Siambr ynglŷn â'r broses o gyflwyno uwch dîm newydd. Wrth gwrs, mae sylwadau Estyn i gael eu nodi gan y cyngor a rhaid gweithredu arnynt, i gefnogi fy nghydweithiwr, Leighton Andrews, o ran y bwrdd addysg sydd wedi'i sefydlu, ac rydym yn cymryd y mater hwnnw o ddifrif.

As the Member is aware, the commissioners were put in place because of the corporate failure of the organisation, and not because of the island's service delivery mechanism, despite the fact that they had some overview of this. It is with great regret that Estyn made those comments in its report on the assessment of the education services on the island, in that there are clear failings. However, one of the senior members of the new senior management has experience in the education field and of turning a failing authority into a successful leading authority in education. This team is now in place in

Fel y mae'r Aelod yn ymwybodol, sefydlwyd y comisiynwyr oherwydd methiant corfforaethol y sefydliad, ac nid oherwydd dull darparu gwasanaeth yr ynys, er gwaethaf y ffaith eu bod wedi cael rhywfaint o drosolwg o hyn. Roedd Estyn yn gresynu'n fawr ei fod yn gwneud y sylwadau hynny yn ei adroddiad ar yr asesiad o'r gwasanaethau addysg ar yr ynys, gan fod yna ddiffygion amlwg. Fodd bynnag, mae gan un o uwch aelodau o'r uwch dîm rheoli newydd brofiad yn y maes addysg ac o droi awdurdod sy'n methu yn awdurdod blaenllaw llwyddiannus mewn addysg. Mae'r tîm hwn yn awr wedi'i

Anglesey, and I hope from that intervention that it will go from strength to strength. As I said to Janet Finch-Saunders in response to the opening questions on this statement, there is a clear difference between corporate responsibility and service delivery. I believe that the commissioners have delivered with the new team and we are now in a very different place to the position we were in 12 months ago. The island can now go from strength to strength. However, this lies with the political ownership and the professional intelligence around dealing with taking the island of Anglesey forward on a journey to be one of the most successful authorities in Wales.

sefydlu yn Ynys Môn, a gobeithiaf y bydd yn mynd o nerth i nerth oherwydd yr ymyrraeth honno. Fel y dywedais wrth Janet Finch-Saunders mewn ymateb i'r cwestiynau agoriadol ar y datganiad hwn, mae gwahaniaeth clir rhwng cyfrifoldeb corfforaethol a darparu gwasanaethau. Rwy'n credu bod y comisiynwyr wedi cyflawni gyda'r tîm newydd, ac rydym bellach mewn lle gwahanol iawn i'r sefyllfa yr oeddem ynddi 12 mis yn ôl. Gall yr ynys fynd o nerth i nerth bellach. Fodd bynnag, mae hyn yn gorwedd gyda'r berchnogaeth wleidyddol a’r wybodaeth broffesiynol ynghylch ymwneud â symud Ynys Môn yn ei blaen ar daith i fod yn un o'r awdurdodau mwyaf llwyddiannus yng Nghymru.

## Datganiad: Cynllun Llaeth—Y Wybodaeth Ddiweddaraf ar Gefnogaeth i’r Diwydiant Llaeth
## Statement: A Plan for Milk—Update on Support for the Dairy Industry

**The Deputy Minister for Agriculture, Food, Fisheries and European Programmes (Alun Davies):** The plan for milk that I announced during the Royal Welsh Show at the end of July confirmed my commitment to do everything in my power to work alongside the dairy industry to help resolve the immediate and longer term issues around the price paid for milk.

**Y Dirprwy Weinidog dros Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd (Alun Davies):** Roedd y cynllun ar gyfer llaeth a gyhoeddais yn ystod Sioe Frenhinol Cymru ddiwedd mis Gorffennaf yn cadarnhau fy ymrwymiad i wneud popeth yn fy ngallu i weithio ochr yn ochr â'r diwydiant llaeth i helpu i ddatrys y materion sydd angen sylw di-oed a ac eraill yn y tymor hwy ynghylch y pris a delir am laeth.

The Welsh Government’s programme for government specifically identifies dairy as a priority sector for attention and support. In light of recent developments, I wish to provide Members with an update on the progress made by the Welsh Government. Members will be aware that industry agreement between key players within the supply chain on a voluntary code on milk supply contracts was reached, in principle, during the Royal Welsh Show. Subsequent industry negotiation has now resulted in a formal agreement. I very much welcome this formal agreement. I have argued for some time that a voluntary agreement is in the best interests of the industry as a whole and I have vigorously supported the process that has led to this successful outcome. I expect the new code to provide greater balance and transparency in contractual arrangements and

Mae rhaglen Llywodraeth Cymru ar gyfer llywodraethu yn nodi’r sector llaeth fel blaenoriaeth ar gyfer derbyn sylw a chefnogaeth. Yng ngoleuni datblygiadau diweddar, dymunaf roi diweddariad i'r Aelodau ar y cynnydd a wnaed gan Lywodraeth Cymru. Bydd yr Aelodau'n ymwybodol bod cytundeb wedi ei gytuno mewn egwyddor yn y diwydiant, rhwng cyfranogion allweddol o fewn y gadwyn gyflenwi, ar god gwirfoddol ar gyfer contractau cyflenwi llaeth, yn ystod y Sioe Frenhinol. Mae trafodaethau dilynol yn y diwydiant wedi arwain erbyn hyn at gytundeb ffurfiol. Yr wyf yn croesawu'r cytundeb ffurfiol hwn yn fawr. Yr wyf wedi dadlau ers peth amser bod cytundeb gwirfoddol er lles gorau y diwydiant yn gyffredinol, ac yr wyf wedi cefnogi’n frwd y broses sydd wedi arwain at y canlyniad

I am sure that the industry will embrace its potential to transform the way that business is done. I also welcome the commitment that the code will be subject to monitoring and review from the outset.

llwyddiannus hwn. Yr wyf yn disgwyl y bydd y cod newydd yn darparu mwy o gydbwysedd a thryloywder mewn trefniadau cytundebol ac rwy'n siwr y bydd y diwydiant yn manteisio ar ei botensial i weddnewid y ffordd y mae busnes yn cael ei wneud.Yr wyf hefyd yn croesawu'r ymrwymiad y bydd y cod yn destun monitro ac adolygu o'r cychwyn.

My intention is to consult on some of the discretionary elements relating to producer organisations and contracts within the dairy package measures but focusing more directly on producer organisations. The consultation will begin in October and our intention is that this will run in parallel with similar consultations in other parts of the UK. It will be accompanied by a UK-wide impact assessment. My aim is to be in a position to approve producer organisations from January 2013. The consultation will also provide me with the information I require to publish draft Welsh legislation as a part of this process.

Fy mwriad yw ymgynghori ar rai o'r elfennau dewisol sy'n ymwneud â sefydliadau cynhyrchwyr a chontractau o fewn y mesurau pecyn llaeth ond canolbwyntio'n fwy uniongyrchol ar sefydliadau cynhyrchwyr. Bydd yr ymgynghoriad yn dechrau ym mis Hydref ac ein bwriad yw y bydd hyn yn rdigwydd ochr yn ochr ag ymgynghoriadau tebyg mewn rhannau eraill o'r DU. Bydd asesiad o effaith yn y Deyrnas Unedig gyfan yn gysylltiedig ag ef. Fy nod yw bod mewn sefyllfa i gymeradwyo sefydliadau cynhyrchwyr o fis Ionawr 2013 ymlaen. Bydd yr ymgynghoriad hefyd yn rhoi i mi y wybodaeth sydd ei hangen arnaf i gyhoeddi deddfwriaeth ddrafft i Gymru yn rhan o'r broses hon.

The plan for milk addresses a wide range of issues affecting the dairy supply chain. My plan was driven by the successful dairy summit I held in Aberystwyth in June and I now want to build on this in a number of ways. I will establish a dairy forum in Wales later this year. The forum will draw upon the expertise available to inform and support the Welsh Government in the future development of the dairy sector in Wales. It will have a pivotal role in connecting the Welsh Government with key people in the dairy supply chain.

Mae'r cynllun ar gyfer llaeth yn mynd i'r afael ag ystod eang o faterion sy'n effeithio ar y gadwyn cyflenwi llaeth. Sbardunwyd fy nghynllun gan yr uwchgynhadledd llaeth llwyddiannus a gynhaliais yn Aberystwyth ym mis Mehefin ac rwyf bellach yn awyddus i adeiladu ar hyn mewn nifer o ffyrdd. Byddaf yn sefydlu fforwm llaeth yng Nghymru yn ddiweddarach eleni. Bydd y fforwm hwn yn manteisio ar yr arbenigedd sydd ar gael i lywio a chefnogi Llywodraeth Cymru wrth ddatblygu’r sector llaeth yng Nghymru yn y dyfodol. Bydd ganddo swyddogaeth ganolog o ran cysylltu Llywodraeth Cymru gyda phobl allweddol yn y gadwyn cyflenwi llaeth.

I am continuing to press Ministers in the Westminster Government for the early introduction of a groceries code adjudicator to ensure fairness in the operation of the grocery supply chain code of practice and to add transparency in dealings with the larger retailers. My view is that the adjudicator should be equipped to address the issue of unfairness wherever it lies and that that must include the free-standing power to levy fines

Yr wyf yn parhau i bwyso ar Weinidogion yn Llywodraeth San Steffan i gyflwyno yn gynnar dyfarnwr cod bwydydd er mwyn sicrhau tegwch wrth weithredu’r cod ymarfer ar gyfer y gadwyn cyflenwi bwydydd ac i ychwanegu tryloywder wrth ddelio gyda'r manwerthwyr mwy o faint. Fy marn i yw y dylai'r dyfarnwr fod mewn sefyllfa i fynd i'r afael â'r mater o annhegwch lle bynnag y’i gwelir, ac mae’n rhaid i hynny gynnwys y

on those larger retailers found to be abusing the code of practice. In short, I believe that the groceries code adjudicator role needs to be stronger than the current Bill provides for, and I have written again to the Westminster Minister responsible to press these points and to request a formal meeting on this and wider aspects of the regulation of the UK supply chain.

pŵer annibynnol i ddirwyo’r manwerthwyr mawr hynny sy’n torri’r cod ymarfer. Yn fyr, yr wyf yn credu bod angen i swyddogaeth y dyfarnwr cod bwydydd fod yn gryfach nag a ddarperir ar ei gyfer yn y Mesur cyfredol, ac yr wyf wedi ysgrifennu eto at y Gweinidog sy’n gyfrifol yn San Steffan i bwysleisio’r pwyntiau hyn ac i ofyn am gyfarfod ffurfiol ar hyn ac ar agweddau ehangach ar reoleiddio cadwyn gyflenwi'r DU.

Turning to the issue of European support, Members will be aware that I continue to fight to safeguard CAP support for the agriculture industry and to represent Wales’s best interests in negotiations at UK and EU levels. Members will also be aware that discussions have taken place on the future rural development plan and how it will provide support for farmers and rural communities. These discussions are already well under way. So far, the current rural development plan has delivered some £5.6 million to dairy projects across rural Wales and levered in an additional £17.3 million of further investment. In addition, the Welsh Government is investing a further £3.3 million through the dairy supply chain efficiencies scheme to help the dairy sector with information and support to improve efficiency.

Gan droi at y mater o gymorth Ewropeaidd, bydd yr Aelodau yn ymwybodol fy mod yn parhau i frwydro i ddiogelu cymorth PAC ar gyfer y diwydiant amaethyddiaeth ac i gynrychioli buddiannau gorau Cymru mewn trafodaethau ar lefel y DU a'r UE. Bydd yr Aelodau hefyd yn ymwybodol bod trafodaethau wedi’u cynnal ar y cynllun datblygu gwledig ar gyfer y dyfodol a sut y bydd yn darparu cymorth ar gyfer ffermwyr a chymunedau gwledig. Mae'r trafodaethau hyn eisoes ar y gweill. Hyd yn hyn, mae'r cynllun datblygu gwledig presennol wedi cyflenwi tua £5.6 miliwn i brosiectau llaeth ledled cefn gwlad Cymru, a hefyd wedi denu £17.3 miliwn o fuddsoddiad pellach. Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi £3.3 miliwn arall drwy gynllun effeithlonrwydd y gadwyn gyflenwi llaeth, i helpu'r sector llaeth gyda gwybodaeth a chymorth i wella effeithlonrwydd.

4.30 p.m.

I have recently extended the Cywain project by £150,000. It provides help and support for agriculture by adding value to primary produce. Our Farming Connect programme is providing easy-to-access advice on the best ways to cut costs and increase profitability. I understand that this advice is consistently well received by farmers. I am, therefore, introducing specially tailored components for dairy farmers. There has been strong demand from dairy farmers in Wales for Farming Connect’s on-farm advice. Consequently, I have increased the number of days of support available through the whole-farm plan service. The support available from 1 October will be eight days rather than five days per farm business.

Yr wyf wedi ymestyn y prosiect Cywain yn ddiweddar drwy gyfrannu £150,000 ychwanegol. Mae'n darparu cymorth a chefnogaeth i amaethyddiaeth drwy ychwanegu gwerth at gynnyrch cynradd. Mae ein rhaglen Cyswllt Ffermio yn darparu cyngor hawdd cael gafael arno ar y ffyrdd gorau i dorri costau a chynyddu proffidioldeb. Yr wyf yn deall bod y cyngor hwn yn cael ei werthfawrogi’n gyson gan ffermwyr. Yr wyf, felly, yn cyflwyno cydrannau wedi'u teilwra'n arbennig i ffermwyr llaeth. Bu galw mawr gan ffermwyr llaeth yng Nghymru am gyngor ar y fferm Cyswllt Ffermio. O ganlyniad, yr wyf wedi cynyddu nifer y dyddiau o gymorth sydd ar gael drwy'r gwasanaeth cynllun fferm gyfan. Bydd y cymorth a fydd ar gael o 1 Hydref ymlaen yn wyth diwrnod yn hytrach na phum diwrnod ar gyfer pob busnes fferm.

The measures that I am announcing today demonstrate that the Welsh Government is taking both a practical and long-sighted approach to ensuring that the Welsh dairy industry emerges from its current difficulties in a strong position. I very much look forward to working in partnership with the dairy sector on the ongoing development and roll-out of these vitally important measures.

Mae'r mesurau yr wyf yn eu cyhoeddi heddiw yn dangos bod Llywodraeth Cymru yn cymryd agwedd ymarferol a phell gyrhaeddol i sicrhau bod y diwydiant llaeth yng Nghymru yn dod allan o’i anawsterau presennol mewn sefyllfa gref. Rwy'n edrych ymlaen yn fawr at weithio mewn partneriaeth â'r sector llaeth ar y datblygiad parhaus a chyflwyno’r mesurau hanfodol bwysig hyn.

**Andrew R.T. Davies:** Deputy Minister, thank you for your statement this afternoon. Before I speak to the statement, I acknowledge—as the Deputy Minister may want to do when he responds—the work that Jim Paice, the Minister in Whitehall, undertook, along with other devolved Ministers, in bringing this code to fruition. He led the discussions at the Royal Welsh Show and was a great supporter of the agriculture industry. He really came into his own on the issue of a sustainable milk supply market here in the United Kingdom and the European negotiations on the common agricultural policy.

**Andrew RT Davies:** Ddirprwy Weinidog, diolch i chi am eich datganiad y prynhawn yma. Cyn i mi ymateb i’r datganiad, yr wyf yn cydnabod – fel y bydd y Dirprwy Weinidog o bosib yn dymuno ei wneud pan fydd yn ymateb – y gwaith a wnaeth Jim Paice, y Gweinidog yn Whitehall, ynghyd â Gweinidogion datganoledig eraill, wrth wireddu’r cod. Fe arweiniodd y trafodaethau yn Sioe Frenhinol Cymru ac roedd yn gefnogwr pybyr o’r diwydiant amaeth. Roedd wir ar ei orau ar fater y farchnad cyflenwad llaeth cynaliadwy yma yn y Deyrnas Unedig a'r trafodaethau Ewropeaidd ar y polisi amaethyddol cyffredin.

The statement touches on a couple of points that, hopefully, will help to support the dairy industry in Wales. The establishment of the forum is nothing new; this has been done by previous Assembly Governments and now the Welsh Government is looking to undertake such an exercise. A body of opinion of experts from the field in the dairy industry to support the Deputy Minister in his decision-making process has to be welcomed. What troubles me, to a point, is that the Deputy Minister has not touched on any levers of economic development and regeneration. He is in the department led by the Minister, Edwina Hart, which has the ability to make funding available.

Mae'r datganiad yn cyffwrdd ar un neu ddau o bwyntiau a fydd, gobeithio, yn helpu i gefnogi'r diwydiant llaeth yng Nghymru. Nid yw sefydlu'r fforwm yn rhywbeth newydd; mae hyn wedi ei wneud gan Lywodraethau blaenorol y Cynulliad ac yn awr mae Llywodraeth Cymru yn edrych i gynnal ymarferiad o'r fath. Mae trwch barn arbenigwyr o'r maes diwydiant llaeth sy’n cefnogi'r Dirprwy Weinidog yn ei broses o wneud penderfyniadau i'w groesawu. Yr hyn sy'n fy mhoeni, i ryw raddau, yw nad yw'r Dirprwy Weinidog wedi crybwyll unrhyw ddulliau datblygu economaidd ac adfywio. Mae yn aelod o adran, dan arweiniad y Gweinidog, Edwina Hart, sydd â'r gallu i wneud arian sydd ar gael.

In the current reorganisation of dairy processing, we no longer have one single major dairy processing plant in the whole of south Wales. So, when you see Welsh milk on the shelves, it has, by and large, been processed in England. For example, Robert Wiseman Dairies, Arla and Dairy Crest, in their recent reorganisation and in the building of the super dairies, have chosen to build all that capacity outside Wales. When you think

Yn yr ad-drefnu cyfredol o brosesu llaeth, nid oes gennym bellach yr un ffatri prosesu llaeth fawr yn ne Cymru gyfan. Felly, pan welwch laeth o Gymru ar y silffoedd, mae wedi, fel arfer cael eu brosesu yn Lloegr. Er enghraifft, mae Robert Wiseman Dairies, Arla a Dairy Crest, yn eu had-drefnu diweddar, ac wrth adeiladu llaethdai mawr, wedi dewis adeiladu bob un ohonynt y tu allan i Gymru. Pan fyddwch yn meddwl am faint maes llaeth

of the size of the Welsh dairy field, it really is surprising that we have not been more successful in attracting that type of development, which not only enables added value in the Welsh dairy industry, but also creates a large number of jobs that are ancillary to the dairy industry. So, I would be grateful to hear whether the Deputy Minister has any thoughts on how he, and the department, are able to take forward the initiative to bring some capacity back into Wales, because that really is a plank that needs to be looked at.

Cymru, mae'n wir yn syndod nad ydym wedi bod yn fwy llwyddiannus wrth ddenu y math hwnnw o ddatblygiad, sydd nid yn unig yn galluogi ychwanegu gwerth yn y diwydiant llaeth yng Nghymru, ond hefyd yn creu nifer fawr o swyddi sy'n atodol i'r diwydiant llaeth. Felly, byddwn yn ddiolchgar i glywed a oes gan y Dirprwy Weinidog unrhyw syniadau ar sut y bydd ef, a'r adran, yn gallu bwrw ymlaen â'r fenter i ddod â rhywfaint o waith o’r fath yn ôl i Gymru, gan ei fod wir yn un o’r elfennau y mae angen edrych arnynt .

The statement also touched on the rural development plan. There are many levers within the rural development plan that afford assistance to many rural businesses. There is concern at the moment, given the negotiations going on in Brussels, that there could be a delay in the implementation of the next seven-year window of the common agricultural policy. Does he have any more information with which to enlighten us as to the potential difficulties that that would cause for the rural development plan and the measures of support that he has brought forward in this statement? Obviously, funding is due to come to an end in this current envelope on 1 January 2014 and many people think that there could be as much as a 12-month delay. We do not want to start a level of support and then find that you have to stop it mid-term. I know that the industry would be very grateful to understand the Deputy Minister’s thinking about the timetable for the implementation of the next rural development plan.

Crybwyllodd y datganiad hefyd y cynllun datblygu gwledig. Mae llawer o ysgogiadau o fewn y cynllun datblygu gwledig sy’n cynnig cymorth i nifer o fusnesau gwledig. Mae pryder ar hyn o bryd, o ystyried y trafodaethau sy'n mynd ymlaen ym Mrwsel, y gallai fod oedi yn y broses o weithredu’r cyfnod saith mlynedd nesaf y polisi amaethyddol cyffredin. A oes ganddo fwy o wybodaeth i’n goleuo ynglŷn â'r anawsterau posibl y byddai hynny'n ei achosi ar gyfer y cynllun datblygu gwledig a'r mesurau cymorth y mae wedu eu dwyn ymlaen yn y datganiad hwn? Yn amlwg, mae arian yr amlen cyfredol i ddod i ben ar 1 Ionawr 2014 ac mae llawer o bobl yn meddwl y gallai fod cymaint â 12 mis o oedi. Nid ydym eisiau cychwyn lefel o gefnogaeth ac yna darganfod bod yn rhaid ei atal ganol-tymor. Gwn y byddai'r diwydiant yn ddiolchgar iawn i allu deall bwriadau’r Dirprwy Weinidog ar gyfer amserlen gweithredu'r cynllun datblygu gwledig nesaf.

Recently, we have seen some real and significant improvements in the dairy market. We had the reinstatement of the 2p cut that was going to come forward on 1 August. This is something that has not happened before and I think that that was a credit to all involved in the campaign to put a fair price at the farm gate as a fair price on the shelf in the supermarket. We are also seeing a concentration of dairy into larger units, and one thing that constantly causes a problem is the issue of planning and environmental controls. Again, these issues are the responsibility of the Welsh Government and I note that the Deputy Minister did not touch on any of that in his statement, although he

Yn ddiweddar, rydym wedi gweld gwelliannau gwirioneddol a sylweddol yn y farchnad laeth. Gwelsom ddileu’r toriad o 2c a oedd yn mynd i ddigwydd ar 1 Awst. Mae hyn yn rhywbeth na welwyd o'r blaen ac yr wyf yn meddwl bod hynny'n glod i bawb a fu’n ymwneud â'r ymgyrch i roi pris teg wrth gât y fferm fel y pris teg ar y silff yn yr archfarchnad. Rydym hefyd yn gweld crynhoad o laeth i unedau mwy o faint, ac un peth sy'n achosi problem gyson yw’r mater o reolaeth cynllunio ac amgylcheddol. Unwaith eto, cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw’r materion hyn, a nodaf na wnaeth y Dirprwy Weinidog grybwyll unrhyw beth ynglŷn â hynny yn ei ddatganiad, er iddo gyfeirio at

did refer to new ways of working. If we are to have a modern, twenty-first century dairy industry in Wales, we need a processing sector that reflects the new environment and we also need a regulatory regime that responds to the type of dairy enterprises that we need to create employment in rural communities and to sustain that employment. Thank you for your statement, Deputy Minister, and I look forward to your answers.

ffyrdd newydd o weithio. Os ydym am gael diwydiant llaeth modern ac addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain yng Nghymru, mae arnom angen sector prosesu sy'n adlewyrchu’r amgylchedd newydd ac rydym hefyd angen trefn reoleiddio sy'n ymateb i'r math o fentrau llaeth yr ydym eu hangen i greu swyddi yng nghymunedau cefn gwlad ac i gynnal y swyddi hynny. Diolch i chi am eich datganiad, Ddirprwy Weinidog, ac edrychaf ymlaen at eich atebion.

**Alun Davies:** I thank the leader of the opposition for that generally positive response to the statement. I will start with his final point on issues around planning and environmental controls. The Minister is present in his seat this afternoon and will have heard those points; I am sure that he will reply in due course. Having said that, I will join you—I would not normally, because I do not think that it is my place to comment upon the decisions of the UK Government in terms of ministerial appointments—in the comments that you made about Jim Paice. I worked alongside him and, while we come from very different political traditions, I recognise the work that he did, not only on the dairy issue, but on wider issues on CAP. I sat alongside him in negotiations on many occasions, and I was always impressed by the way in which he addressed the issues in front of us and the way in which he was prepared to work alongside me as a Welsh Minister and others. Therefore, I pay tribute to the work that Jim Paice did over the last few months, and also more generally in his position as a Department for Environment, Food and Rural Affairs Minister prior to the recent reshuffle.

**Alun Davies:** Diolch i arweinydd yr wrthblaid am yr ymateb cyffredinol gadarnhaol i'r datganiad. Yr wyf am ddechrau gyda’i bwynt olaf ar faterion yn ymwneud â rheolaeth cynllunio ac amgylcheddol. Mae'r Gweinidog yn bresennol yn ei sedd y prynhawn yma, a bydd wedi clywed y pwyntiau hynny; Yr wyf yn siŵr y bydd yn ymateb maes o law. Wedi dweud hynny, mi wnaf ymuno â chi - ni fyddwn fel arfer, oherwydd nid wyf yn credu mai fy lle i yw rhoi sylwadau ar benderfyniadau Llywodraeth y DU o ran penodiadau gweinidogol - yn y sylwadau a wnaethoch am Jim Paice. Gweithiais ochr yn ochr ag ef, ac er ein bod yn dod o draddodiadau gwleidyddol gwahanol iawn, yr wyf yn cydnabod y gwaith a wnaeth, nid yn unig ar y mater llaeth, ond ar faterion ehangach y PAC. Eisteddais ochr yn ochr ag ef mewn trafodaethau ar sawl achlysur, ac roeddwn yn rhyfeddu bob amser at y ffordd yr oedd yn mynd i’r afael â'r materion ger ein bron a'r ffordd yr oedd yn barod i weithio ochr yn ochr â mi fel un o Weinidogion Cymru ac eraill. Felly, talaf deyrnged i'r gwaith a wnaeth Jim Paice dros y misoedd diwethaf, a hefyd yn fwy cyffredinol yn ei swydd fel Gweinidog Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig cyn yr ad-drefnu diweddar.

In terms of where we are at the moment, I have been clear that I want us to be industry led in the way that we approach support for, in this case, the dairy sector. The reason why we held the summit in June was to listen to voices from the industry. Rather than me, as Deputy Minister, or Government officials telling the industry of the support that we would give them, we wanted to turn that on its head and talk to the industry about the sort of support that it needed and required. We

O ran ble yr ydym ar hyn o bryd, yr wyf wedi bod yn glir fy mod am i ni gael ein harwain gan y diwydiant o ran y ffordd yr ydym yn ymdrin â chymorth, yn yr achos hwn, ar gyfer y sector llaeth. Y rheswm y cynhaliwyd yr uwchgynhadledd ym mis Mehefin oedd er mwyn gwrando ar leisiau o’r diwydiant. Yn hytrach na fy mod i, fel Dirprwy Weinidog, neu swyddogion y Llywodraeth yn dweud wrth y diwydiant pa gefnogaeth y byddem yn ei rhoi iddynt hwy, roeddem yn awyddus i

started this process before the recent crisis on prices, but I am very clear that I want us as a Government to use all the tools available to us to sustain the industry in its totality—on farm, but also through processing and through to retail—to ensure that all elements of the supply chain derive a fair profit. We as a Government will do all in our power to ensure that that added value remains in Welsh communities and also helps with the wider economic impact and sustainability of the industry as a whole.

wrthdroi hynny a siarad â'r diwydiant am y math o gefnogaeth y maent ei hangen ac sy'n ofynnol. Dechreuwyd y broses hon cyn yr argyfwng diweddar ar brisiau, ond yr wyf yn glir iawn fy mod am i ni fel Llywodraeth ddefnyddio'r holl ddulliau sydd ar gael i ni i gynnal y diwydiant yn ei gyfanrwydd – ar y fferm, ond hefyd drwy brosesu ac ymlaen at adwerthu - i sicrhau bod pob elfen o'r gadwyn gyflenwi yn cael elw teg. Byddwn ni fel Llywodraeth yn gwneud popeth yn ein gallu i sicrhau bod y gwerth ychwanegol yn aros yng nghymunedau Cymru a hefyd yn helpu gyda'r effaith economaidd ehangach a chynaliadwyedd y diwydiant yn ei gyfanrwydd.

In your comments, you talked about the additional levers and funding arrangements available through other elements of the Welsh Government. Dairy processors have the same access to those instruments of support as any other sector and any other business. In the food division and in the support that we provide directly to dairy, we will ensure that a major producer that seeks support in any way will receive all the support that is necessary from whatever part of the Welsh Government that will provide that support. Therefore, you will see, although it was not directly referred to in my statement this afternoon, that all dairy processors and businesses that form part of the supply chain will have access to any additional support that the Government is able to provide.

Yn eich sylwadau, soniasoch am yr ysgogiadau a'r trefniadau cyllid ychwanegol sydd ar gael trwy elfennau eraill o Lywodraeth Cymru. Mae'r dulliau cefnogi hynny ar gael yn yr un modd i broseswyr llaeth ag y maent i unrhyw sector arall ac unrhyw fusnes arall. Yn yr adran bwyd ac yn y cymorth yr ydym yn ei ddarparu yn uniongyrchol i laeth, byddwn yn sicrhau y bydd prif gynhyrchydd sy'n ceisio unrhyw fath o gymorth yn derbyn yr holl gefnogaeth y mae ei angen o ba bynnag ran o Lywodraeth Cymru a fydd yn darparu'r cymorth hwnnw. Felly, byddwch yn gweld, er na chyfeiriwyd yn uniongyrchol ato yn fy natganiad y prynhawn yma, y bydd unrhyw gymorth ychwanegol y mae'r Llywodraeth yn gallu ei ddarparu ar gael i'r holl broseswyr llaeth a busnesau sy'n ffurfio rhan o'r gadwyn gyflenwi

I agree with what you said about the structure of processing and of the industry in the United Kingdom. It is the objective of this Government that as much added value as possible remains in Wales and for us to be able to increase economic impact of the industry in Wales.

Cytunaf â'r hyn a ddywedasoch am strwythur y prosesu a'r diwydiant yn y Deyrnas Unedig. Amcan y Llywodraeth hon yw bod cymaint o werth ychwanegol â phosibl yn aros yng Nghymru a'n bod ni'n gallu cynyddu effaith economaidd y diwydiant yng Nghymru.

You made some points about the RDP, and you will be aware that I have established an advisory group to look at the new RDP. Peter Davies is chairing and leading that process. Any comments that you would wish to make on what we are currently doing or what you believe that we should be doing to support dairy under the RDP can be made either to me or to Peter directly.

Gwnaethoch rai pwyntiau am y Cynllun Datblygu Gwledig, a byddwch yn ymwybodol fy mod wedi sefydlu grŵp ymgynghorol i edrych ar y Cynllun Datblygu Gwledig newydd. Peter Davies yw'r cadeirydd a fe sy'n arwain y broses honno. Gellir cynnig unrhyw sylwadau yr ydych yn dymuno eu gwneud ar yr hyn rydym eisoes yn ei wneud neu'r hyn yr ydych yn ei gredu y

dylem fod yn ei wneud i gefnogi llaeth o dan y Cynllun Datblygu Gwledig, naill ai i mi neu i Peter yn uniongyrchol.

In terms of the delays of implementation and the current status of debate and discussions on CAP, we had a good meeting of the Council of Ministers yesterday in Brussels, which took forward discussions on the future shape of the less favoured area and the area of natural constraint. Clearly, there are conversations taking place around the ability of the EU institutions under the new Lisbon processes to deliver agreement and new legislative text in time for us to deliver a new CAP in 2014. That is clearly and self-evidently the case. We are having conversations about how that will be handled, and the situation that we will be in. I hope that Members will forgive me if I do not go far down that path this afternoon. I would not seek to mislead Members, and we are still very much in the preliminary stages of conversations about that, but it is something of which we are aware, and it is something that figures in conversation.

O ran yr oedi o ran gweithredu a statws presennol y ddadl a thrafodaethau ar y PAC, cawsom gyfarfod da o Gyngor y Gweinidogion ym Mrwsel ddoe, a ddygodd drafodaethau ymlaenam siâp dyfodol ardaloedd llai ffafriedig ac ardaloedd lle ceir cyfyngiad naturiol. Yn amlwg, mae sgyrsiau yn cael eu cynnal ynglŷn â gallu sefydliadau'r UE o dan y prosesau Lisbon newydd i ddarparu cytundeb a thestun deddfwriaethol newydd mewn pryd i ni ddarparu CAP newydd yn 2014. Dyna'n amlwg ac yn hunanamlwg yw'r achos. Yr ydym yn cael sgyrsiau ynglŷn â sut y byddwn yn ymdrin â hynny, a'r sefyllfa y byddwn ynddi. Gobeithiaf y gwnaiff yr Aelodau faddau i mi os na fyddaf yn mynd yn bell i lawr y llwybr hwnnw y prynhawn yma. Ni fyddwn yn dymuno camarwain Aelodau, ac rydym yn dal i fod yn y camau cychwynnol o sgyrsiau am hynny, ond mae'n rhywbeth yr ydym yn ymwybodol ohono, ac mae'n rhywbeth sy'n rhan o sgyrsiau.

In closing, I will say to the leader of the opposition that perhaps the best contribution that he could make to expedite this process would be to speak to his colleagues in the UK Government and encourage them to reach agreement on the overall EU budget, either at the special summit in November or at the European Council in December.

Wrth gloi, hoffwn ddweud wrth arweinydd yr wrthblaid mai efallai'r cyfraniad gorau y gallai wneud i hwyluso'r broses hon fyddai siarad â'i gydweithwyr yn Llywodraeth y DU a'u hannog i ddod i gytundeb ar gyllideb gyffredinol yr UE, naill ai yn yr uwchgynhadledd arbennig ym mis Tachwedd neu yn y Cyngor Ewropeaidd ym mis Rhagfyr.

**Yr Arglwydd Elis-Thomas:** Hoffwn innau hefyd ddiolch yn fawr heddiw i'r Dirprwy Weinidog am ei gyfraniad i'r drafodaeth sy'n cael ei chynnal ledled y Deyrnas Unedig ynglŷn â'r diwydiant llaeth a pholisi llaeth. Hoffwn gytuno hefyd ag arweinydd y Ceidwadwyr Cymreig—a hynny o'm sedd newydd, sydd ychydig yn nes ato—ynghlych ei sylwadau am Jim Paice. Bu Jim Paice yma gerbron ein pwyllgor ni, a bu'n ymwneud â'r Cynulliad Cenedlaethol, ac roedd ei ymwneud â'r Cynulliad bob amser yn bositif.

**Lord Elis-Thomas:** I, too, would like to thank the Deputy Minister for his contribution to the debate across the UK on the dairy industry and dairy policy. I would also like to agree with the leader of the Welsh Conservatives—from my new seat, which is slightly closer to him—on his comments about Jim Paice, who appeared before our committee and who had dealings with the National Assembly. His dealings with the Assembly were always positive.

Yn ystod yr haf, bu'n bleser i lawer ohonom gael y cyfle, wrth ymweld â sioeau amaethyddol ar hyd a lled y wlad, i siarad o ddifrif â chynrychiolwyr y diwydiant. Yn

Over the summer, it has been a pleasure for many of us, while visiting agricultural shows across the country, to talk in depth to industry representatives. Naturally, I have the

naturiol, mae gennyf y fraint o gynrychioli llywyddion Undeb Amaethwyr Cymru ac Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr yng Nghymru, ac rwyf yn eu gweld yn eithaf aml. Roedd yn braf iawn mynd i sir Benfro a chwrdd â Mansel Raymond yn ei gynefin, a chlywed ei farn arbenigol, fel un sydd wedi bod yn cynrychioli'r diwydiant llaeth yng Nghymru a Lloegr.

privilege of representing the presidents of the FUW and the NFU in Wales, and I see them relatively often. It was very good to go to Pembrokeshire and to meet Mansel Raymond on his own patch and to hear his expert opinion, as one who has represented the dairy industry in England and Wales.

Mae'r ddau gwestiwn yr hoffwn eu gofyn i'r Dirprwy Weinidog fel a ganlyn. Yn ei ddatganiad, canolbwyntiodd y Dirprwy Weinidog ar bwysigrwydd posibl y cam o sefydlu cyrff newydd ar gyfer cynhyrchwyr yng Nghymru. Credaf ei bod yn bwysig, os yw'n bosibl, inni gael cydweithrediad gwleidyddol ar draws y pleidiau yn y lle hwn ar y mater hwn. Gallai'r mater hwn fod yn hollol allweddol i'r diwydiant. Gwn fod y Dirprwy Weinidog wedi sôn yn y gorffennol am fodel tebyg i Hybu Cig Cymru i'r diwydiant llaeth. Nid ydym yn y sefyllfa honno bellach. Rydym wedi symud ymlaen. Felly, credaf fod y cyfle hwn i gryfhau lle'r cynhyrchwyr yn y farchnad yn un allweddol.

The two questions that I wanted to ask the Deputy Minister are as follows. In his statement, he concentrated on the importance of establishing new bodies for producers in Wales. I think that it is important, if possible, for us to get co-operation across parties in this place on this issue. This issue could be vitally important for the industry. I know that the Deputy Minister has spoken in the past of a model similar to Hybu Cig Cymru for the dairy industry. That is not where we are now. We have progressed. Therefore, I believe that the opportunity here to strengthen the role of producers in the market is key.

Gŵyr y Dirprwy Weinidog hefyd am fy niddordeb arbennig yn y diwydiant caws. Mae'n fraint i mi gynrychioli hufenfa sydd nid yn unig yn cynhyrchu menyn a chaws, ond yn gwneud hynny'n hynod lwyddiannus, gan ddefnyddio'r brand 'Dragon'. Credaf fod gennyf yr hawl i hysbysebu rhai cynhyrchion Cymreig yn y lle hwn. Gobeithiaf y bydd y Dirprwy Weinidog a Llywodraeth Cymru yn gallu cefnogi unrhyw fwriad sydd gan y cwmni hwn i gryfhau ei sefyllfa yn y farchnad. Hwn yw'r cwmni cynhyrchu llaeth sydd gennym yng Nghymru sy'n gwneud hyn yn effeithlon.

The Deputy Minister knows of my particular interest in the cheese industry. I have the privilege of representing a creamery that not only produces cheese and butter, but does so extremely successfully, under the 'Dragon' brand. I think that I am allowed to advertise certain Welsh products in this place. I hope that the Deputy Minister and the Welsh Government will be able to support any intentions by this company to strengthen its position in the market. This is the main Welsh dairy producer, which works efficiently.

Cytunaf ag arweinydd y Ceidwadwyr Cymreig hefyd ei bod yn hen bryd inni botelu llaeth Cymreig yng Nghymru—neu, o leiaf ei roi mewn cartonau. Cymeradwyaf yn fawr yr hyn y mae Richard Arnold a'r cyfeillion yn ceisio ei wneud yn sir Gaerfyrddin, a gobeithiaf y gwelwn hynny'n tyfu.

I also agree with the leader of the Welsh Conservatives that it is about time that we bottled Welsh milk in Wales—or at least put it in cartons. I applaud what Richard Arnold and colleagues are trying to do in Carmarthenshire, and I hope that we see that develop.

**Alun Davies:** Diolch ichi am eich sylwadau, a diolch ichi hefyd am y gwaith a wnaed gan y pwyllgor ar y mater hwn, nid yn unig dros yr haf ond cyn hynny hefyd.

**Alun Davies:** Thank you for your comments, and thank you for the work that the committee has done on this issue, not only over the summer but before that, too.

Gwn eich bod, fel un sy’n cynrychioli arweinwyr y ddau undeb ar hyn o bryd, yn trafod y materion hyn yn fanwl pan fyddwch yn eich etholaeth a phan fyddwch yma. Byddwn yn hapus iawn i gynnal pa bynnag drafodaethau trawsbleidiol yr ydych yn dymuno eu gweld. Pe byddai’r pwyllgor yn gofyn imi ymddangos ger ei fron i drafod y broses ymgynghori y byddaf yn ei harwain yn ystod y misoedd nesaf, byddwn yn hapus iawn i wneud hynny.

I know that you, as the Member who represents the current leaders of both unions, discuss these issues in depth when you are in your constituency, as well as when you are here. I would be very happy to hold whatever cross-party discussions you wish to see. If the committee invited me to appear before it to discuss the consultation process that I will be leading over the coming months, I would be very happy to do so.

4.45 p.m.

Rwyf wedi rhoi cryn bwyslais yn y datganiad hwn ar sut y gall ffermwyr gydweithio ar gyfer dyfodol y diwydiant. Rydych yn hollol iawn yn eich dadansoddiad o’r ffordd yr ydym wedi symud yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac efallai fod rhaid yn awr, nid newid gêr, ond newid cyfeiriad. Felly, rwy’n hapus iawn i ystyried pa bynnag fath o fforwm y gallwn ei greu yma yn y Senedd, neu unrhyw fformat arall, i sicrhau bod pobl yn gallu cyfrannu eu syniadau i’r broses yr ydym yn ei dechrau.

I have placed a great deal of emphasis in this statement on how farmers can collaborate for the future of the industry. You are quite rights in your analysis of the direction in which we have been moving during the last year, and perhaps there is now a need, not to change gear, but to change direction. Therefore, I am very happy to consider any sort of forum that we could create here in the Senedd, or any other format, to ensure that people can contribute their ideas to the process that we are commencing.

Gwnaethoch sôn am fusnesau yn eich etholaeth chi, ac mae’n bwysig mai diben y gwaith hwn yw cryfhau’r diwydiant. Rwyf wastad wedi trio pwysleisio’r diwydiant a’r gadwyn yn eu cyfanrwydd. Rydym yn sôn am ffermwyr, ac mae hynny’n bwysig ac yn naturiol, fel y byddech yn disgwyl, ond rhaid hefyd beidio ag anghofio’r proseswyr, a sicrhau y gallwn ychwanegu gwerth i’r hyn yr ydym yn ei gynhyrchu yng Nghymru. Felly, rwy’n cytuno â’r pwyntiau yr ydych wedi eu gwneud, ac efallai y byddaf yn ysgrifennu atoch, fel Cadeirydd y pwyllgor, wrth inni ddechrau’r broses ymgynghori, i awgrymu ffordd ymlaen i sicrhau bod y pwyllgor ac Aelodau yn gallu cyfrannu at hynny.

You mentioned businesses in your constituency, and it is important that the purpose of this work is to strengthen the industry. I have always tried to emphasise the industry and the supply chain as a whole. We are talking about farmers, and that is important and natural, as you would expect, but we must also not forget the processors, and ensure that we can add value to what we produce in Wales. Therefore, I agree with the points that you have made, and perhaps I will write to you, as the Chair of the committee, as we commence the consultation process, to suggest a way forward to ensure that the committee and Members are able to contribute to that.

**Vaughan Gething:** I welcome your statement, Deputy Minister, and in particular your support for a stronger grocery adjudicator. However, I want to ask a question that builds on some of the points made earlier about the future for producer organisations and, in particular, about the potential in future for co-operative organisations to return. We know that this sector has a history of forming co-operative

**Vaughan Gething:** Croesawaf eich datganiad, Ddirprwy Weinidog, ac yn enwedig eich cefnogaeth dros gael dyfarnwr bwydydd cryfach. Fodd bynnag, dymunaf ofyn cwestiwn sy'n datblygu rhai o'r pwyntiau a wnaed yn gynharach am y dyfodol ar gyfer sefydliadau cynhyrchwyr ac, yn benodol, am y posibilrwydd yn y dyfodol i gymdeithasau cydweithredol ddychwelyd. Rydym yn gwybod bod gan y sector hwn

bodies that been successful over time, although some of those have, of course, now come to an end. I want to ask about the future of the dairy industry and any steps that have already been taken to plan for a successful and profitable future when milk quotas come to an end in 2015.

hanes o ffurfio cyrff cydweithredol sydd wedi bod yn llwyddiannus dros gyfnod, er bod rhai o'r rheiny, wrth gwrs, wedi dod i ben erbyn hyn. Yr wyf eisiau gofyn am ddyfodol y diwydiant llaeth ac unrhyw gamau sydd eisoes wedi eu cymryd i gynllunio ar gyfer dyfodol llwyddiannus a phroffidiol pan fydd cwotâu llaeth yn dod i ben yn 2015.

**Alun Davies:** It will come as no surprise that Vaughan and I are both members of the Co-operative Party and that we will always seek co-operative solutions to many of the problems facing different parts of society.

**Alun Davies:** Ni fydd yn peri syndod bod Vaughan a minnau yn aelodau o'r Blaid Gydweithredol ac y byddwn bob amser yn chwilio am atebion cydweithredol i lawer o'r problemau sy'n wynebu gwahanol rannau o gymdeithas.

We have learnt many things over the last few months, and one of the most important lessons is perhaps how successful the industry can be when people work together. One lesson in particular that I drew out during the debate that we had at the beginning of the summer was the strength of the industry when it speaks with a single voice and when it is able to work together coherently. One of the lessons that we need to learn is that if farmers work together, they are far stronger than when working alone. As a Government, we need to find ways of ensuring that we can create the structures that will enable that to happen. The EU dairy package provides us with the means of doing so. The consultation that I intend to launch next month will, I hope, spark a debate about how we do this, the structures that can be put in place, the ways in which this Government can support that process, and how farmers themselves believe the industry can be structured going forward.

Rydym wedi dysgu llawer o bethau dros y misoedd diwethaf, ac un o'r gwersi pwysicaf efallai yw pa mor llwyddiannus y gall y diwydiant fod pan fydd pobl yn gweithio gyda'i gilydd. Un wers yn arbennig y tynnais sylw ati yn ystod y ddadl a gawsom ar ddechrau'r haf, oedd cryfder y diwydiant pan ei fod yn siarad gydag un llais a phan y mae'n gallu cydweithio mewn modd cydgysylltiol. Un o'r gwersi y mae angen i ni ei dysgu yw, pan fo ffermwyr yn gweithio gyda'i gilydd, maent yn llawer cryfach nag wrth weithio ar eu pennau eu hunain. Fel Llywodraeth, mae angen i ni ddod o hyd i ffyrdd o sicrhau y gallwn greu'r strwythurau a fydd yn galluogi hyn i ddigwydd. Mae pecyn llaeth yr UE yn rhoi’r modd i ni wneud hynny. Bydd yr ymgynghoriad yr wyf yn bwriadu ei lansio y mis nesaf, gobeithio, yn cychwyn dadl am sut y byddwn yn gwneud hyn, y strwythurau y gellir eu rhoi ar waith, y ffyrdd y gall y Llywodraeth hon gefnogi'r broses honno, a theimladau’r ffermwyr eu hunain ynglŷn â sut y dylid strwythuro’r diwydiant wrth symud ymlaen.

The challenges that have been outlined by the Member for Cardiff South and Penarth are absolutely real, but we will find ways forward during the next few months. However, the real challenge facing us through the creation of producer organisations will be in shaping the industry so that it will be successful in the future. It is happening in other countries—some of them close to us—and unless we are able to create the structures within the industry to succeed, we will not have learnt the correct lessons from the price difficulties faced over the last

Mae'r heriau a amlinellwyd gan yr Aelod dros Dde Caerdydd a Phenarth yn gwbl real, ond byddwn yn dod o hyd i ffyrdd ymlaen yn ystod y misoedd nesaf. Fodd bynnag, y gwir her sy'n ein hwynebu drwy greu sefydliadau cynhyrchwyr, fydd llunio'r diwydiant fel y bydd yn llwyddiannus yn y dyfodol. Mae'n digwydd mewn gwledydd eraill - rhai ohonynt yn agos atom ni - ac oni bai ein bod yn gallu creu’r strwythurau o fewn y diwydiant er mwyn llwyddo, ni fyddwn wedi dysgu'r gwersi cywir o'r anawsterau o ran prisiau a wynebwyd dros y misoedd

few months.

diwethaf.

**William Powell:** I join colleagues around the chamber in welcoming the success that was spearheaded by the UK Government in the heady days of the Royal Welsh Show. I pay tribute to the Deputy Minister for the energy that he brought to that process, and I join Lord Dafydd Elis-Thomas and Andrew R.T. Davies in celebrating the role played by Jim Paice in making that possible. We are in a trade that can be rough at times and, on this occasion, Jim Paice has felt the effects of that. For many years the Welsh dairy industry, and indeed that of the UK, has been facing a series of difficult economic challenges. This summer’s agreement takes some important steps towards addressing that. However, we must not become complacent in believing that the single agreement that has now been made is a panacea for the industry’s ills. However, it is a first step. This, together with the rural development plan investment and the increased commitment to Farming Connect, will actually play an important part in this matter.

**William Powell:** Rwyf yn ymuno â chydweithwyr o amgylch y siambr i groesawu'r llwyddiant a arweiniwyd gan Lywodraeth y DU ar ddiwrnodau tanbaid Sioe Frenhinol Cymru. Talaf deyrnged i'r Dirprwy Weinidog am yr egni a ddangosodd wrth ymdrin â’r broses honno, ac yr wyf yn ymuno â'r Arglwydd Dafydd Elis-Thomas ac Andrew R.T. Davies wrth ddathlu swyddogaeth Jim Paice o ran gwneud hynny'n bosibl. Rydym mewn busnes masnachu a all fod yn anodd ar adegau ac, ar yr achlysur hwn, mae Jim Paice wedi teimlo effeithiau hynny. Ers nifer o flynyddoedd, mae’r diwydiant llaeth yng Nghymru, ac yn wir un y DU, wedi wynebu cyfres o heriau economaidd anodd. Mae cytundeb yr haf hwn yn cymryd rhai camau pwysig tuag at fynd i'r afael â hynny. Fodd bynnag, rhaid inni beidio â llaesu dwylo a chredu bod y cytundeb unigol sydd bellach wedi ei wneud yn ateb pob problem sydd yn y diwydiant. Fodd bynnag, mae'n gam cyntaf. Bydd hyn, ynghyd â buddsoddiad y cynllun datblygu gwledig, a mwy o ymrwymiad i Cyswllt Ffermio, mewn gwirionedd yn chwarae rhan bwysig yn y mater hwn.

However, there are a couple of questions of detail that I would like to take up with the Deputy Minister. First, Deputy Minister, do you support the dairy coalition’s call for money that was lost during the summer period to be reinstated to farmers? Clearly, they have been experiencing significant cash-flow problems, which have put their businesses in a bad place. Also, how will you be acting to assist with the monitoring of the voluntary code at a Welsh level? How do you envisage that we can work together across parties to develop specific Welsh elements of the code? Recently, as part of your ongoing work, you had the opportunity, I believe, to meet your opposite number, the Irish Minister for Agriculture, Food and the Marine, during your visit last week. Did you have the opportunity to raise these issues on that occasion? Are there any specific examples that can assist us that have worked in the Republic of Ireland?

Fodd bynnag, mae un neu ddau o gwestiynau ynglŷn â’r manylion yr hoffwn eu gofyn i'r Dirprwy Weinidog. Yn gyntaf, Ddirprwy Weinidog, a ydych yn cefnogi galwad y cynghrair llaeth am arian a gollwyd yn ystod cyfnod yr haf i gael ei roi yn ôl i ffermwyr? Yn amlwg, maent wedi bod yn profi problemau llif arian sylweddol, sydd wedi rhoi eu busnesau mewn sefyllfa wael. Hefyd, beth a fyddwch yn ei wneud i gynorthwyo gyda monitro’r cod gwirfoddol ar lefel Cymru? Sut ydych chi'n rhagweld y gallwn weithio gyda'n gilydd ar draws y pleidiau i ddatblygu elfennau penodol Gymreig o'r cod? Yn ddiweddar, yn rhan o'ch gwaith parhaus, cawsoch y cyfle, yr wyf yn credu, i gyfarfod â’ch swyddog cyfatebol, y Gweinidog Bwyd Amaeth a'r Môr, yn Iwerddon, yn ystod eich ymweliad yr wythnos diwethaf. A wnaethoch chi gael y cyfle i godi'r materion hyn ar yr achlysur hwnnw? A oes unrhyw enghreifftiau penodol a all fod o gymorth i ni sydd wedi gweithio yng Ngweriniaeth Iwerddon?

I acknowledge the significant importance of

Yr wyf yn cydnabod pwysigrwydd sylweddol

the forthcoming consultation on dairy producer groups. Is the Deputy Minister confident that he will be able to approve the successful producer organisations by January? If so, that would be a powerful message at the beginning of next year.

o'r ymgynghoriad arfaethedig ar grwpiau cynhyrchwyr llaeth. A yw'r Dirprwy Weinidog yn hyderus y bydd yn gallu cymeradwyo sefydliadau cynhyrchwyr llwyddiannus erbyn mis Ionawr? Os felly, byddai honno'n neges bwerus ar ddechrau'r flwyddyn nesaf.

Finally, picking up the theme of the importance of the Welsh brand in dairy products, will the Deputy Minister make a commitment to engage with the relevant Commissioners here in this place to ensure that quality Welsh dairy products are fully promoted, because this is the place, above all, that should be playing an important role in that?

Yn olaf, gan gyfeirio at y thema o bwysigrwydd y brand Cymreig mewn cynhyrchion llaeth, a fydd y Dirprwy Weinidog yn gwneud ymrwymiad i ymgysylltu â'r Comisiynwyr perthnasol yma yn y lle hwn, i sicrhau bod cynhyrchion llaeth o ansawdd da o Gymru yn cael eu hyrwyddo'n llawn, oherwydd dyma'r lle, yn anad dim, a ddylai fod â swyddogaeth bwysig yn hynny?

**Alun Davies:** On that final point, let me say to the Liberal Democrat spokesperson that it is clearly a matter for Members. I notice that no Members have submitted questions to the Commissioners for tomorrow's question session, so perhaps that is something that you might wish to reflect on later.

**Alun Davies:** Ar y pwynt olaf, gadewch i mi ddweud wrth lefarydd y Democratiaid Rhyddfrydol ei bod yn amlwg mai mater i'r Aelodau yw hyn. Sylwaf nad oes unrhyw Aelodau wedi cyflwyno cwestiynau i'r Comisiynwyr ar gyfer sesiwn cwestiynau yfory, felly efallai fod hynny'n rhywbeth y byddech yn dymuno ei ystyried yn nes ymlaen.

In terms of where we are on the voluntary code, I said during a debate in this place before the summer recess that I felt that a voluntary code was the best way forward because it would provide greater flexibility and a greater means of delivering more than a statutory code. However, I have always been clear that this voluntary code has to exist within a statutory framework. The point that I have made, both this afternoon in my statement and in debates at different times, has been that we need to strengthen the groceries code adjudicator legislation. I would invite both the Liberal Democrats and the Welsh Conservatives, who are represented in the coalition Government in London, to support the Welsh Government in doing so, and to ensure that we have a united voice across the Chamber. We want to see a strong statutory framework to protect the interests of the whole of the supply chain. If the Liberal Democrats and the Conservatives are willing to support us this afternoon, that would be a very great step forward. I see that both party leaders are here today and I invite them both to make clear that they support us

O ran o ble yr ydym ar y cod gwirfoddol, dywedais yn ystod dadl yn y lle hwn cyn egwyl yr haf fy mod yn teimlo mai cod gwirfoddol oedd y ffordd orau ymlaen gan y byddai'n darparu mwy o hyblygrwydd a dull gwell o gyflwyno mwy na chod statudol. Fodd bynnag, yr wyf wedi bod yn glir ar hyd yr amser fod yn rhaid i'r cod gwirfoddol fodoli o fewn fframwaith statudol. Y pwynt yr wyf wedi'i wneud, y prynhawn yma ac yn fy natganiad, ac mewn dadleuon ar wahanol adegau, yw bod angen i ni gryfhau'r ddeddfwriaeth dyfarnwr cod bwydydd. Rwyf yn gwahodd y Democratiaid Rhyddfrydol a'r Ceidwadwyr Cymreig, sy'n cael eu cynrychioli yn y Llywodraeth glymblaid yn Llundain, i gefnogi Llywodraeth Cymru wrth wneud hynny, ac i sicrhau bod gennym lais unedig ar draws y Siambr. Rydym am weld fframwaith statudol cadarn i warchod buddiannau y gadwyn gyflenwi gyfan. Os yw'r Democratiaid Rhyddfrydol a'r Ceidwadwyr yn barod i'n cefnogi y prynhawn yma, byddai hynny'n gam mawr ymlaen. Gwelaf fod dau arweinydd y pleidiau yma heddiw, ac yr wyf yn gwahodd y ddau i

on that.

ddatgan yn glir eu bod yn ein cefnogi ar hynny.

I appreciate the point that the Liberal Democrat spokesperson made about the voluntary code. I have to say to you, if you have particular proposals for Welsh elements of this code, I would be interested in seeing them. I have to say it was not something that was discussed during the negotiations that led to the establishment of the code. It was seen very much as a UK or GB code, and we discussed in the early summer the fact that we wanted to see these matters resolved at a GB or UK level, rather than individual countries going their own way. However, if you have proposals for individual Welsh elements of the code, I would be interested to hear what they are so that I can consider the way forward.

Yr wyf yn gwerthfawrogi'r pwynt a wnaeth llefarydd y Democratiaid Rhyddfrydol am y cod gwirfoddol. Rhaid i mi ddweud wrthych chi, os oes gennych gynigion penodol ar gyfer elfennau Cymreig y cod hwn, byddai gennyf ddiddordeb yn eu gweld nhw. Rhaid i mi ddweud nad oedd yn rhywbeth a drafodwyd yn ystod y trafodaethau a arweiniodd at sefydlu'r cod. Fe’i gwelwyd yn fwy fel cod ar gyfer y DU neu Brydain Fawr, a buom yn trafod yn gynnar yn yr haf y ffaith ein bod am weld y materion hyn yn cael eu datrys ar lefel Prydain Fawr neu DU, yn hytrach na bod gwledydd unigol yn mynd eu ffordd eu hunain. Fodd bynnag, os oes gennych gynigion ar gyfer elfennau unigol Cymreig i’r cod, byddai gennyf ddiddordeb i glywed beth yr ydynt er mwyn i mi allu ystyried y ffordd ymlaen.

The purpose of the meetings that I held with Irish ministerial colleagues last week was to discuss wider issues about the common agricultural policy reform and the direction of travel on the CAP negotiations. Some of the matters that the leader of the opposition raised in his contribution earlier this afternoon were reflected in those conversations. The purpose of the visit was not to discuss either dairy or co-operation on these matters; however, we are looking to strengthen and take forward Ireland-Wales programmes as part of our wider structural funds programme in the next round of funding and it may well be that some of these areas will fall into that. We had some excellent and positive conversations in Dublin last week, which I hope will form the basis of further co-operation between our two countries.

Pwrpas y cyfarfodydd a gynhaliwyd â chyd-Weinidogion Iwerddon yr wythnos diwethaf oedd i drafod materion ehangach ynghylch diwygio’r polisi amaethyddol cyffredin a chyfeiriad y trywydd ynglŷn â’r trafodaethau PAC. Adlewyrchwyd rhai o'r materion a godwyd gan arweinydd yr wrthblaid yn ei gyfraniad yn gynharach y prynhawn yma yn y sgyrsiau hynny. Nid trafod naill ai llaeth na chyd-weithio ar y materion hyn oedd pwrpas yr ymweliad, ond rydym yn bwriadu cryfhau a datblygu rhaglenni Iwerddon-Cymru yn rhan o'n rhaglen cronfeydd strwythurol ehangach yn y rownd nesaf o ariannu, ac mae’n ddigon posibl y bydd rhai o'r meysydd hyn yn dod o dan hynny. Cawsom nifer o sgyrsiau rhagorol a chadarnhaol yn Nulyn yr wythnos diwethaf, a fyddant, yr wyf yn gobeithio, yn ffurfio sail cydweithio pellach rhwng ein dwy wlad.

On your points about producer organisations, I will repeat the point that I made in answer to questions from Dafydd Elis-Thomas and Vaughan Gething: the industry is at its strongest and most effective when it works closely together. That is a very clear lesson from not only the last few weeks and months, but also from each and every crisis that has faced the industry in the last few decades. If the industry is able to speak with a single voice and is able to work and co-operate

O ran eich pwyntiau am sefydliadau cynhyrchwyr, mi wnaf ailadrodd y pwynt a wneuthum wrth ateb cwestiynau gan Dafydd Elis-Thomas a Vaughan Gething: y mae’r diwydiant ar ei gryfaf a mwyaf effeithiol pan fydd yn gweithio'n agos gyda'i gilydd. Mae honno'n wers glir iawn, nid yn unig o’r wythnosau a misoedd diwethaf, ond hefyd o bob argyfwng sydd wedi wynebu'r diwydiant yn y degawdau diwethaf. Os yw'r diwydiant yn gallu siarad ag un llais ac yn gallu

together, then it has a much better chance of developing the sorts of structures that it needs to compete effectively in the future. I hope that we will be in a position to acknowledge and put in place producer organisations from the early part of next year—I stated January in this statement, so I am working to that. I cannot compel that process to happen, but I will certainly be spending a lot of my time over the coming months talking to farmers, the farming unions and to others about how we can create structures and shapes for the industry that will ensure that it is competitive not just today, but in the future.

amgylch y brifysgol yn ward Cathays, wedi creu anghydbwysedd difrifol yn y gymuned. Mae tua 85% o dai yn yr ardal honno yn dai amlfeddiannaeth. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ffordd y gall yr awdurdod cynllunio ymdrechu i reoli nifer y tai amlfeddiannaeth. Mae hynny'n rhannol oherwydd nad oes angen caniatâd cynllunio ar dai bach mewn amlfeddiannaeth. Felly, nid oes trosolwg cydlynol o effaith gweld cymaint o'r tai hyn yn cael eu troi’n breswylfeydd dros dro. Fodd bynnag, er mwyn pwysleisio maint y broblem, yn ystod yr haf, mae Cathays yn debyg i dref wag. Ceisiwch ddychmygu hynny. Mae wyth allan o 10 tŷ yn wag yn ystod yr haf. Gall hyn fod yn eithaf brawychus i’r trigolion oedrannus yn bennaf sydd yn aros yno. Pan maent yno, mae'r myfyrwyr yn creu llawer o sŵn, sy'n dod â'i broblemau ei hun.

In England, the planning laws have been changed so that the planning authorities for which this is an issue, such as York, can exercise some control over areas under stress. A new planning category, C4, has been created so that, where new HMOs are proposed, that can be seen within an overall plan for an area. The Scottish Parliament has introduced similar changes to give Scottish councils similar powers. It is not dissimilar to the concept in Cardiff of applying much stricter licensing laws to the city centre because of the problems created by the number of alcohol outlets and instances of drunkenness there. At the moment, this is only a problem in a small number of constituencies where there is a preponderance of universities, but the recent changes coming in to the housing benefit rules might make this a bigger problem in a much wider area. I am concerned that we need to balance the needs of everybody to have access to decent housing, which is obviously a long way off from where we are at the moment, with the need for the sustainable development of communities that are balanced in respect of ages and housing type. I would be grateful, Minister, if you could look at using the powers that have been awarded to Scotland and England in your consideration of the planning Bill that you are proposing next year.

Yn Lloegr, mae'r deddfau cynllunio wedi cael eu newid fel y gall yr awdurdodau cynllunio y mae hon yn broblem iddynt, fel Efrog, ymarfer rhywfaint o reolaeth dros ardaloedd o dan straen. Mae categori cynllunio newydd, C4, wedi cael ei greu, y gellir ei weld o fewn cynllun cyffredinol ar gyfer ardal, lle mae HMO newydd wedi eu cynnig. Mae Senedd yr Alban wedi cyflwyno newidiadau tebyg i roi pwerau tebyg i gynghorau yr Alban. Nid yw'n annhebyg i'r cysyniad yng Nghaerdydd o ddefnyddio deddfau trwyddedu llawer mwy caeth i ganol y ddinas oherwydd y problemau a grëwyd gan y nifer o siopau alcohol ac achosion o feddwdod yno. Ar hyn o bryd, dim ond mewn nifer fach o etholaethau y mae hyn yn broblem lle mae mwyafrifedd o brifysgolion, ond efallai y bydd y newidiadau diweddar a gyflwynir i’r rheolau budd-daliadau tai yn gwneud hon yn fwy o broblem mewn ardal llawer ehangach. Yr wyf yn poeni bod angen cydbwyso anghenion pawb i gael mynediad at dai gweddus, sydd yn amlwg yn bell i ffwrdd o'r man lle'r ydym ar hyn o bryd, gyda'r angen am ddatblygiad cynaliadwy o gymunedau sy'n cael eu cydbwyso o ran oedran a math o dai. Byddwn yn ddiolchgar, Weinidog, pe gallech edrych ar ddefnyddio'r pwerau sydd wedi'u dyfarnu i'r Alban a Lloegr yn eich ystyriaeth o’r Mesur cynllunio yr ydych yn ei gynnig y flwyddyn nesaf.

**Janet Finch-Saunders:** I am absolutely

**Janet Finch-Saunders:** Yr wyf wrth fy

delighted to be speaking on this, because it does not come a moment too soon. The Welsh Government's forthcoming planning Bill could constitute the greatest reform of the planning system in Wales since 1947. Reforms of the planning system over the border are now providing greater clarity, simplicity and much rigour and we must follow suit in Wales or else we run the risk of losing this opportunity to use one of our most important levers for change. The call for evidence highlighted quite clearly that there are generally two opposing views: one sees planning as a barrier to economic growth and the other as something that should not prioritise economic issues over all others.

modd i fod yn siarad ar hyn, nid yw'n dod eiliad yn rhy fuan. Gallai Mesur cynllunio nesaf Llywodraeth Cymru olygu y diwygiad mwyaf i'r system gynllunio yng Nghymru ers 1947. Mae diwygiadau i'r system gynllunio dros y ffin bellach yn darparu mwy o eglurder, symlrwydd a thrylwyredd mawr a rhaid i ni ddilyn yr un esiampl yng Nghymru, neu fel arall rydym mewn risg o golli'r cyfle hwn i ddefnyddio un o'n pum sbardun mwyaf pwysig ar gyfer newid. Dangosodd yr alwad am dystiolaeth yn eithaf clir fod yna ddwy farn groes yn gyffredinol: mae un yn ystyried cynllunio fel rhwystr i dwf economaidd ac yn ystyried y llall fel rhywbeth na ddylai fod yn blaenoriaethu materion economaidd dros bopeth arall.

Recommendation 3.2 of the Arup report said that the Welsh Government should enact powers of general competence for local authorities and promote their use. The key provision of the Localism Act 2011, which, sadly, has, up to now, been rejected by the Minister for local government, would see the adoption of something that would give local authorities and local communities more power over the decisions that mainly affect them. The report suggests that there is more scope for local planning authorities to adopt a more proactive role in place shaping, including through using the general powers available to LAs to complement their planning function.

Nododd argymhelliad 3.2 o adroddiad Arup y dylai Llywodraeth Cymru ddeddfu pwerau cymhwysedd cyffredinol ar gyfer awdurdodau lleol a hyrwyddo eu defnydd. Mae'r ddarpariaeth allweddol yn y Ddeddf Lleoliaeth 2011, sydd, yn anffodus, wedi ei gwrthod hyd yn hyn, gan y Gweinidog dros lywodraeth leol, yn gweld mabwysiadu rhywbeth a fyddai'n rhoi mwy o bŵer dros y penderfyniadau sy'n effeithio'n bennaf arnynt i awdurdodau lleol a chymunedau lleol. Mae'r adroddiad yn awgrymu bod mwy o le i awdurdodau cynllunio lleol i fabwysiadu rôl fwy rhagweithiol o ran llunio lle, gan gynnwys drwy ddefnyddio'r pwerau cyffredinol sydd ar gael i Awdurdodau Lleol i ategu eu swyddogaeth gynllunio.

Recommendation 5.1 of the Arup report states that the Welsh Government should implement a system of incentives and penalties to facilitate timely plan preparation. Introduced by statute in 2004, the LDP process has been slow and cumbersome—and that is being kind to it. Eight years on, only five authorities in Wales have adopted a local development plan. Any practical steps that bring about a more efficient and timely LDP process, while ensuring that the principles of consultation and community engagement are not undermined, should be welcomed.

Mae argymhelliad 5.1 o adroddiad Arup yn nodi y dylai Llywodraeth Cymru weithredu system o gymhellion a chosbau i hwyluso paratoi cynllun amserol. Mae proses y CDLl a gyflwynwyd gan statud yn 2004, wedi bod yn araf ac yn feichus – a dweud y lleiaf. Wyth mlynedd yn ddiweddarach, dim ond pump o awdurdodau yng Nghymru sydd wedi mabwysiadu cynllun datblygu lleol. Dylai unrhyw gamau ymarferol sy'n ysgogi proses y CDLl yn fwy effeithlon ac amserol, tra'n sicrhau nad yw egwyddorion ymgynghori ac ymgysylltu â'r gymuned yn cael eu tanseilio, gael eu croesawu.

Recommendations 53 and 81 of the independent group's report seek to improve public and stakeholder engagement by giving town and community councils enhanced

Mae argymhellion 53 a 81 o adroddiad y grŵp annibynnol yn ceisio gwella ymgysylltu'r cyhoedd a rhanddeiliaid trwy roi swyddogaethau uwch i gynghorau tref a

roles. All too often, time and effort taken by local representatives to engage with the planning process come to nothing. I, for one, know of many dedicated town and community councillors across Wales who give up hours of their time on a weekly basis to pore over quite complicated plans for their local communities. I also note that the planning notices go out only ever asking for representations to be sent to county councils, so, quite often, community councils are discussing plans for which they have had no representations from the public.

chymuned. Yn rhy aml, gwelir yr amser a'r ymdrech a gymerwyd gan gynrychiolwyr lleol i ymgysylltu â'r broses gynllunio yn dod i ddim. Yr wyf fi, yn bersonol, yn gwybod am sawl cynghorydd tref a chymuned ymroddedig ar draws Cymru sy'n rhoi oriau o'u hamser yn wythnosol i gysidro cynlluniau eithaf cymhleth ar gyfer eu cymunedau lleol. Nodaf hefyd fod yr hysbysiadau cynllunio yn mynd allan dim ond yn gofyn i sylwadau gael eu hanfon i gynghorau sir, felly, yn eithaf aml, mae cynghorau cymuned yn trafod cynlluniau nad ydynt wedi cael unrhyw gynrychiolaeth ar eu cyfer gan y cyhoedd .

Recommendations 55 to 57 highlight the need to improve the transparency and consistency of planning committees. In particular, I welcome the recommendation that the responsibility for LDP preparation should rest jointly with the executive and planning committees. At a time when public confidence is low—as Russ George, my colleague, has said—and when 57% of those surveyed by the Welsh Government stated that they agree with the proposition that local citizens do not have enough of a say in how the planning system in Wales works, greater transparency would ensure greater democratic accountability.

Mae argymhellion 55-57 yn tynnu sylw at yr angen i wella tryloywder a chysondeb pwyllgorau cynllunio. Yn benodol, croesawaf yr argymhelliad y dylai'r cyfrifoldeb ar gyfer paratoi'r CDLl orffwys ar y cyd â'r pwyllgorau gweithredol a chynllunio. Ar adeg pan oedd hyder y cyhoedd yn isel - fel y mae Russ George, fy nghydweithiwr wedi dweud – a phan ddywedodd 57% o'r rhai a holwyd gan Lywodraeth Cymru eu bod yn cytuno â'r gosodiad nad yw dinasyddion lleol yn cael digon o lais yn y ffordd y mae’r system gynllunio yn gweithio yng Nghymru, byddai mwy o dryloywder yn sicrhau mwy o atebolrwydd democrataidd.

The recommendations contained in the report to streamline and improve delivery should constitute the centrepiece of the planning Bill. The national planning policy framework in England has sought to overcome the complaints and frustrations that many individuals have with the planning system through the complete simplification of the entire system. That included taking 44 documents of various vintages and consolidating them into a single document.

Dylai'r argymhellion a gynhwysir yn yr adroddiad i symleiddio a gwella'r ddarpariaeth fod yn ganolbwynt y Mesur cynllunio. Mae'r fframwaith polisi cynllunio cenedlaethol yn Lloegr wedi ceisio goresgyn y cwynion a’r rhwystredigaeth y mae llawer o unigolion yn eu cael gyda’r system gynllunio drwy symleiddio’r system gyfan yn llwyr. Roedd hynny’n cynnwys cymryd 44 o ddogfennau o gyfnodau amrywiol a’u cyfuno yn un ddogfen.

5.30 p.m.

In Scotland, delivering planning reform is aimed at helping the planning system to reach its potential to support economic recovery. However, critics of the Welsh planning system, such as Gareth Hooper of DPP has argued that the new NPPF requirement for all applications to be considered in the context of the proposed development’s impact on the economy is sorely lacking in Wales.

Yn yr Alban, mae cyflwyno diwygio cynllunio wedi ei anelu at helpu'r system gynllunio i gyrraedd ei photensial i gefnogi adferiad economaidd. Fodd bynnag, mae beirniaid system gynllunio Cymru, megis Gareth Hooper o DPP wedi dadlau bod y gofyniad NPPF newydd i’r holl geisiadau gael eu hystyried yng nghyd-destun effaith y datblygiad arfaethedig ar yr economi yn

ddiffygiol iawn yng Nghymru.

Recommendation 97 deals with the system of compulsory purchase orders, and how many of us know how problematic those are, either as a councillor or as a Member of this Assembly? It is highlighted in the report that the CPO system requires greater coherence. I would also argue that legislation with regard to CPOs should be looked at in tandem with the Localism Act 2011's community right-to-buy provisions in order to ensure greater complementarity and to encourage their use.

Mae argymhelliad 97 yn ymdrin â system o orchmynion prynu gorfodol, a faint ohonom sy'n gwybod pa mor broblemastig yw'r rheini, naill ai fel cynghorydd neu fel Aelod o'r Cynulliad hwn? Mae'n cael ei amlygu yn yr adroddiad bod y system GPG yn gofyn am fwy o gydlyniad. Byddwn hefyd yn dadlau y dylid edrych ar ddeddfwriaeth mewn perthynas â GPG ar y cyd â'r darpariaethau hawl y gymuned i brynu sydd yn Neddf Lleoliaeth 2011 er mwyn sicrhau cyfatebolrwydd mwy ac er mwyn annog eu defnyddio.

We have highlighted some of the positives and look forward to the time when the Minister will bring forward his proposals. The way forward on planning reform, however, must embrace simplification, clarity and rigour above all other considerations. Diolch yn fawr iawn.

Rydym wedi amlygu rhai o'r pethau cadarnhaol ac rydym yn edrych ymlaen at yr amser pan fydd y Gweinidog yn cyflwyno ei gynigion. Fodd bynnag, rhaid i'r ffordd ymlaen ar ddiwygio cynllunio gwmpasu symleiddio, eglurder a manyldeb uwchlaw pob ystyriaeth arall. Diolch yn fawr iawn.

**Kenneth Skates:** I welcome this debate today and the report of the independent advisory group. The commitment outlined by the Welsh Government to reform planning law in Wales is a timely one and, today, I would like to raise a small number of important issues. These concern the current operation and future use of section 106 planning agreements, particularly their use in relation to the current economic climate and the guidance that independent planning inspectors are given as to their usefulness. Under section 106 agreements, developers are bound in contract to deliver a portion of the project via affordable housing or community benefits such as playgrounds, new roads or money for other such projects. However, the economic slowdown we have seen is leading to more of these important agreements being torn up and private sector developers being released from their obligations.

**Kenneth Skates:** Croesawaf y ddadl hon heddiw ac adroddiad y grŵp cynghori annibynnol. Mae'r ymrwymiad a amlinellwyd gan Lywodraeth Cymru i ddiwygio cyfraith cynllunio yng Nghymru yn un amserol a heddiw, hoffwn i godi nifer fach o faterion pwysig. Mae'r rhain yn ymwneud â gweithrediad presennol cytundebau cynllunio adran 106, a'u defnydd yn y dyfodol, yn enwedig eu defnydd mewn cysylltiad â'r hinsawdd economaidd bresennol a'r arweiniad a roddir i arolygwyr cynllunio annibynnol ynghylch eu defnyddioldeb. Dan gytundebau adran 106, mae datblygwyr yn cael eu rhwymo mewn contract i ddarparu cyfran o'r prosiect drwy dai fforddiadwy neu fanteision cymunedol megis meysydd chwarae, ffyrdd newydd neu arian ar gyfer prosiectau eraill o'r fath. Fodd bynnag, mae'r arafu economaidd yr ydym wedi ei weld yn arwain at weld mwy o'r cytundebau pwysig hyn yn cael eu rhwygo a datblygwyr y sector preifat yn cael eu rhyddhau o'u rhwymedigaethau.

Indeed, I have seen this in my constituency. Recently, independent planning inspectors in Denbighshire ruled that a property development firm did not have to pay over £334,000 to Denbighshire County Council for a development of flats on land at Plas

Yn wir, yr wyf wedi gweld hyn yn fy etholaeth. Yn ddiweddar, mae arolygwyr cynllunio annibynnol yn Sir Ddinbych wedi barnu nad oedd raid i gwmni datblygu eiddo dalu dros £334,000 i Gyngor Sir Ddinbych ar gyfer datblygiad o fflatiau ar dir ym Mhlas

Derwen in Llangollen. It was because the economic downturn had been such that the firm was now at risk of bankruptcy and that, in this instance, the section 106 agreement no longer served any use. Of course, there is limited value in enforcing a planning agreement if the developer is at serious risk of insolvency or liquidation, because there is little or no prospect of recouping the moneys tied up in the section 106 agreement. While it is a difficult situation, I believe that it is because of the economic slowdown that we need to see a change to the way that planning law operates, particularly in relation to the obligations that are enforced on private sector developers to develop affordable housing and other such vital community infrastructure.

Derwen yn Llangollen. Y rheswm am hyn oedd bod y dirywiad economaidd wedi golygu bod y cwmni bellach mewn perygl o fethdalu ac, yn yr achos hwn, nid oedd unrhyw ddiben i gytundeb adran 106 bellach. Wrth gwrs, gwerth cyfyngedig sydd mewn gorfodi cytundeb cynllunio os yw'r datblygwr mewn perygl difrifol o ansolfedd neu ddiddymiad, gan nad oes fawr o obaith o adennill yr arian sydd ynghlwm yng nghytundeb adran 106. Er ei bod yn sefyllfa anodd, yr wyf yn credu mai oherwydd yr arafu economaidd y mae angen i ni weld newid yn y ffordd y mae'r gyfraith gynllunio yn gweithredu, yn enwedig mewn perthynas â'r rhwymedigaethau sy'n cael eu gorfodi ar ddatblygwyr yn y sector preifat i ddatblygu tai fforddiadwy a seilwaith arall cymunedol hanfodol o'r fath.

To its credit, the Welsh Government has recognised that this problem exists and needs to be tackled. Earlier this year, it said that it would work together with councils to revise section 106 guidance, because inconsistencies in approach can act as a barrier to development. One issue that it needs to take up in such a review is the circumstances in which a developer is released from an obligation to allow the project to continue. If the pattern of independent planning inspectors using the current framework to release developers from obligations is continued, we need to think carefully about how we ensure that new developments come with the appropriate infrastructure that the community needs. In addition, where a developer is released from an agreement, we need to ensure that it is done with the consent of the local authority, something that did not happen in the Llangollen case.

Er clod iddi, mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod bod y broblem hon yn bodoli ac mae angen mynd i'r afael â hi. Yn gynharach eleni, dywedodd y byddai'n gweithio gyda chynghorau i ddiwygio arweiniad adran 106, oherwydd gall anghysonderau yn y dull gweithredu fod yn rhwystr i ddatblygiad. Un mater y mae angen iddo'i gynnwys mewn adolygiad o'r fath yw'r amgylchiadau dan sylw pan fo datblygwr yn cael ei ryddhau o rwymedigaeth i ganiatáu i'r prosiect barhau. Os yw'r patrwm o arolygwyr cynllunio annibynnol yn defnyddio'r fframwaith cyfredol i ryddhau datblygwyr o rwymedigaethau yn parhau, mae angen i ni feddwl yn ofalus am sut rydym yn sicrhau bod datblygiadau newydd yn cynnwys y seilwaith priodol sydd ei angen ar y gymuned. Yn ogystal, pan fo datblygwr yn cael ei ryddhau o'r cytundeb, mae angen i ni sicrhau y gwneir hyn gyda chaniatâd yr awdurdod lleol, rhywbeth nad oedd yn digwydd yn achos Llangollen.

Crucially, this is about making sure that the community has confidence in the assurances being made during the planning process. Our communities do not dispute the desperate need for new housing or the requirement for new development more generally. What they object to is if the planned project will lead to congested roads, isolated neighbourhoods or overcrowded classrooms, which would impact negatively on their communities and on their quality of life. This is where the vital

Yn hollbwysig, mae hyn yn ymwneud â sicrhau bod gan y gymuned hyder yn y gwarantau sy'n cael eu gwneud yn ystod y broses gynllunio. Nid yw ein cymunedau yn dadlau nad oes angen dybryd am dai newydd na bod gofyn am ddatblygiadau newydd yn fwy cyffredinol. Yr hyn y maent yn ei wrthwynebu yw os bydd y prosiect arfaethedig yn arwain at ffyrdd prysur, cymdogaethau ynysig neu ystafelloedd dosbarth gorlawn, a fyddai'n cael effaith

section 106 process plays such a crucial role in dampening down fears and allaying worries about new developments. Clearly, in reforming our planning laws, we need to balance the interests of our communities with the wider needs of the economy. Instead of releasing private sector developers from obligations, perhaps we could look at more innovative solutions such as having the section 106 agreement transferred into long-term index-linked loans that developers could pay back as the economy recovers.

negyddol ar eu cymunedau ac ar ansawdd eu bywyd. Dyma lle mae proses hollbwysig adran 106 yn chwarae rhan hanfodol mewn lleddfu ofnau a lleddfu pryderon am ddatblygiadau newydd. Yn amlwg, wrth ddiwygio ein deddfau cynllunio, mae angen i ni gydbwyso buddiannau ein cymunedau gydag anghenion ehangach yr economi. Yn hytrach na rhyddhau datblygwyr y sector preifat o rwymedigaethau, efallai y gallem edrych ar atebion mwy arloesol, megis trosglwyddo cytundeb adran 106 i fenthyciadau hir-dymor mynegrifol y gallai datblygwyr eu had-dalu wrth i'r economi wella.

Where there is justification for proceeding with a development agreement, we also need to look at the enforcement powers available to housing associations and councils to collect outstanding moneys. An investigation in February last year by the BBC illustrated that more than half of the Welsh councils were owed nearly £2.3 million by private developers under section 106 agreements. I think that we need to look at the powers that councils have to enforce current agreements as a way of maintaining confidence in contracts that have been signed in good faith, and keeping the public confident that the law is on their side, not on the side of big business. I look forward to the publication of the planning Bill, and to reforms of the law and practical planning guidance, which must always work in the interests of Wales and its communities.

Lle mae cyfiawnhad dros symud ymlaen â chytundeb datblygu, mae hefyd angen i edrych ar y pwerau gorfodi sydd ar gael i gymdeithasau tai a chynghorau i gasglu arian dyledus. Dangosodd ymchwiliad ym mis Chwefror y llynedd gan y BBC bod datblygwyr preifat mewn dyled o bron i £2.3 miliwn i fwy na hanner cynghorau Cymru o dan gytundebau adran 106. Credaf fod angen i ni edrych ar y pwerau sydd gan gynghorau i orfodi'r cytundebau presennol fel ffordd o gynnal hyder mewn contractau sydd wedi cael eu llofnodi gyda phob ewyllys da, a chadw'r cyhoedd yn hyderus bod y gyfraith ar eu hochr nhw, nid ar ochr byd masnach. Edrychaf ymlaen at gyhoeddi’r Mesur cynllunio, ac at ddiwygiadau y gyfraith a chanllawiau cynllunio ymarferol, mae'n rhaid iddo bob amser weithio er lles Cymru a'i chymunedau.

**The Minister for Environment and Sustainable Development (John Griffiths):** I begin by thanking Members for their general welcome for the report and their constructive contributions. It is obviously very important to Wales that we get the planning system right for the future, due to its practical significance. Obviously, there are many competing interests, and we have to ensure that, as often as possible, the right balance is struck.

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy (John Griffiths):** Dechreuaf drwy ddiolch i'r Aelodau am eu croeso cyffredinol i'r adroddiad a'u cyfraniadau adeiladol. Mae'n amlwg yn bwysig iawn i Gymru ein bod yn cael y system gynllunio gywir ar gyfer y dyfodol, oherwydd ei harwyddocâd ymarferol. Yn amlwg, mae nifer o wahanol fuddiannau'n cystadlu, ac mae'n rhaid i ni sicrhau y ceir y cydbwysedd cywir, mor aml ag y bo modd.

The creation of the town and country planning system is one of the most enduring legacies of the inspirational post-war Labour government. The implementation advisory group has, on the basis of robust and credible evidence, concluded that the current planning

Roedd creu y system gynllunio gwlad a thref yn un o roddion mwyaf parhaol y llywodraeth Lafur ysbrydoledig a gafwyd ar ôl y rhyfel. Mae gweithredu'r grŵp cynghori, ar sail tystiolaeth gadarn a chredadwy, wedi dod i'r casgliad bod y system gynllunio

system is conceptually sound and not in need of root-and-branch reform. However, as Members have recognised, that is not to say that reform is unnecessary. The IAG has made a compelling case for adaptation and improvement of the existing framework to ensure that it delivers better, in the form of 97 practical recommendations for improvement. The majority of those recommendations do not require legislation. Indeed, many complement work that we already have in hand to improve the planning application process and refine the local development plan system. As Russell George and others mentioned, there is much that can be done before we get to the stage of White Paper and legislation. We will carry on and speed up that work.

gyfredol yn gysyniadol gadarn ac nid oes angen diwygio llwyr arni. Fodd bynnag, fel y mae Aelodau wedi cydnabod, nid yw hynny'n golygu nad oes angen diwygio. Mae'r IAG wedi gwneud achos cryf dros addasu a gwella'r fframwaith presennol i sicrhau ei fod yn cyflawni’n well, ar ffurf 97 o argymhellion ymarferol ar gyfer gwella. Nid oedd y mwyafrif o'r argymhellion hynny yn gofyn am ddeddfwriaeth. Yn wir, mae llawer ohonynt yn ategu’r gwaith sydd gennym eisoes ar y gweill i wella'r broses ceisiadau cynllunio a mireinio'r system cynlluniau datblygu lleol. Fel y soniodd Russell George ac eraill, mae llawer y gellir ei wneud cyn i ni gyrraedd y cam Papur Gwyn a deddfwriaeth. Byddwn yn bwrw ymlaen â’r gwaith hwnnw ac yn ei gyflymu.

Regarding specific issues raised by AMs, national parks are the subject of work that we have commissioned from Land Use Consultants. That work will be published shortly, and I look forward to discussing it with Members here in the Assembly as we move forward. We have brought forward our debate on planning today, and we will be moving forward with the White Paper and the Bill in a timely fashion, as set out in previous statements.

O ran materion penodol a godwyd gan Aelodau Cynulliad, mae parciau cenedlaethol yn destun gwaith yr ydym wedi'i gomisiynu gan Ymgynghorwyr Defnydd Tir. Bydd y gwaith hwnnw'n cael ei gyhoeddi cyn bo hir, ac edrychaf ymlaen at ei drafod gydag Aelodau yma yn y Cynulliad wrth inni symud ymlaen. Rydym wedi cyflwyno ein dadl ar gynllunio heddiw, a byddwn yn symud ymlaen â'r Papur Gwyn a'r Mesur mewn modd amserol, fel y nodwyd mewn datganiadau blaenorol.

As far as streamlining planning guidance is concerned, we first streamlined the guidance 12 years ago, in 2000. Therefore, I think that we can say that we were something like 12 years ahead of England in that regard. With LDPs, we will be improving the refinement process as part of the work that takes place before we get to the White Paper and the Bill. Llyr Huws Gruffydd mentioned the balance between localism and a regional and national approach. Obviously, that is a key aspect of the work that has taken place, and the legislation will address that. However, there are important aspects of the IAG report that talk about town and community councils, for example, and how they could play a greater role in local development plans and in statutory planning guidance. Indeed, village and town plans could feature there. That aspect of striking the right balance is addressed.

Cyn belled ag y mae symleiddio canllawiau cynllunio yn y cwestiwn, cafodd y canllawiau eu symleiddio gyntaf gennym 12 mlynedd yn ôl, yn 2000. Felly, credaf y gallwn ddweud ein bod rhyw 12 mlynedd o flaen Lloegr yn hynny o beth. Gyda Chynlluniau Datblygu Lleol, byddwn yn gwella'r broses fireinio fel rhan o'r gwaith sy'n digwydd cyn i ni gyrraedd y Papur Gwyn a'r Mesur. Crybwyllodd Llyr Huws Gruffydd y cydbwysedd rhwng cyfundrefn leol a dull gweithredu rhanbarthol a chenedlaethol. Yn amlwg, mae hynny'n agwedd allweddol ar y gwaith sydd wedi digwydd, a bydd y ddeddfwriaeth yn ymdrin â hynny. Fodd bynnag, mae agweddau pwysig o adroddiad IAG sydd yn sôn am gynghorau tref a chymuned, er enghraifft, a sut y gallent chwarae rhan fwy mewn cynlluniau datblygu lleol ac mewn canllawiau cynllunio statudol. Yn wir, gellid cynnwys cynlluniau pentref a thref yno. Rhddir sylw i’r agwedd honno o gael y cydbwysedd cywir.

With regard to the Welsh language, we will publish an updated version of technical advice note 20 before Christmas this year, which will address these Welsh language issues. As far as the IAG report is concerned, this was very much about delivery and structure. It was not asked to look at Welsh language issues, but they will be addressed through the revised technical advice note.

O ran yr iaith Gymraeg, byddwn yn cyhoeddi fersiwn wedi'i diweddaru o nodyn cyngor technegol 20 cyn y Nadolig eleni, a fydd yn mynd i'r afael â'r materion iaith Gymraeg hyn. Cyn belled ag y mae'r adroddiad IAG yn y cwestiwn, roedd hyn yn yn ymwneud yn bennaf â darparu a strwythur. Ni ofynnwyd iddo edrych ar faterion yr iaith Gymraeg, ond byddant yn cael sylw drwy'r nodyn cyngor technegol diwygiedig.

The points that Jenny Rathbone made about houses in multiple occupation can be looked at as part of the housing Bill, and that will be a very important part of that work. I have discussed that with my colleague Huw Lewis.

Gellir ystyried y pwyntiau a wnaeth Jenny Rathbone am dai mewn amlfeddiannaeth fel rhan o'r Mesur tai, a bydd hynny'n rhan bwysig iawn o'r gwaith hwnnw. Wyf wedi trafod hynny gyda fy nghydweithiwr, Huw Lewis.

Janet Finch-Saunders sought to draw comparisons with England. Perhaps she will not be surprised to learn that I am taking a different view to the one she presented. As I said earlier, I think that we have been far ahead of the game in revising and streamlining planning guidance. What we see in England at the moment is a great deal of uncertainty. In actual fact, all local planning authorities in England have very different systems in many regards that create an uneven playing field, and developers constantly complain about that. We have seen a veering back and forth, from localism to presumption for development, and there is a great deal of uncertainty as to what the UK Government's view is. We would therefore certainly not accept the comparisons set out by Janet Finch-Saunders, as we think that we have a common ground of consensus that is a big step forward compared with the position in England.

Ceisiodd Janet Finch-Saunders wneud cymariaethau â Lloegr. Efallai na fydd yn cael eu synnu i glywed fy mod yn cymryd safbwynt wahanol i'r un a gyflwynwyd ganddi. Fel y dywedais yn gynharach, yr wyf yn meddwl ein bod wedi bod yn bell ar y blaen o ran adolygu a symleiddio canllawiau cynllunio. Yr hyn a welwn yn Lloegr ar hyn o bryd yw llawer iawn o ansicrwydd. Mewn gwirionedd, mae gan bob awdurdod cynllunio lleol yn Lloegr systemau gwahanol iawn ar lawer ystyr sy'n creu amodau anwastad, ac mae datblygwyr yn cwyno am hynny yn gyson. Rydym wedi gweld troi yn ôl ac ymlaen, o leoliaeth i ragdybiaeth o blaid datblygu, ac mae llawer iawn o ansicrwydd ynghylch beth yw barn Llywodraeth y DU. Yn sicr felly, ni fyddem yn derbyn y cymariaethau a nodir gan Janet Finch-Saunders, gan ein bod yn meddwl fod gennym dir cyffredin o gonsensws sydd yn gam mawr ymlaen o'i gymharu â'r sefyllfa yn Lloegr.

Ken Skates mentioned the section 106 agreements and affordable housing. I think that we have seen some necessary flexibility on section 106 agreements, recognising where we are with the economy. However, I accept that we need to look continually at the evolving picture and at the issues that Members raised, and I look forward to that work continuing as part of the ongoing engagement process leading up to the White Paper and legislation.

Crybwyllodd Ken Skates y cytundebau adran 106 a thai fforddiadwy. Rwy'n credu ein bod wedi gweld rhywfaint o hyblygrwydd angenrheidiol ar gytundebau adran 106, o dderbyn lle'r ydym gyda'r economi. Fodd bynnag, yr wyf yn derbyn bod angen inni edrych yn barhaus ar y darlun sy'n datblygu ac ar y materion a godwyd gan Aelodau, ac edrychaf ymlaen at weld y gwaith hwnnw'n parhau fel rhan o'r broses ymgysylltu barhaus sy'n arwain at y Papur Gwyn ac at ddeddfwriaeth.

One area where I would very much like to make faster progress is in embedding a culture of development management, as mentioned by a number of Members. I will meet with the Welsh Local Government Association to investigate options for the planning improvement and advisory body—which I think received a general welcome, although some concerns were raised—and for accredited agent schemes. The IAG considers a body such as the planning improvement and advisory body to be central to driving forward the planning reform agenda. So, for those reasons, I accept the amendments tabled by Aled Roberts.

Un maes lle byddwn yn hoffi gwneud cynnydd cyflymach yw sefydlu diwylliant o reoli datblygiad, fel y crybwyllodd nifer o Aelodau. Byddaf yn cwrdd â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ymchwilio i opsiynau ar gyfer y corff gwella cynllunio a chynghori – a gafodd groeso cyffredinol rwy’n meddwl, er bod rhai pryderon wedi’u codi - ac ar gyfer cynlluniau asiantau achrededig. Mae'r IAG o'r farn bod corff megis y corff gwella cynllunio ac ymgynghori i fod yn ganolog i’r broses o fwrw ymlaen â'r agenda diwygio cynllunio. Felly, am y rhesymau hynny, yr wyf yn derbyn y gwelliannau a gyflwynwyd gan Aled Roberts.

The White Paper and the draft Bill, as I mentioned, will be published before the end of 2013 and will set out the Welsh Government’s vision for a reformed planning system. For that reason, I cannot accept the amendment tabled by William Graham or the points made by Russell George.

Mae'r Papur Gwyn a'r Mesur drafft, fel y soniais, yn cael ei gyhoeddi cyn diwedd 2013 a bydd yn nodi gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer system gynllunio ddiwygiedig. Am y rheswm hwnnw, ni allaf dderbyn y gwelliant a gyflwynwyd gan William Graham neu'r pwyntiau a wnaed gan Russell George.

This is an exciting time for planning in Wales, as we start to define the future shape of our planning system. I encourage Assembly Members to participate fully in the choices that will be made, because they will help to ensure that we get it right and that our planning Act serves Wales well for many years to come and, who knows, possibly for as many years as the post-war planning legislation.

Mae hwn yn gyfnod cyffrous ar gyfer cynllunio yng Nghymru, wrth i ni ddechrau diffinio siâp ein system gynllunio ar gyfer y dyfodol. Rwyf yn annog Aelodau’r Cynulliad i gymryd rhan lawn yn y dewisiadau a fydd yn cael eu gwneud, oherwydd byddant yn helpu i sicrhau ein bod yn ei gael yn iawn a bod ein Deddf gynllunio yn gwasanaethu Cymru yn dda am flynyddoedd lawer i ddod a phwy a ŵyr, efallai am gymaint o flynyddoedd â’r ddeddfwriaeth gynllunio ar ôl y rhyfel.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 1. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes, felly derbyniwyd gwelliant 1 yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

**The Deputy Presiding Officer:** The question is that amendment 1 be agreed. Are there any objections? I see that there are none, therefore amendment 1 is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

*Derbyniwyd gwelliant 1.*
*Amendment 1 accepted.*

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 2. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf fod, felly gohirir pob pleidlais ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

**The Deputy Presiding Officer:** The question is that amendment 2 be agreed. Are there any objections? I see that there are, therefore voting on this item will be deferred until voting time.

Voting time will now follow. Before we proceed, are there three Members who wish for the bell to be rung? I see that there are not.

Bydd y cyfnod pleidleisio yn dilyn yn awr. Cyn i ni symud ymlaen, a oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Gwelaf nad oes.

## Cyfnod Pleidleisio
## Voting Time

*Gwelliant 2 i NDM5047: O blaid 44, Ymatal 12, Yn erbyn 0.*
*Amendment 2 to NDM5047: For 44, Abstain 12, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Black, Peter
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Jocelyn
Davies, Keith
Drakeford, Mark
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Gruffydd, Llyr Huws
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
James, Julie
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Powell, William
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Rees, David
Roberts, Aled
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Watson, Joyce
Whittle, Lindsay
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

Ymataliodd yr Aelodau canlynol:
The following Members abstained:

Asghar, Mohammad

Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Paul
Davies, Suzy
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Isherwood, Mark
Millar, Darren
Ramsay, Nick

*Derbyniwyd y gwelliant.*
*Amendment agreed.*

*Gwelliant 3 i NDM5047: O blaid 23, Ymatal 0, Yn erbyn 33.*
*Amendment 3 to NDM5047: For 23, Abstain 0, Against 33.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Jocelyn
Davies, Paul
Davies, Suzy
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Gruffydd, Llyr Huws
Isherwood, Mark
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Millar, Darren
Ramsay, Nick
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Whittle, Lindsay
Wood, Leanne

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Black, Peter
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Keith
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
James, Julie
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Powell, William
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Rees, David
Roberts, Aled
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Watson, Joyce
Williams, Kirsty

*Gwrthodwyd y gwelliant.*
*Amendment not agreed.*

*Cynnig NDM5047 fel y'i diwygiwyd:*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*Yn nodi adroddiad y Grŵp Cynghori*

*Motion NDM5047 as amended:*

*To propose that the National Assembly for Wales:*

*Notes the Independent Advisory Group*

*Annibynnol, Tuag at Deddf Gynllunio i Gymru: Sicrhau System Gynllunio Effeithiol.*

*Report, Towards a Welsh Planning Act: Ensuring the Planning System Delivers.*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i dreialu system achredu ar gyfer asiantau cynllunio.*

*Calls on the Welsh Government to trial a system of accreditation for planning agents.*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i wella capasiti'r system gynllunio drwy ddatblygu un Gwasanaeth Cyngor a Hyfforddiant Cynllunio Cenedlaethol i gynorthwyo adrannau cynllunio lleol i hyfforddi a datblygu eu staff.*

*Calls on the Welsh Government to improve the capacity of the planning system by developing a single National Planning Advisory and Training Service to assist local planning department train and develop their staff.*

*Cynnig NDM5047 fel y'i diwygiwyd: O blaid 56, Ymatal 0, Yn erbyn 0.*
*Motion NDM5047 as amended: For 56, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Jocelyn
Davies, Keith
Davies, Paul
Davies, Suzy
Drakeford, Mark
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Evans, Rebecca
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Gething, Vaughan
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Gruffydd, Llyr Huws
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Isherwood, Mark
James, Julie
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Millar, Darren
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Powell, William
Price, Gwyn R.
Ramsay, Nick

Rathbone, Jenny
Rees, David
Roberts, Aled
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Watson, Joyce
Whittle, Lindsay
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

*Derbyniwyd y cynnig fel y'i diwygiwyd.*
*Motion as amended agreed.*

**Y Dirprwy Lywydd:** Daw hynny â thrafodion heddiw i ben.

**The Deputy Presiding Officer:** That brings today's proceedings to a close.

*Daeth y cyfarfod i ben am 5.45 p.m.*
*The meeting ended at 5.45 p.m.*

**Aelodau a'u Pleidiau**
**Members and their Parties**

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)
Antoniw, Mick (Llafur – Labour)
Asghar, Mohammad (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Burns, Angela (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Butler, Rosemary (Llafur – Labour)
Chapman, Christine (Llafur – Labour)
Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)
Davies, Alun (Llafur – Labour)
Davies, Andrew R.T. (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Byron (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Davies, Keith (Llafur – Labour)
Davies, Paul (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Suzy (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Drakeford, Mark (Llafur – Labour)
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Evans, Rebecca (Llafur – Labour)
Finch-Saunders, Janet (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
George, Russell (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Gething, Vaughan (Llafur – Labour)
Graham, William (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Gregory, Janice (Llafur – Labour)
Griffiths, John (Llafur – Labour)
Griffiths, Lesley (Llafur – Labour)
Gruffydd, Llyr Huws (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Hart, Edwina (Llafur – Labour)
Hedges, Mike (Llafur – Labour)
Hutt, Jane (Llafur – Labour)
Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
James, Julie (Llafur – Labour)
Jenkins, Bethan (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Ann (Llafur – Labour)
Jones, Carwyn (Llafur – Labour)
Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Lewis, Huw (Llafur – Labour)
Melding, David (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Mewies, Sandy (Llafur – Labour)

Millar, Darren (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Morgan, Julie (Llafur – Labour)
Neagle, Lynne (Llafur – Labour)
Parrott, Eluned (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Powell, William (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Price, Gwyn R. (Llafur – Labour)
Ramsay, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Rathbone, Jenny (Llafur – Labour)
Rees, David (Llafur – Labour)
Roberts, Aled (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Sandbach, Antoinette (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Sargeant, Carl (Llafur – Labour)
Skates, Kenneth (Llafur – Labour)
Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)
Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Thomas, Simon (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Watson, Joyce (Llafur – Labour)
Whittle, Lindsay (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)